# Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## 2012-2013



Estyn

*Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **2** | **Cynnwys** |
| **5-17** | **Rhagair** |
| **18-23** | **Ynglŷn ag Estyn** |
| **24-57** | **Adran 1: Bydd sydd angen ei wella?** |
| 25-26 | Y pum argymhelliad uchaf o arolygiadau ysgolion |
| 27 | Y pum argymhelliad uchaf o arolygiadau o ddarparwyr ôl-16 |
| 28 | Pa mor dda yw'r addysgu mewn ysgolion? |
| 29-30 | Beth ydyn ni wedi'i ddweud am addysgu da a rhagorol mewn ysgolion? |
| 31 | Beth ydyn ni wedi'i ddweud am addysgu digonol ac anfoddhaol? |
| 31-36 | Ffactorau sy'n hyrwyddo addysgu da a rhagorol |
| 37-40 | Pa mor dda yw'r addysgu yn y sector ôl-16? |
| 41-42 | Addysg a hyfforddiant cychwynnol i athrawon |
| 43-47 | Dysgu Cymraeg fel ail iaith |
| 48-50 | PISA yn y DU |
| 50-57 | Pa mor dda yw safonau mewn mathemateg? |
| **58-137** | **Adran 2: Adroddiad sector** |
| 58-65 | Ysgolion cynradd |
| 66-73 | Ysgolion uwchradd |
| 74-79 | Ysgolion arbennig a gynhelir |
| 80-85 | Ysgolion arbennig annibynnol |
| 86-91 | Ysgolion prif ffrwd annibynnol |
| 92-95 | Colegau arbenigol annibynnol |
| 96-101 | Unedau cyfeirio disgyblion |
| 102-107 | Lleoliadau i blant dan bump oed |
| 108-115 | Gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc |
| 116-121 | Sefydliadau addysg bellach |
| 122-127 | Dysgu yn y gwaith |
| 128-133 | Dysgu oedolion yn y gymuned |
| 134-137 | Dysgu yn y sector Cyfiawnder |

# Cynnwys

| | |
|---|---|
| **138-151** | **Adran 3: Sylwadau ar berfformiad** |
| 139 | Allwedd i'r derminoleg a ddefnyddir |
| 140 | Perfformiad disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen |
| 141-142 | Perfformiad disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 |
| 143 | Arholiadau yng nghyfnod allweddol 4 |
| 144 | Gwahaniaethau mewn perfformiad rhwng bechgyn a merched |
| 145-146 | Presenoldeb a gwaharddiadau |
| 147 | Dysgwyr ôl-16 mewn ysgolion |
| 148 | Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant |
| 149 | Medrau, addysg bellach a dysgu gydol oes |
| 150 | Addysg bellach |
| 151 | Dysgu yn y gwaith |



**Ann Keane**
Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nhymru

# Rhagair

## Mae fy adroddiad blynyddol eleni wedi'i seilio ar y canfyddiadau o 2012-2013, sef trydedd flwyddyn y cylch arolygu presennol, ac mae hefyd yn myfyrio ar y canfyddiadau o hanner cyntaf y cylch yn ei gyfanrwydd. Mae'r arolygiadau a gynhaliwyd dros y tair blynedd diwethaf yn cwmpasu hanner yr ysgolion a darparwyr addysg a hyfforddiant eraill yng Nghymru.

### Mae'r adroddiad yn cynnwys adrannau ar:

— beth sydd angen ei wella;

— canfyddiadau o'r arolygiadau ym mhob un o'r sectorau addysg a hyfforddiant y byddwn yn eu harolygu; a

— data perfformiad cenedlaethol, gan gynnwys data manwl ar ddeilliannau arolygu ac o ymatebion i holiaduron dysgwyr a rhieni.

Mae'r rhagair hwn yn tynnu sylw at rai o'r casgliadau o arolygiadau a thystiolaeth arall, ac mae'n nodi cynnydd, arfer dda a heriau sy'n parhau.

# Safonau

Er nad ydym yn gweld gwelliannau mewn safonau drwyddi draw, mae rhai sectorau, fel ysgolion arbennig ac ysgolion annibynnol, yn cynnal eu perfformiad uchel.

Mae safonau mewn ysgolion cynradd yn debyg i'r hyn yr oeddent y llynedd. Mae saith o bob deg ysgol gynradd a arolygwyd yn 2012-2013 yn dda, ac mae ryw un o bob pedair ysgol yn ddigonol. Er mai dim ond un ysgol sy'n anfoddhaol, ychydig iawn ohonynt sy'n rhagorol. Bydd oddeutu hanner yr ysgolion cynradd a gafodd eu harolygu yn cael eu monitro mewn ymweliadau 'dilynol'.

Mae safonau mewn ysgolion uwchradd yn amrywio mwy na safonau mewn ysgolion cynradd. Mae llai na hanner ysgolion uwchradd yn dda neu'n well, ac mae'r gyfran sy'n anfoddhaol wedi cynyddu o un o bob saith ysgol i un o bob pedair. Mae un o bob saith ysgol yn rhagorol. Bydd dros ddwy ran o dair o'r ysgolion uwchradd yn cael eu monitro mewn ymweliadau 'dilynol'.

Mae safonau ym mhob un o'r ysgolion arbennig, ac mewn llawer o ysgolion annibynnol, yn dda neu'n rhagorol, ac mae hyn yn debyg i'r sefyllfa y llynedd. Mae safonau yn dda ym mron pob un o'r lleoliadau meithrin i blant dan bump oed. Gwelwyd safonau mwy amrywiol mewn sectorau eraill, heb unrhyw safonau rhagorol mewn addysg bellach, dysgu oedolion a dysgu oedolion yn y gymuned, nac mewn unrhyw awdurdodau lleol eleni.

Mae'n destun siom mai lleiafrif bach yw'r ysgolion hynny sy'n rhagorol. Lle mae safonau'n rhagorol, fodd bynnag, mae ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn gyson ysgogol a chymhellol. Nid oes llawer o wahaniaeth rhwng perfformiad grwpiau gwahanol o ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae gan ddisgyblion yn yr ysgolion hyn fedrau datrys problemau da, maent yn myfyrio ar eu cynnydd eu hunain ac yn gwybod beth i wneud i wella eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'u medrau llythrennedd yn dda iawn fel sail i'w gwaith ar draws y cwricwlwm: datblygant fedrau darllen ac ysgrifennu lefel uwch. Mae safonau mewn Cymraeg yn dda yn gyffredinol. Nodwedd gyffredin yr ysgolion sy'n perfformio'n dda yw bod arweinyddiaeth gadarn gan eu hadrannau pynciau craidd, yn enwedig mewn Cymraeg, Saesneg a mathemateg.

Ym mhob un o'r darparwyr sy'n rhagorol, mae systemau cadarn ar waith i gyflwyno darpariaeth sydd wedi'i theilwra i fodloni anghenion pob grŵp o ddysgwyr, gan gynnwys y rhain dan anfantais, a chynhelir yr ansawdd hwnnw trwy gyfrwng cylch blynyddol o hunanarfarnu onest a chynllunio ar gyfer gwella.

# Lles

Ar draws pob un o'r sectorau ysgol, dywed bron pob un o'r disgyblion eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, a chred llawer ohonynt fod eu hysgol yn delio'n dda â bwlio. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn honni eu bod yn cael digon o gyfleoedd i wneud ymarfer corff yn yr ysgol a bod yr ysgol yn eu helpu i gadw'n iach, er bod y gyfran o ddisgyblion ysgol uwchradd sydd o'r farn fod yr ysgol yn eu haddysgu i fod yn iach yn llai na'r gyfran mewn ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig. Er bod llawer o ysgolion yn ystyried barnau disgyblion ar rai agweddau ar fywyd yr ysgol, nid oes digon o sylw'n cael ei roi i farn disgyblion am beth maent yn ei ddysgu a sut maent yn dysgu.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd wedi gwella. Mae presenoldeb mewn ysgolion cynradd wedi gwella hefyd, ond i raddau llai. Mae absenoliaeth barhaus wedi bod yn gostwng mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, ond mae'n broblem o hyd.

Mae lles disgyblion, gan gynnwys ymddygiad, yn dda neu'n well yn y rhan fwyaf o **ysgolion cynradd** ac **ysgolion arbennig**. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau'r ysgol ac yn cymryd mwyfwy o gyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain.

Mewn llawer o **ysgolion uwchradd**, mae ymddygiad yn gyffredinol dda ac mae gan ddisgyblion agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Fodd bynnag, digonol yn unig neu anfoddhaol yw lles mewn dros draean o ysgolion uwchradd ac mewn dros hanner yr **unedau cyfeirio disgyblion** a arolygwyd eleni. Lle nad yw lles ddim gwell na digonol neu'n anfoddhaol, nid yw'r athrawon yn cymell y disgyblion i ganolbwyntio ar gwblhau eu gwaith. Yn yr ychydig o ysgolion uwchradd lle mae lles yn anfoddhaol, nid yw'r athrawon yn rheoli ymddygiad ac mae disgyblion yn dangos diffyg parch at eraill.

Dywed bron pob un o'r dysgwyr mewn darparwyr **ôl-16** eu bod yn teimlo'n ddiogel yn eu lleoliad dysgu, a chred bron pob un ohonynt fod eu dysgu wedi gwella eu medrau bywyd. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gadarnhaol ynghylch eu lles: dywedant eu bod yn cael eu cymell i gwblhau eu rhaglenni, a siaradant yn gadarnhaol am y cynnydd maent yn ei wneud.

# Lliniaru effaith tlodi mewn ysgolion

Seithfed nod craidd Llywodraeth Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc yw sicrhau nad ydynt "dan anfantais oherwydd tlodi". Serch hynny, y gwir amdani yw bod gormod o ddisgyblion, ar hyn o bryd, yn parhau i fod dan anfantais oherwydd tlodi. Nid yw ysgolion sydd â chyfrannau uchel o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn perfformio gystal ar hyn o bryd â'r ysgolion hynny â disgyblion o gefndiroedd mwy breintiedig. Mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi gwneud mynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad yn flaenoriaeth arbennig, a dylai dyrannu grantiau amddifadedd disgyblion i ysgolion helpu cefnogi mentrau newydd.

Mae'n rhaid i liniaru effaith tlodi fynd ymhellach na gwneud penderfyniadau ynglŷn â sut bydd ysgol yn defnyddio'r grant ei hun. Er mwyn gwneud gwahaniaeth, mae'n rhaid rhoi lle canolog i fynd i'r afael ag effaith tlodi mewn cynlluniau ysgol gyfan. Ar hyn o bryd, nid yw arweinwyr ysgolion yn rhoi digon o flaenoriaeth i hyn. Er bod y rhan fwyaf o ysgolion yn darparu hyfforddiant helaeth i'r staff ar addysgu llythrennedd i bob disgybl, mae llai ohonynt yn rhoi blaenoriaeth i rifedd ac ychydig iawn ohonynt sy'n cynllunio hyfforddiant ar sut i leddfu effeithiau tlodi ar ddysgwyr unigol y mae anfantais yn creu rhwystrau iddynt rhag dysgu.

Mae llawer o resymau pam mae dysgwyr difreintiedig yn tangyflawni, ac mae angen i ysgolion fynd i'r afael â'r rhain ar yr un pryd os ydynt i lwyddo i helpu'r disgyblion hyn i wneud yn dda yn yr ysgol. Mae mabwysiadu dull 'ysgol gyfan' yn golygu bod angen i bob un o'r staff ddeall y rhan y mae'n rhaid iddynt ei chwarae yn y cynllun cyffredinol. Dylai fod cyfres o fentrau arbennig gan ysgolion i gynorthwyo dysgwyr difreintiedig, yn ogystal â pholisïau ac arferion cyffredinol sy'n gymwys i'r holl ddisgyblion, o ran:

— olrhain cynnydd disgyblion;
— hyfforddi a mentora unigolion;
— gwella llythrennedd a medrau meddwl beirniadol;
— datblygu medrau cymdeithasol ac emosiynol;
— cymorth ar gyfer lles, gan gynnwys presenoldeb ac ymddygiad;
— cynnig cwricwlwm perthnasol a chymhellol;
— gwrando ar ddysgwyr; ac
— ymgysylltu â rhieni.

Dylai trywyddau lluosog gweithredu mewn tîm i fynd i'r afael ag anfantais fynd ymhellach na'r ysgol, a dylai gynnwys ei hawdurdod lleol a chonsortia rhanbarthol, yn ogystal â sefydliadau allanol perthnasol, gwasanaethau ac asiantaethau arbenigol, fel gwasanaethau ieuenctid, gwasanaethau iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae sefydlu dealltwriaeth ar y ddwy ochr a chysoni mentrau fel eu bod i gyd yn gweithio yn yr un cyfeiriad yn elfennau allweddol o'r broses hon.

Mae angen medrau arweinyddiaeth lefel uchel i sefydlu'r rhwydweithiau hyn o asiantaethau, eu galluogi i gydweithio, a chael cydweithrediad er mwyn cyflawni nodau cyffredin. Ar hyn o bryd, nid oes digon o gyfleoedd datblygu arweinyddiaeth ar gael i benaethiaid ac uwch arweinwyr eraill ysgolion i'w helpu i ddatblygu'r medrau arweinyddiaeth hyn. Mae diffyg siop un stop o arbenigedd arweinyddiaeth ar gyfer arweinwyr y gallant alw arni am arweiniad a chyngor anffurfiol, i gael cyrsiau hyfforddi, a chydweddu partneriaid ar gyfer hyfforddi a mentora.

Yn sgil arweinyddiaeth ystyriol a gweithredol, mae rhai ysgolion yn gwneud cynnydd nodedig o ran lliniaru effaith anfantais, fel y dangosir isod.

*Yn **Ysgol Gynradd Mount Stuart** yng **Nghaerdydd**, mae 31% o'r disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ac mae 89% o'r disgyblion yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae nodweddion rhagorol yn yr arweinyddiaeth a'r ddarpariaeth yn yr ysgol, ac mae hyn yn arwain at ddeilliannau rhagorol ar gyfer disgyblion. Mae'r staff yn mynd ati'n systematig i fonitro'r addysgu a'r dysgu er mwyn darparu llwyfan cadarn ar gyfer cynllunio'r cyflwyno mewn ffyrdd ymatebol a llawn dychymyg.*

*Mae trefniadau cydweithio rhagorol rhwng yr ysgol, y Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig a Theithwyr a sefydliadau eraill, sy'n sicrhau bod disgyblion o grwpiau sydd mewn perygl o dangyflawni yn gwneud cynnydd da o leiaf, a chynnydd rhagorol yn aml, yn enwedig yn eu medrau llefaredd ac ysgrifennu.*

*Mae staff yr ysgol yn gweithio ochr yn ochr â staff o asiantaethau allanol fel y gallant ddysgu oddi wrth weithwyr arbenigol ynghylch sut i barhau â'r rhaglenni arbenigol gyda'r disgybl rhwng ymweliadau gan yr asiantaethau allanol. Mae'r ysgol hefyd yn gweithio'n eithriadol o dda gyda rhieni a'r gymuned leol. Ceir partneriaeth effeithiol iawn gyda busnes lleol, y mae ei gyflogeion yn darllen gyda'r disgyblion bob wythnos. Mae sesiynau llythrennedd teulu arloesol a boreau agored yn hyrwyddo perthnasoedd agos ac yn galluogi rhieni i gefnogi eu plant gartref. Caiff y partneriaethau hyn a reolir yn dda effaith gadarnhaol ar ddeilliannau ar gyfer disgyblion difreintiedig.*

Mae ysgolion fel Ysgol Mount Stuart yn mabwysiadu dull ysgol gyfan i fynd i'r afael ag anfantais, ac mae ganddynt arweinyddiaeth gref a chyson ar y dull hwnnw. Mae'r penaethiaid yn gwneud yn siŵr eu bod yn datblygu arbenigedd y staff, yn cryfhau cysylltiadau â'r gymuned ac yn sicrhau cymorth rhieni ar gyfer dysgu.

Mae rhai ysgolion yn ysgolion bro go iawn. Mae priodweddau ysgolion bro wedi'u hadrodd droeon. Yn ychwanegol at nodweddion cyffredinol ysgolion cefnogol, fel y nodwyd uchod, maent yn cynnwys y canlynol:

- dysgu y tu allan i oriau ysgol;
- grwpiau anogaeth ar gyfer disgyblion, rhai ohonynt yn cynnwys rhieni;
- cyfleoedd ar gyfer dysgu fel teulu;
- rhaglenni rhianta;
- cymorth amlasiantaeth ar y safle;
- cysylltiadau cadarn â'r gymuned leol a chyfleoedd ar gyfer cyfranogiad cymunedol; ac
- ymrwymiad cyflogwyr lleol.

# Lliniaru effaith tlodi yn y ddarpariaeth ôl-16

Mae colegau addysg bellach wedi gwneud cryn ymdrechion i leihau effaith amddifadedd ar gynnydd dysgwyr trwy roi cymhorthdal tuag at gostau trafnidiaeth, gan y gall y gost i deuluoedd neu ofalwyr i gefnogi oedolion ifanc sy’n mynychu addysg bellach fod yn rhwystr rhag mynychu yn aml. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gynnig Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA) i’r dysgwyr mwyaf difreintiedig i’w hannog i barhau â’u haddysg. Mae llawer o golegau hefyd yn canolbwyntio’n benodol ar geisio recriwtio dysgwyr o ardaloedd difreintiedig lle mae cyfranogiad wedi bod yn is nag mewn ardaloedd eraill yn draddodiadol. Gall dysgwyr o ardaloedd difreintiedig gyflawni’n dda. Efallai nad yw cyfraddau llwyddo dysgwyr sy’n derbyn y LCA yn cael eu cipio ar lefel genedlaethol, ond mae tystiolaeth o sawl coleg bod dysgwyr sy’n derbyn y LCA yn gwneud gystal â dysgwyr eraill ar yr un cyrsiau, er y gall y rhain fod ar lefelau is na lefel 2.

At ei gilydd, mae partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned yn gwneud ymdrech i recriwtio dysgwyr o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae’r dysgwyr hyn yn cyfrif am ryw chwarter o’r holl ddysgwyr dysgu oedolion yn y gymuned, ac maent yn cyflawni cyfraddau llwyddo ychydig yn is na dysgwyr eraill. Nid yw darparwyr awdurdodau lleol yn gwneud digon i sicrhau bod y rhaglenni hynny y bwriadwyd iddynt helpu dysgwyr o ardaloedd difreintiedig yn cael eu cydlynu’n dda. Er enghraifft, nid yw rhaglenni dysgu teuluol yn cael eu hintegreiddio i gynlluniau Teuluoedd yn Gyntaf yn ddigon da. Yn yr un modd, mae angen i bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf a phartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned ddod ynghyd mewn rhaglen gynaledig i gyflwyno dysgu sy’n targedu anghenion penodol mewn ardaloedd difreintiedig.

Pan fydd aelodau hŷn teulu yn mynychu dysgu oedolion yn y gymuned ac yn cyflawni cymwysterau am y tro cyntaf yn eu bywydau, mae hyn yn anfon neges gadarnhaol at aelodau iau’r teulu i’w cymell hwythau i lwyddo mewn addysg neu hyfforddiant.

## Llythrennedd a rhifedd mewn ysgolion

Yn safonau llythrennedd disgyblion y mae'r allwedd i sicrhau mynediad llawn i'r cwricwlwm. I gael cyfle i gyflawni'n dda – ni waeth pa mor freintiedig neu ddifreintiedig yw eu cefndir - rhaid i ddisgyblion allu darllen a deall yr hyn maent yn ei ddarllen, a rhaid iddynt allu cyfleu eu meddyliau a'u proses meddwl yn glir. Mae canlyniadau PISA 2012 yn dangos nad yw safonau mewn llythrennedd a rhifedd yn ddigon da ledled Cymru o hyd, ond mae gennym ysgolion sy'n arwain y ffordd. Mae rhai ysgolion yn gwneud cynnydd sylweddol, fel y dangosir yn yr astudiaethau achos isod:

*Yn **Ysgol Gynradd Gatholig St Phillip Evans, Caerdydd**, mae disgyblion yn gwneud cynnydd yn eu medrau llythrennedd wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae'r ysgol wedi cynnal gwelliannau mewn deilliannau yng nghyfnod allweddol 2 am y pedair blynedd diwethaf, tra bod canran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim wedi cynyddu. Mae uwch arweinwyr yn monitro'r addysgu a chynnydd disgyblion yn ofalus iawn, ac mae'r staff yn croesawu'r dull hwn o sicrhau gwelliant parhaus. Mae'r athrawon yn gweithio gyda'i gilydd i wneud yn siŵr bod eu disgwyliadau yn gyson ar draws yr ysgol, ac mae hyn yn sicrhau safonau llythrennedd uchel.*

*Mae gan **Ysgol Uwchradd Gatholig Joseff Sant, Casnewydd,** hanes da o lwyddo o ran helpu'r rheini sy'n ymuno â'r ysgol â medrau gwannach i wneud cynnydd. Mae'r ysgol yn anelu at gyflawni gwelliant parhaus ym medrau llythrennedd y disgyblion trwy gydol eu gyrfa ysgol. I gyflawni hyn, mae'r athrawon yn gwneud cynlluniau manwl i ddatblygu medrau llythrennedd y disgyblion i adlewyrchu anghenion disgyblion unigol ar bob lefel. Caiff llythrennedd ei arwain yn dda ar draws yr ysgol, ac mae grŵp llywio llythrennedd yn cefnogi mentrau ysgol gyfan fel cyfleoedd datblygiad proffesiynol wedi'u teilwra ar gyfer athrawon, sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion.*

## Pwysigrwydd arweinyddiaeth ar gyfer llythrennedd a rhifedd

Mewn unrhyw ysgol, addysgu da a rhagorol gan arweinwyr pynciau iaith a mathemateg sy'n darparu'r sail i adeiladu cyfleoedd arni i gymhwyso llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm. Ni ellir disgwyl i'r addysgu mewn pynciau eraill gynnwys nodweddion sylfaenol rhif neu ramadeg mewn dosbarthiadau gwyddoniaeth, cerddoriaeth neu hanes. Rhaid i'r gwaith sylfaenol gael ei wneud mewn iaith a mathemateg. Yr hyn y dylai pynciau eraill ei gynnig yw cyfleoedd ysgogol i gymhwyso'r dysgu hwnnw yng nghyd-destunau'r pynciau hynny, lle bo'n berthnasol. Ni ddylai hyn olygu bod llythrennedd a rhifedd yn dod yn fantrâu i'w hailadrodd ym mhob gwers yn ystod y diwrnod ysgol, heb ots beth yw'r testun. Yn sicr, nid oes gan arolygwyr flychau llythrennedd a rhifedd y mae'n rhaid eu ticio pa bryd bynnag y byddant yn arsylwi gwersi yn ystod arolygiadau. Yr hyn y gellir ei ddisgwyl yw, lle bo cyfleoedd yn digwydd yn naturiol yn y cwricwlwm i atgyfnerthu'r dysgu mewn llythrennedd a rhifedd, y dylai athrawon fanteisio arnynt. Ac mae hynny'n golygu bod angen i bob athro fod yn rhan o gynllunio ar draws y cwricwlwm ac ar draws cyfnodau.

Er na ddylai fod angen llusgo llythrennedd a rhifedd yn artiffisial i mewn i bob gwers, mae dealltwriaeth o'r iaith sy'n cael ei defnyddio yn rhagofyniad ar gyfer rhyngweithio ym mhob achos. Yn ffolderi ac aseiniadau'r disgyblion ar draws y cwricwlwm, dylai fod tystiolaeth o gynnydd mewn ysgrifennu a dealltwriaeth. A dylai tystiolaeth o gynnydd mewn rhifedd gael ei hadlewyrchu yn y ffordd y mae disgyblion yn cymhwyso'u dysgu mathemategol i helpu datrys problemau neu esbonio data mewn gwyddoniaeth, daearyddiaeth neu dechnoleg. Ond ni ddylai fod angen i dystiolaeth o gynnydd mewn llythrennedd a rhifedd gynnwys cynhyrchu portffolios o dystiolaeth o weithgareddau sydd ar wahân i'r cwricwlwm prif ffrwd, neu rai sy'n or-ragnodedig ac wedi'i sgaffaldio. Dylai'r dysgu fod yn ddigon hyblyg fel bod disgyblion yn gallu trosglwyddo medrau'n hawdd fel y bo'n briodol.

## Mentrau cenedlaethol mewn llythrennedd a rhifedd

Mae'r fframwaith llythrennedd a rhifedd cenedlaethol a'r rhaglen gymorth genedlaethol bellach yn eu lle ar gyfer ysgolion, a dylent helpu arweinwyr i osod safonau penodol i athrawon eu defnyddio yn eu cynllunio a'u hasesu. Mae'r fframwaith llythrennedd a rhifedd cenedlaethol yn pennu disgwyliadau clir ar gyfer llythrennedd a rhifedd yng nghyfnodau allweddol 2 a 3, ac mae'r meysydd llafur newydd sy'n cael eu dylunio ar gyfer TGAU Saesneg/Cymraeg a mathemateg yn cynnig cyfle i adeiladu ar y safonau hyn. Dylai'r meysydd llafur TGAU hyn hefyd ystyried dadansoddiad o'n cryfderau a'n gwendidau yn neilliannau PISA 2012. Yn adran 1 yr adroddiad hwn, rwyf yn amlinellu'r hyn y gellir ei ddysgu o edrych yn fanwl ar ddeilliannau PISA mewn mathemateg.

Ochr yn ochr â chyflwyno'r fframwaith llythrennedd a rhifedd a'r profion disgyblion blynyddol, rhaid i ni beidio ag anghofio'r angen i gynnwys athrawon ar draws pob sector mewn datblygiad proffesiynol os ydym am roi cynlluniau ar waith yn hyderus er mwyn gwella lefelau llythrennedd a rhifedd. Byddai sefydlu canolfannau rhagoriaeth mewn ysgolion penodol lle mae cryfderau mewn iaith neu fathemateg yn barod yn creu cronfeydd o arbenigedd ac adnoddau mewn clystyrau o ysgolion ledled Cymru.

Cyfrifoldeb y staff yn y canolfannau rhagoriaeth hyn fyddai diweddaru athrawon mewn mannau eraill trwy gyfrwng rhaglen deilwredig o hyfforddiant a chymorth, yn seiliedig ar arfer dda ac ymchwil. Byddai hynny'n golygu y byddai'r canolfannau hyn yn arwain ac yn galluogi newid diwylliant mewn ysgolion eraill, fel bod modd rhoi mentrau ar waith yn gadarn ac yn gyson.

Dylai unrhyw fodel felly ar gyfer arwain newid gynnwys athrawon y mae eu harbenigedd a'u hymrwymiad yn cael effaith ar safonau ar hyn o bryd yn eu hystafelloedd dosbarth eu hunain. Ac mae gan gonsortia rhanbarthol a darparwyr addysg athrawon ran i'w chwarae fel partneriaid â'r canolfannau rhagoriaeth, fel y gellir brocera cymorth ar draws clystyrau o ysgolion yn ogystal â bod o fudd i athrawon dan hyfforddiant.

## Llythrennedd a rhifedd yn y ddarpariaeth ôl-16

Mae darparwyr ôl-16 yn llwyddo i nodi diffygion llythrennedd a rhifedd dysgwyr drwy gynnal sgrinio cychwynnol adeg mynediad, a chynigiant gymorth ychwanegol i unigolion. Serch hynny, mae ganddynt ffordd bellach i fynd i gynllunio cyrsiau sy'n helpu pob dysgwr i gymhwyso'i fedrau llythrennedd a rhifedd mewn cyd-destunau go iawn. Mae'r sector dysgu yn y gwaith wedi dechrau addasu'r cyflwyno i helpu dysgwyr i wneud mwy o gynnydd, ond nid yw rhai darparwyr dysgu yn y gwaith yn gwneud yn siŵr o hyd bod pob dysgwr yn gadael ei hyfforddiant gyda lefelau llythrennedd a rhifedd gweithredol da. Mae ymgorffori llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm ôl-16 yn mynnu arweinyddiaeth a chydweithredu gan y staff ym mhob maes dysgu.

*Yng* ***Ngholeg Iâl (Consortiwm Sgiliau Canolbarth a Gogledd Cymru)****, caiff yr holl ddysgwyr yn y gwaith eu hasesu pan fyddant yn cychwyn ar eu rhaglen. Caiff canlyniadau'r asesiad diagnostig hwn eu defnyddio i ddatblygu rhaglenni dysgu unigol mewn llythrennedd a rhifedd. Mae athrawon a mentoriaid hyfforddwyr yn defnyddio adolygiadau rheolaidd o ddysgu i gefnogi a monitro cynnydd dysgwyr. Yn yr ystafell ddosbarth, mae llythrennedd a rhifedd wedi'u hymgorffori'n dda mewn cynlluniau dysgu galwedigaethol. Mae athrawon yn cynllunio ffyrdd i ddatblygu'r medrau llythrennedd a rhifedd penodol y bydd eu hangen ar ddysgwyr yn eu cyd-destun galwedigaethol. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel a phenodol pan fyddant yn marcio gwaith, cânt eu harwain gan y targedau llythrennedd a rhifedd sydd wedi'u cytuno mewn cynlluniau dysgu unigol, ac maent yn rhoi adborth i annog dysgwyr i wneud cynnydd yn gyflym tuag at y targedau hynny*

Nid yw myfyrwyr mewn addysg ôl-16 nad ydynt wedi cyflawni cyfwerth â lefel 2 mewn Cymraeg neu Saesneg a mathemateg erbyn eu bod yn 16 oed yn cael eu hannog bob amser i ddyfalbarhau i weithio tuag at lefel 2. Er mwyn codi lefelau cyflawniad drwyddi draw, mae angen i'r rheini sydd eisoes wedi cyflawni ar lefel 2 cyn ymrestru gael eu hannog yn fwy systematig i weithio ar lefel uwch yn y pynciau hanfodol hyn.

# Arweinyddiaeth mewn ysgolion

Mae'n amlwg o ddarllen ein hadroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar 'Teithiau gwella deuddeg ysgol uwchradd' mai un o'r ffactorau allweddol mewn unrhyw daith wella yw arweinyddiaeth gref a gweledigaethol. Ni fu digon o gymorth ar lefel genedlaethol yng Nghymru i ddatblygu arweinwyr yn systematig trwy gynnig rhaglenni hyfforddi a mentora i ddarpar reolwyr canol ac uwch reolwyr.

Ar hyn o bryd, mae arweinyddiaeth yn dda neu'n well mewn 77% o ysgolion cynradd a 55% o ysgolion uwchradd. Ond mae 'angen gwelliant sylweddol' ar 5% o ysgolion, ac mae gofyn rhoi 'mesurau arbennig' ar waith mewn 4% o ysgolion. Mae angen ymweliadau dilynol mewn 70% o'r ysgolion uwchradd a arolygwyd gennym eleni, ac mewn 48% o'r ysgolion cynradd. Ceir safonau rhagorol mewn 15% o ysgolion uwchradd. Mae angen i ni newid cydbwysedd y canrannau hynny fel bod mwy o ysgolion yn rhagorol, a bod angen monitro ar lai o ysgolion. Dyma'r her i arweinwyr a llywodraethwyr.

Mae arweinwyr rhagorol yn deall dylai prif ffocws gwella ysgolion fod ar wella'r addysgu a'r dysgu. Mewn ychydig o ysgolion, mae arweinwyr wedi llwyddo i wella'r addysgu yn sylweddol trwy ddatblygu medrau ac arbenigedd proffesiynol yr athrawon. Mae'r ysgolion gorau ar y blaen o ran gwneud yn siŵr bod athrawon yn deall dulliau newydd o gynllunio ar gyfer dysgu. Cynigiant gyfleoedd rheolaidd wedi'u cynllunio i'r staff fyfyrio ar eu haddysgu, a threfnant gyfarfodydd, gweithgorau, HMS, a gweithdai addysgu sy'n cydategu ei gilydd ac yn magu hyder yr athrawon. Maent yn defnyddio cyd-destun proffesiynol ehangach mewn clwstwr neu deulu i ddatblygu addysgeg pwnc a maes dysgu ac i arfarnu effaith yr hyfforddiant a ddarperir.

Mae ysgolion rhagorol yn mynd ati i ddysgu o'u camgymeriadau ac yn cymryd o ddifrif awgrymiadau gan ddisgyblion ynghylch sut i wella eu profiadau dysgu. Maent yn rhoi pwyslais cryf ar feithrin hyder y disgyblion o ran defnyddio iaith a meddwl yn greadigol am broblemau a materion, ond hyd yn oed yn yr ysgolion gwell, nid yw medrau rhif sylfaenol disgyblion yn ddigon cadarn yn aml.

I'r gwrthwyneb, yr ysgolion sy'n ei chael hi'n anodd fel arfer yw'r ysgolion hynny sy'n methu â nodi neu roi blaenoriaeth gywir i'r hyn y mae angen iddynt ei wella. Mae diffyg hunanymwybyddiaeth gan eu harweinwyr, ac nid yw prosesau hunanarfarnu'n ddigon trwyadl, yn aml am nad ydynt wedi'u seilio ar arsylwi addysgu a gwaith disgyblion yn uniongyrchol, neu ar farnau rhieni a disgyblion. Mae'r angen i reoli perfformiad, ac i wella'r addysgu yn arbennig, yn cael ei golli yn aml neu nid eir i'r afael â'r angen hwnnw. Mae adroddiadau arolygu ym mhob sector yn cynnwys argymhellion am yr addysgu yn aml, a rhoddir dadansoddiad manylach o'r rhain, ac argymhellion eraill o adroddiadau arolygu, yn adran 1 yr adroddiad blynyddol hwn.

# Gweithio mewn partneriaeth ac arweinyddiaeth

Ychydig o ysgolion sy'n gallu mentro ar eu pennau'u hunain, ac ychydig o unigolion sy'n gallu cynnal ansawdd uchel ar wahân i rai eraill. Mae cryn dipyn o welliant sefydliadol yn golygu gweithio mewn partneriaethau rhwng un unigolyn ac eraill, a rhwng un tîm a thîm arall mewn ysgol. Ceir partneriaethau allanol gyda rhieni a gydag asiantaethau fel gwasanaethau plant, seicolegwyr addysgol a swyddogion lles addysg, ac mae'n rhaid rheoli'r rhain yn ofalus os yw'r cymorth sy'n cael ei gyflwyno ar y cyd rhwng yr ysgol a'r asiantaethau hyn yn mynd i wella cyfleoedd bywyd y plant.

Mae'r gwaith y mae ysgolion yn ei wneud gyda chonsortia rhanbarthol, gyda'i gilydd a gydag asiantaethau eraill, yn mynnu cydweithredu rhwng rhwydweithiau o unigolion neu grwpiau. Mae gofyn am fedrau arweinyddiaeth penodol i ffurfio, defnyddio a chynnal cysylltiadau mewn rhwydwaith, ac mae gofyn am fedrau mwy i arwain ar draws rhwydweithiau er mwyn cyflawni amcanion ar y cyd. Mae'r gallu i hwyluso yn bwysig yn y cyd-destun hwn. Trwy ddweud hynny, nid cadeirio cyfarfodydd yn unig rwy'n ei olygu, ond sefydlu rhwydweithiau o unigolion hefyd a'u galluogi i gydweithio a chydweithredu, a sefydlu'r amodau iddynt allu cyflawni yn unol ag amcanion, a bod yn arloesol.

Mae gweithio ar y cyd yn mynnu medrau i sefydlu cyd-ddealltwriaeth o'r deilliannau i'w cyflawni, sy'n golygu arfer medrau cyd-drafod gydag eraill a dylanwadu ar eraill. Mae sefydlu ymdeimlad o ddiben y mae pawb yn ei ddeall yn hollbwysig. Mae'n golygu bod rhaid i arweinwyr ddeall sut i ddod o hyd i a defnyddio'r llinellau dylanwad hynny sy'n arwain o strategaeth at weithredu cyflawni newid neu arloesedd. Mae hyn yn cynnwys deall sut mae partneriaid a rhwydweithiau yn gweithio a beth yw'r cyfyngiadau sydd arnynt.

Rhaid i arweinwyr lunio model ar gyfer dylanwadu ar ymddygiadau mewn ffordd sy'n galluogi cyflawni nodau, hyd yn oed mewn sefyllfaoedd lle nad ydynt yn rheolwyr llinell ar yr unigolion sy'n cyflwyno'r gwasanaeth am eu bod yn cael eu cyflogi gan asiantaeth arall. Gall penodiadau ar y cyd ar draws asiantaethau fod yn offeryn defnyddiol i annog cydgyfrifoldeb a chyd-atebolrwydd am gyflawni yn yr amgylchiadau hyn.

Mae angen i ni feddwl mewn ffordd fwy soffistigedig ynglŷn â sut i lunio ein disgwyliadau o ba fath o arweinyddiaeth a fydd yn arwain at newid. Nid yw rhoi arweiniad a phennu polisi neu arolygu cydymffurfio yn ddigon. Dim ond mewn sefyllfaoedd eithafol y gellir cynnal model arweinyddiaeth 'gorchymyn a rheoli'. Mae angen ymyrraeth o'r tu allan ar ysgol neu ddarparwr yn y categori mesurau arbennig am fod y trefniadau arwain presennol yn gamweithredol, ond mae'r sefyllfa hon yn gymharol brin o hyd.

Yn fwy cyffredin, dylai sefydlu cydamcanion a chynllunio newid fod yn fwy cynnil, a dylai ymwneud â newid meddylfryd yn yr ystyr orau, ehangu gorwelion, cysoni mentrau a chamau gweithredu, dylanwadu ar eraill, datblygu potensial a hwyluso dysgu. I hyn i weithio ar hyd a lled Cymru, mae angen i bawb yn y system addysg fod yn barod i ddysgu mwy, i ddysgu'n well a chymhwyso'u dysgu. Mae hynny'n cynnwys plant, pobl ifanc, athrawon, staff cymorth, ymgynghorwyr, arolygwyr, penaethiaid, rheolwyr, cyfarwyddwyr a llunwyr polisi.

# Gwasanaethau addysg awdurdodau lleol

Rydym bellach wedi cwblhau'r cylch o arolygiadau o wasanaethau addysg awdurdodau lleol. Erbyn diwedd blwyddyn academaidd 2012-2013 roeddem wedi cwblhau 21 o arolygiadau, gyda'r arolygiad olaf o Geredigion yn cael ei gynnal yn nhymor yr hydref 2013. Yn y cyfnod rhwng 2010 a 2013, canfuwyd fod angen arolygiad dilynol ar 15 o awdurdodau lleol. Lle mae'r meysydd i'w gwella yn amlwg, fel ar gyfer ysgolion, dynodir bod awdurdod lleol mewn categori 'peri pryder', sy'n golygu bod angen rhoi mesurau arbennig ar waith ynddo neu fod angen gwelliant sylweddol arno. Mae dros chwarter yr awdurdodau lleol a arolygwyd wedi'u gosod mewn categori 'peri pryder'. Erbyn hyn, fodd bynnag, canfyddir trwy fonitro dilynol fod nifer ohonynt yn gwneud gwelliannau.

Amlinellais yn fanwl yn adroddiad blynyddol y llynedd y diffygion y mae arolygwyr yn eu nodi yn y gwasanaethau awdurdodau lleol hyn. Mae diffygion tebyg, yn ogystal â chryfderau, wedi'u gweld yn arolygiadau eleni. Ceir pennod fanwl ar y canfyddiadau o arolygiadau eleni o wasanaethau awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc yn adran 2 yr adroddiad hwn.

Mae'r broses o symud gwasanaethau gwella ysgolion o 22 o awdurdodau lleol i bedwar consortia rhanbarthol wedi'i chwblhau erbyn hyn. Fodd bynnag, mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu a chyflwyno yn y pedwar consortiwm rhanbarthol wedi amrywio gormod, fel y nodwyd yn adroddiad Hill, a gweithredodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar hynny. Cynhaliwyd adolygiad o'r model cenedlaethol ar gyfer cyflwyno gwasanaethau gwella ysgolion, ac fe'i cymhlethir gan y ffaith fod y gwasanaeth gwella ysgolion yn parhau'n ddyletswydd yr awdurdod lleol, ac yn destun craffu yng nghyd-destun atebolrwydd democrataidd lleol.

Ar hyn o bryd, rydym yn dal i wynebu materion yn ymwneud â chymhlethdod strwythurol a methiannau o ran capasiti, galluogrwydd a chraffu mewn perthynas â chyflwyno'r ystod o wasanaethau addysg i blant a phobl ifanc, ond mae cryfderau hefyd, sy'n cynnig cyfleoedd i rannu atebion a all gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus effeithlon hyd yn oed ar adeg o galedi. Ac, wrth gwrs, ni fydd gwneud newidiadau strwythurol yn ddigon ar ei ben ei hun i sicrhau gwelliannau mewn darpariaeth a safonau yn yr ystafell ddosbarth. Mae angen i ni ddod o hyd i fwy o ffyrdd o gefnogi athrawon i adeiladu capasiti ac i wneud eu newidiadau eu hunain er mwyn diweddaru eu sylfaen wybodaeth a'u medrau addysgu.

# Casgliad

Er bod cynnydd o ran cau'r bwlch â Lloegr o ran canlyniadau TGAU, ac o ran gwella deilliannau PISA, yn parhau yn anghyson, ac er nad yw deilliannau arolygu yn dangos tuedd am i fyny eto yn y rhan fwyaf o sectorau, mae llawer o ddarparwyr unigol y nodwyd yn y lle cyntaf bod angen arolygiadau dilynol arnynt yn ystod y cylch arolygu presennol, wedi gwneud gwelliannau sylweddol. Mae'r astudiaethau achos isod yn dangos y gwelliannau a ganfuom pan gynhaliom ymweliadau dilynol ar ôl arolygiadau craidd a nododd angen i wella gyntaf.

*Arolygwyd **Ysgol Penrhyn New Broughton Primary School** ger Wrecsam yn 2011, a chanfuwyd fod angen rhoi mesurau arbennig ar waith ynddi.*

*Yn Ebrill 2013, ar ôl sawl ymweliad monitro, canfu arolygwyr nad oedd angen mesurau arbennig ar waith yn yr ysgol mwyach. Roedd perfformiad disgyblion wedi gwella'n raddol er 2011, ac mae perfformiad o ran y dangosydd pwnc craidd yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg erbyn hyn.*

*Bellach, mae gan yr ysgol dîm arweinyddiaeth estynedig gyda rolau a chyfrifoldebau sydd wedi'u diffinio'n glir. Caiff dyletswyddau eu rhannu rhwng mwy o staff, ac mae'r staff yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod cynnydd mentrau newydd.*

*Mae system gadarn gan yr ysgol ar gyfer casglu tystiolaeth uniongyrchol o safonau. Mae llyfrau disgyblion yn cael eu craffu a chynhelir arsylwadau o wersi. Mae athrawon wedi archwilio'r sylw a roddir ganddynt i fedrau ar draws y cwricwlwm, ac mae hyn wedi nodi bylchau. O ganlyniad, maent wedi cynhyrchu cynlluniau i ddisgyblion i ymarfer a chymhwyso medrau ar lefel briodol ar draws yr holl feysydd pwnc.*

*Mae'r athrawon wedi pennu meini prawf llwyddo clir wrth gynllunio gwersi. Mae'r heriau a osodir ganddynt yn cyfateb i ystod anghenion y disgyblion, gan gynnwys anghenion y disgyblion mwy galluog. Mae pob un o'r athrawon yn dilyn polisi marcio'r ysgol yn gyson, a chaiff y disgyblion eu hunain eu cynnwys wrth osod targedau sy'n seiliedig ar wybod ble mae angen iddynt wella.*

*Mae addysgu ffoneg yn systematig ar draws yr ysgol wedi helpu codi safonau mewn darllen a sillafu. Mewn sesiynau darllen strwythuredig dan arweiniad, mae'r disgyblion yn frwdfrydig ynglŷn â'r testunau y maent yn eu darllen, ac yn eu deall. Mae safonau ysgrifennu'r disgyblion wedi gwella ym mhob pwnc dros y misoedd diwethaf.*

*Mae mwy o ddisgyblion nag yn y gorffennol yn gwneud cynnydd mewn mathemateg hefyd, ac maent yn ymarfer eu medrau rhifedd yn systematig ar draws y cwricwlwm.*

*Yn Hydref 2011, canfu arolygwyr fod y ddarpariaeth partneriaeth ar gyfer **dysgu oedolion yn y gymuned yn Wrecsam** yn anfoddhaol. Cynhaliodd Estyn ymweliad dilynol ym mis Mawrth 2013 a chanfu fod partneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned Wrecsam wedi gwneud cynnydd da.*

*Roedd y bartneriaeth wedi nodi beth roedd ei angen ar ddysgwyr yn y gymuned. Bu'n ymgynghori'n eang â dysgwyr presennol a gydag oedolion nad ydynt mewn dysgu. Defnyddiodd grwpiau ffocws o ddysgwyr yn ogystal â gwybodaeth am y farchnad lafur i nodi pa fath o ddysgu yr oedd ei angen. O ganlyniad, gallai'r bartneriaeth ymateb gyda chynllun cwricwlwm yn seiliedig ar ddadansoddiad o anghenion, a oedd hefyd yn adlewyrchu'r blaenoriaethau cenedlaethol.*

*Erbyn hyn, mae'r bartneriaeth yn monitro data'n gyson er mwyn arfarnu'r ddarpariaeth bresennol, er mwyn gwneud yn siŵr ei bod yn parhau i fodloni anghenion dysgwyr. Mae dadansoddiadau o'r data yn ystyried cydbwysedd rhwng y rhywiau wrth recriwtio, yn ogystal â chynrychiolaeth cod post a phellteroedd teithio i ddysgu.*

*Mae'r bartneriaeth wedi diwygio'i chynllun datblygu ansawdd i gynnwys targedau a graddfeydd amser mwy penodol a mesuradwy. Mae'r cynllun diwygiedig yn nodi'r bobl sy'n gyfrifol am gwblhau pob cam gweithredu. O ganlyniad, mae darparwyr yn y bartneriaeth yn bodloni disgwyliadau uwch erbyn hyn, ac mae systemau sicrhau ansawdd yn cael eu rhoi ar waith a fydd yn monitro'r buddion i ddysgwyr yn yr ystafell ddosbarth neu'r gweithdy.*

Cliciwch yma i fynd i wefan Estyn i weld ffilm fer am sut y mae darparwyr wedi bod yn defnyddio fy adroddiad blynyddol i wneud gwelliannau yn eu lleoliadau.

Mae astudiaethau achos trwy gydol yr adroddiad hwn sy'n dangos arfer orau a theithiau gwella. Rwy'n eich llongyfarch os yw eich ysgol neu'ch darparwr chi yn eu plith, ac anogaf y rheini ohonoch nad ydych yno eto i weld beth y gallwch ei ennill o gysylltu â'r ysgol neu'r darparwr sy'n dangos arfer orau mewn maes sy'n peri pryder i chi.

Ann Keane

Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru







# Ynghylch Adroddiad Blynyddol PAEM

Estyn yw swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n ariannu Estyn, ond rydyn ni'n annibynnol ar y Cynulliad.  Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

# Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a lleoliadau meithrin y mae awdurdodau lleol yn eu cynnal neu'n eu hariannu;
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- colegau arbenigol annibynnol;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- Cymraeg i oedolion;
- dysgu yn y gwaith; a
- dysgu yn y sector Cyfiawnder.

Nod uniongyrchol ein gwaith arolygu yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant ar hyd a lled Cymru.

Yn nifer o'r sectorau, rydyn ni'n gweithio gyda chyrff rheoleiddio ac arolygiaethau eraill i arolygu'r ddarpariaeth. Rydyn ni'n gweithio gyda'n partneriaid yn Ofsted i arolygu'r ddarpariaeth dysgu yn y gwaith sydd ar waith yng Nghymru a Lloegr fel ei gilydd. Mae ein harolygwyr yn cydweithio ag AGGCC i arolygu ysgolion preswyl a chartrefi plant diogel awdurdodau lleol. Rydyn ni hefyd yn cymryd rhan mewn arolygiadau dan arweiniad Arolygiaeth Prawf EM, o dimau troseddau ieuenctid (TTI) yng Nghymru. Rydyn ni'n ymuno ag Arolygiaeth Carchardai EM ac Ofsted i arolygu sefydliadau ar gyfer troseddwyr ifanc yn Lloegr sydd â nifer sylweddol o bobl ifanc o Gymru. Rydyn ni hefyd yn cynnwys arolygwyr o Swyddfa Archwilio Cymru pan fyddwn ni'n arolygu gwasanaethau addysg awdurdodau lleol.

Rydyn ni hefyd yn cynnig cyngor ar faterion penodol i Lywodraeth Cymru mewn ymateb i gylch gwaith blynyddol mae'r Gweinidog Addysg yn ei roi i ni. Mae ein cyngor ni'n cynnig tystiolaeth o effaith strategaethau, polisïau a mentrau Llywodraeth Cymru ar addysg a hyfforddiant dysgwyr.

Rydyn ni'n cyhoeddi enghreifftiau o arfer dda ar sail tystiolaeth arolygu. Gallwn ni edrych o safbwynt unigryw ac annibynnol ar safonau ac ansawdd pob agwedd ar addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae gwneud hyn yn cyfrannu at y polisïau ar addysg a hyfforddiant sydd wedi'u cyflwyno ar hyd a lled Cymru.

Am fwy o wybodaeth am ein gwaith a'n dulliau gweithio, dilynwch y ddolen yma: www.estyn.gov.uk

# Y cylch arolygu dan sylw yn yr adroddiad yma

Dechreuodd cylch arolygu chwe blynedd newydd ym mis Medi 2010. Pan fyddwn ni'n arolygu rydyn ni'n defnyddio ein Fframwaith Arolygu Cyffredin ar gyfer addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae'r fframwaith yma'n cynnwys tri chwestiwn allweddol a deg o ddangosyddion ansawdd, ac maen nhw wedi'u trefnu dan y penawdau sy'n dilyn:

**Pa mor dda yw'r deilliannau?**

1.1 Safonau
1.2 Lles

**Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

2.1 Profiadau dysgu
2.2 Addysgu
2.3 Gofal, cymorth ac arweiniad
2.4 Yr amgylchedd dysgu

**Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

3.1 Arweinyddiaeth
3.2 Gwella ansawdd
3.3 Gweithio mewn partneriaethau
3.4 Rheoli adnoddau

Rydyn ni hefyd yn rhoi dwy farn gyffredinol ary perfformiad presennol ac ar y rhagolygon ar gyfer gwella.

Rydyn ni'n defnyddio'r raddfa bedwar pwynt sy'n dilyn i ddangos ein barnau arolygu.

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| Rhagorol | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| Da | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| Digonol | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| Anfoddhaol | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella'n gorbwyso'r cryfderau |

Mewn arolygiadau o wasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc, rydyn ni'n creu adroddiadau ar y ddarpariaeth dan bedwar pennawd:

2.1 Cymorth ar gyfer gwella ysgolion
2.2 Cymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiant addysgol
2.3 Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a lles
2.4 Mynediad a lleoedd ysgol

# Gweithgarwch dilynol

Yn ystod arolygiad, rydym yn ystyried p'un a oes angen unrhyw weithgarwch dilynol ar y darparwr.

Gall hyn amrywio o nodi arfer ragorol i argymell mesurau arbennig. Mae'r tabl isod yn dangos y gwahanol fathau o weithgarwch dilynol ac i ba sectorau y maent yn berthnasol.

| | Ysgolion a gynhelir | Unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) | Awdurdodau lleol | Lleoliadau nas cynhelir | Ôl-16 | Hyfforddiant cychwynnol i athrawon |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Arfer ragorol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Monitro gan yr awdurdod lleol | ✓ | | | ✓ | | |
| Monitro gan Estyn | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Gwelliant â ffocws | | | | ✓ | | |
| Gwelliant sylweddol | ✓ | ✓ | ✓ | | | |
| Mesurau arbennig | ✓ | ✓ | ✓ | | | |
| Ailarolygiad | | | | | ✓ | ✓ |

| Categori | Esboniad |
|---|---|
| Arfer ragorol | Os yw darparwr yn cael unrhyw farnau rhagorol ac y nodir felly bod ganddo arfer sy'n arwain y sector mewn un maes neu fwy, bydd yn cael ei wahodd i ysgrifennu astudiaeth achos i'w rhannu gyda darparwyr eraill. Gellir cyhoeddi'r astudiaeth achos ar wefan Estyn. |
| Monitro gan yr awdurdod lleol | Bydd awdurdodau lleol yn gweithio gyda'r darparwr i fynd i'r afael â'r argymhellion a amlygwyd yn yr adroddiad. Bydd swyddogion yr awdurdod lleol yn trafod cynnydd gydag arolygydd cyswllt Estyn ar gyfer yr awdurdod lleol. Tua blwyddyn ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu, bydd yr awdurdod lleol yn ysgrifennu adroddiad i Estyn, yn esbonio'r modd y mae'r darparwr wedi gwneud cynnydd. |
| Monitro gan Estyn | Gan amlaf, bydd angen y lefel hon o weithgarwch pan fydd o leiaf un o'r barnau cyffredinol ar gyfer darparwr yn ddigonol, ond nid yw'n achosi pryder i'r graddau bod angen gwelliant sylweddol neu fesurau arbennig arno. Fel arfer, bydd tîm bach o arolygwyr Estyn yn ymweld â'r darparwr i farnu cynnydd tua blwyddyn i 18 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad. |
| Gwelliant â ffocws | Os nodir bod angen gwelliant â ffocws ar leoliad nas cynhelir, bydd Estyn yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am ei bryderon. Rhaid i bwyllgor rheoli / perchennog y lleoliad anfon eu cynlluniau gweithredu i Estyn i'w cymeradwyo. Bydd arolygydd Estyn yn ymweld â'r lleoliad bob tymor am hyd at dri thymor yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad arolygu. Os nad yw'r lleoliad yn gwneud digon o gynnydd, bydd Estyn yn cysylltu â'r awdurdod lleol i awgrymu bod cyllid yn cael ei dynnu'n ôl o'r lleoliad gan nad yw'n darparu addysg o safon dderbyniol. |
| Gwelliant sylweddol | Bydd Estyn yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru bod y darparwr wedi cael ei roi mewn categori statudol. Rhaid i'r darparwr anfon ei gynllun gweithredu i Estyn i'w gymeradwyo. Bydd tîm bach o arolygwyr Estyn fel arfer yn ymweld â'r darparwr i farnu cynnydd tua blwyddyn i 18 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu. Os yw cynnydd yn annigonol, bydd y tîm yn ystyried p'un a oes angen mesurau arbennig ar y darparwr. |
| Mesurau arbennig | Os nodir bod angen mesurau arbennig ar ddarparwr, bydd Estyn yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru ei fod wedi cael ei roi mewn categori statudol. Rhaid i'r darparwr anfon ei gynllun gweithredu i Estyn i'w gymeradwyo. Bydd tîm bach o arolygwyr Estyn fel arfer yn ymweld â'r darparwr bob tymor yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad arolygu. Bydd arolygwyr yn canolbwyntio ar y cynnydd y mae'r darparwr wedi'i wneud tuag at fynd i'r afael â'r argymhellion a amlygwyd yn yr adroddiad. Bydd Estyn yn parhau i gynnal ymweliadau monitro nes bod y Prif Arolygydd yn penderfynu bod y darparwr wedi gwella ddigon i'w dynnu o'r categori mesurau arbennig. |
| Monitro gan Estyn: ôl-16 | Os nodir bod angen i ddarparwr hyfforddiant cychwynnol i athrawon gael ei fonitro gan dîm Estyn, bydd tîm bach o arolygwyr Estyn yn ymweld â'r darparwr i farnu cynnydd tua blwyddyn yn ddiweddarach. Os yw arolygwyr yn barnu bod cynnydd annigonol wedi'i wneud, gallai hyn arwain at ailarolygiad llawn. Yn dilyn monitro gan Estyn, bydd llythyr yn cael ei gyhoeddi ar wefan Estyn, yn adrodd ar ganfyddiadau'r ymweliad monitro. |
| Ailarolygiad | Os nodir bod angen ailarolygiad llawn ar ddarparwr hyfforddiant ôl-16 neu ddarparwr hyfforddiant cychwynnol i athrawon, bydd yr arolygiaeth yn ysgrifennu llythyr at y darparwr, gyda chopi i'r Adran Addysg a Sgiliau (AdAS), ac, yn achos hyfforddiant cychwynnol i athrawon, i'r Cyngor Cyllido Addysg Uwch (CCAUC), yn nodi'r meysydd y mae angen eu gwella, a bydd yn cynnal ailarolygiad llawn o'r darparwr ymhen blwyddyn i 18 mis. Ar ôl yr ailarolygiad, bydd Estyn yn cyhoeddi adroddiad llawn yn arfarnu'r cynnydd a wnaed gan y darparwr. Os yw'r tîm yn barnu bod cynnydd annigonol wedi'i wneud ar ddiwedd ailarolygiad, adroddir am hyn wrth yr AdAS, ac wrth CCAUC yn achos hyfforddiant cychwynnol i athrawon, fel rhan o'u gweithdrefnau rheoli contract. |

# Esboniad o'r geiriau a'r ymadroddion rydyn ni'n eu defnyddio i ddisgrifio'n harfarniadau

Y geiriau a'r ymadroddion yng ngholofn chwith y tabl sy'n dilyn yw'r rheini'r ydyn ni'n eu defnyddio i ddisgrifio'n harfarniadau. Yr ymadroddion yn y golofn dde yw'r esboniadau mwy manwl-gywir.

| | |
|---|---|
| **bron bob un** | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| **y rhan fwyaf** | 90% neu fwy |
| **llawer** | 70% neu fwy |
| **mwyafrif** | dros 60% |
| **hanner neu tua hanner** | agos at 50% |
| **lleiafrif** | o dan 40% |
| **ychydig** | o dan 20% |
| **ychydig iawn** | llai na 10% |

### Nodiadau am y data rydyn ni'n eu defnyddio yn yr adroddiad yma

1 Mae'r data rydyn ni'n eu dangos mewn siartiau neu'n eu trafod yn nhestun yr adroddiad yn dod o gronfa ddata graddau arolygu Estyn. Rydyn ni'n nodi yn yr adroddiad o ba ffynonellau eraill mae data wedi dod, ac maen nhw'n dod yn bennaf o Gyfarwyddiaeth Ystadegol Llywodraeth Cymru.

2 Mae'r ffigurau yn y siartiau wedi'u talgrynnu i'r ganran gyfan agosaf. Oherwydd hynny, mae'n bosib na fydd canrannau'n gwneud cyfanswm o 100%.






# Adran 1: Bydd sydd angen ei wella?

Yn yr adran hon, rwy'n canolbwyntio ar rai o'r agweddau ar addysg y mae angen iddynt wella fwyaf. Yn benodol, mae'r ffocws ar addysgu, yn cynnwys asesu, ac ar addysg a hyfforddiant cychwynnol i athrawon, Cymraeg ail iaith a mathemateg. Gan mai'r prif faes yn arolwg PISA yn yr hydref 2012 oedd mathemateg, caiff y deilliannau o PISA eu cynnwys yma.

Mae'r adran yn dechrau gyda dadansoddiad o'r prif faterion sydd wedi codi mewn arolygiadau o ysgolion dros y tair blynedd diwethaf, ac mae'n parhau â dadansoddiad tebyg o arolygiadau yn y sectorau ôl-16.





Addysgu


Asesu



Llythrennedd a rhifedd


Hunan arfarnu a chynllunio ar gyfer gwella


Medrau Cymraeg ail iaith disgyblion

# Y pum argymhelliad uchaf o arolygiadau ysgolion

## Addysgu

Mae ansawdd yr addysgu mewn ysgol yn cael effaith uniongyrchol ar y safonau y bydd disgyblion yn eu cyflawni. Hwn yw'r ffactor unigol pwysicaf o ran helpu disgyblion i gyflawni'u potensial.

Mae ansawdd yr addysgu yn agwedd ar ddarpariaeth sy'n aml yn mynnu argymhelliad mewn arolygiadau o ysgolion. Yn aml iawn, mae'r argymhelliad yn ymwneud â'r angen i wella cysondeb addysgu mewn ysgolion, ac er y gall fod addysgu da a hyd yn oed rhagorol weithiau, mae gwendidau difrifol hefyd sy'n cyfyngu ar gynnydd disgyblion mewn rhai pynciau neu ddosbarthiadau.

## Hunan arfarnu a chynllunio ar gyfer gwella

Mewn ychydig dros chwarter o ysgolion, gwneir argymhelliad i wella hunan arfarnu a chynllunio ar gyfer gwella. Mae cysylltiad agos rhwng yr argymhelliad hwn â gwella addysgu a safonau, oherwydd ni all arweinwyr nad ydynt yn casglu digon o dystiolaeth uniongyrchol am ddysgu ac addysgu adnabod yr addysgu gorau na rhoi cymorth i'r rheini y mae ei angen arnynt. Nid yw'r addysgu a'r asesu yn debygol o wella lle nad yw rheolwyr yn cymryd cyfrifoldeb llawn am ansawdd busnes craidd yr ysgol.

## Llythrennedd a rhifedd

Mae argymhellion mynych yn cael eu gwneud ynglŷn â llythrennedd a rhifedd hefyd. Mae hyd yn oed angen i rai ysgolion sydd â pherfformiad da yn bennaf wneud mwy i wella'r ffordd y maent yn addysgu ac yn asesu llythrennedd a rhifedd. O'r tri phwnc craidd, mewn mathemateg y mae perfformiad disgyblion wannaf, ac mae'n annhebygol y bydd disgyblion yn gallu cymhwyso medrau rhifedd cadarn ar draws y cwricwlwm os oes gwendidau yn eu dysgu mewn mathemateg. Os na all disgyblion ddarllen gyda dealltwriaeth ar lefel sy'n briodol i'w hoed, bydd cynnwys llawer o wersi yn anodd iddynt ei ddeall am fod dealltwriaeth yn rhagofyniad sylfaenol mewn dysgu.


## Medrau Cymraeg ail iaith disgyblion

Mae arolygwyr yn gwneud argymhellion i ddatblygu medrau Cymraeg ail iaith disgyblion mewn dros chwarter o ysgolion cyfrwng Saesneg. Bydd cynnydd disgyblion wrth ddysgu Cymraeg yn lleihau wrth iddynt fynd yn hŷn, ac er bod mwyafrif o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o ran datblygu'r Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen, mae eu cynnydd yn arafu mewn cyfnodau dilynol.

## Asesu

Yr angen i wella'r asesu yw'r argymhelliad mwyaf cyffredin mewn adroddiadau arolygu, ac mae hwn yn faes pwysig i'w wella mewn tua 40% o ysgolion a arolygwyd. Hyd yn oed mewn ysgolion â chanlyniadau arolygu da yn gyffredinol, caiff yr asesu ei nodi fel diffyg yn aml. Mae hyn yn ymwneud yn aml ag ansawdd marcio'r athrawon a'r graddau y mae disgyblion yn ei ddeall ac yn ymateb iddo. Heb adborth y gallant ei ddeall, nid yw disgyblion yn gwybod beth sydd angen iddynt ei wneud i wella. Yn ogystal, os nad yw athrawon yn gwybod pa mor dda y mae disgyblion yn ei wneud, ni allant ychwaith gynllunio gwersi i fynd i'r afael â bylchau yn y dysgu.

# Y pum argymhelliad uchaf o arolygiadau o ddarparwyr ôl-16




## Datblygu medrau Cymraeg dysgwyr

Mae tua hanner y darparwyr yn cael argymhelliad i wella medrau Cymraeg dysgwyr. Mae gormod o ddarparwyr ôl-16 nad ydynt yn cynnig digon o ddarpariaeth Gymraeg neu ddwyieithog.

## Hunan arfarnu a chynllunio ar gyfer gwella

Lle ceir argymhellion i wella hunan arfarnu a chynllunio ar gyfer gwella, ceir argymhellion hefyd fel arfer ynglŷn â gwella ansawdd yr addysgu, asesu a chyfleoedd datblygiad proffesiynol.

## Addysgu

Mae'r argymhelliad mwyaf cyffredin yn ymwneud ag addysgu, ac mae rhyw agwedd ar addysgu yn faes pwysig i'w wella i 60% o ddarparwyr. Yn yr un modd ag ysgolion, mae gan lawer o ddarparwyr athrawon sy'n dda ac yn rhagorol, ond nid yw'r arfer dda hon yn gyson ar draws y ddarpariaeth yn aml.

## Asesu

Mae dros hanner y darparwyr yn cael argymhelliad i wella'r asesu. Mae hyn yn cynnwys materion fel mynd ar drywydd proses sgrinio gychwynnol o bob dysgwr trwy roi cymorth i fodloni'r anghenion dysgu a nodwyd, ac olrhain cynnydd dysgwyr i lywio'r cynllunio.

## Cymorth ar gyfer llythrennedd a rhifedd dysgwyr

Mae cymorth ar gyfer llythrennedd a rhifedd dysgwyr yn agwedd i'w gwella yn hanner yr arolygiadau o ddarparwyr ôl-16. Mae cysylltiad rhwng yr argymhelliad hwn â'r angen i wella safonau, a dim ond yn oddeutu hanner yr holl ddarparwyr ôl-16 a arolygwyd y mae safonau'n dda neu'n well.

# Pa mor dda yw'r addysgu mewn ysgolion?

## Addysg mewn ysgolion cynradd

Ar y pwynt canol yn y cylch arolygu, rydym wedi arolygu 664 o ysgolion cynradd. O'r ysgolion cynradd sydd wedi'u harolygu hyd yma, mae'r addysgu yn dda neu'n well mewn llawer ohonynt. Mae addysgu anfoddhaol mewn llai nag 1% o ysgolion cynradd. Fodd bynnag, dros y tair blynedd diwethaf, mae cyfran yr ysgolion lle mae'r addysgu'n ddigonol neu'n anfoddhaol yn gyffredinol wedi cynyddu o 18% yn 2010-2011 i 26% yn 2012-2013. Mae cyfran yr addysgu rhagorol wedi gostwng mewn ysgolion cynradd o 3% yn 2010-2011 i 1% yn 2013-2013, a dim ond mewn dwy ysgol gynradd o'r 208 o ysgolion a arolygwyd gennym y mae'r addysgu'n rhagorol ar draws yr ysgol gyfan.

## Addysgu mewn ysgolion uwchradd


Rydym wedi arolygu 106 o ysgolion uwchradd hyd yma yn y cylch hwn. Dim ond mewn ychydig dros hanner yr ysgolion hyn y mae'r addysg yn dda neu'n well. Mae cyfran yr addysgu sy'n ddigonol neu'n anfoddhaol wedi cynyddu ym mhob blwyddyn o'r cylch arolygu. Fodd bynnag, mae cyfran yr addysgu rhagorol wedi cynyddu bob blwyddyn hefyd, o 10% yn 2010-2011 i 15% yn 2012-2013.

## Addysgu mewn ysgolion arbennig a gynhelir

Rydym wedi arolygu 22 o ysgolion arbennig yn y tair blynedd diwethaf. Ceir addysgu da neu well yn gyffredinol ym mron pob un o'r ysgolion hyn. Dros y tair blynedd diwethaf, mae cyfran yr ysgolion a arolygwyd sydd ag addysgu rhagorol wedi gostwng o 25% yn 2010 i 13% yn 2013. Fodd bynnag, bu cynnydd yn y gyfran o ysgolion lle mae'r addysgu yn dda neu'n well yn gyffredinol, ac yn y ddwy flynedd diwethaf, mae addysgu da neu well at ei gilydd ym mhob un o'r ysgolion arbennig a arolygwyd.


**Ffigur 1.1:**
Canrannau barnau arolygu ar addysgu mewn ysgolion cynradd, 2010-2013

664 o ysgolion





**Ffigur 1.2:**
Canrannau barnau arolygu ar addysgu mewn ysgolion uwchradd, 2010-2013

106 o ysgolion




**Ffigur 1.3:**
Canrannau barnau arolygu ar addysgu mewn ysgolion arbennig a gynhelir, 2010-2013

22 o ysgolion




- Rhagorol
- Da
- Digonol
- Anfoddhaol

# Beth ydyn ni wedi'i ddweud am addysgu da a rhagorol mewn ysgolion?

Lle mae'r addysgu yn dda neu'n rhagorol, mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol gadarn ac maent yn deall sut mae plant a phobl ifanc yn dysgu. Mae athrawon yn cynllunio i adeiladu gwybodaeth, medrau a dealltwriaeth y disgyblion fesul cam, ym mhynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol ac mewn llythrennedd a rhifedd. Defnyddiant eu harbenigedd i gynllunio profiadau diddorol i ddisgyblion sy'n procio'r meddwl. Mae strwythur da i'w gwersi ac maent yn cynnwys nodau dysgu clir sy'n gosod targedau heriol i ddisgyblion o bob gallu. Mae athrawon yn hyblyg. Maent yn cynnwys disgyblion wrth gynllunio beth maent yn ei ddysgu a sut maent yn dysgu. Darparant ar gyfer disgyblion sydd ar lefelau dealltwriaeth wahanol mewn dosbarth, er mwyn atgyfnerthu neu ymestyn y dysgu.

Mae athrawon da yn modelu iaith yn dda ac yn defnyddio ffyrdd llawn dychymyg i ddatblygu dealltwriaeth dysgwyr o eiriau a thermau newydd drwy, er enghraifft, archwilio tarddiad geiriau neu eu cysylltu â defnydd yn yr ieithoedd eraill y mae dysgwyr yn eu hastudio. Mae'r athrawon gorau yn gofyn cwestiynau ac yn ysgogi trafodaeth sy'n datblygu medrau meddwl y dysgwyr drwy ddefnyddio cwestiynau penagored, ymgorffori amser meddwl, a herio'u dealltwriaeth. Maent yn nodi ac yn cywiro camgymeriadau a chamsyniadau cyffredin wrth wirio dysgu'r disgyblion.

Mae athrawon da yn cymell eu disgyblion i ganfod mwy, ac yn eu haddysgu i fod yn ddysgwyr hyderus sy'n rheoli eu hunain. Maent yn addysgu disgyblion i arfarnu'r cryfderau a'r gwendidau yn eu gwaith, ac yn cynnig cyfleoedd cyson iddynt roi'r medrau hyn ar waith. Mae mabwysiadu'r dulliau hyn yn golygu rhoi rhyddid i ddisgyblion archwilio syniadau, gwneud camgymeriadau ac arbrofi gyda'u strategaethau eu hunain.

Ni fydd athrawon fyth yn defnyddio amgylchiadau neu anfantais disgyblion fel esgus am reolaeth wael yn yr ystafell ddosbarth neu fethiant i osod disgwyliadau uchel. Lle mae addysgu da iawn mewn ysgolion, mae gan athrawon a staff cymorth fedrau sydd wedi'u datblygu'n dda iawn ar gyfer rheoli ymddygiad disgyblion. Maent yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn dod o hyd i atebion ymarferol a gostegol mewn sefyllfaoedd pan fydd disgyblion yn cael anhawster rheoli eu hymddygiad. Mewn ysgolion lle mae cyfrannau uwch o ddisgyblion â phroblemau emosiynol ac ymddygiadol, mae'r staff yn cynllunio sesiynau ar gyfer grwpiau o ddisgyblion, fel dosbarthiadau rheoli dicter, neu'n darparu cyfleoedd strwythuredig i ddisgyblion drafod eu hemosiynau.

Mae athrawon da yn arfarnu eu haddysgu eu hunain, ac yn ystyried effeithiolrwydd y dulliau ac adnoddau addysgu y maent yn eu defnyddio. Defnyddiant gyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol yn dda, a dônt o hyd i amser i arsylwi a dysgu gan eu cymheiriaid a gweithiant gyda'u cydweithwyr i gynllunio ar y cyd.

Mewn ysgolion lle mae'r asesu yn dda neu'n rhagorol, gosodir targedau teg ond heriol i'r disgyblion. Mae athrawon yn monitro cynnydd disgyblion drwy ofyn cwestiynau medrus a gosod tasgau, yn y dosbarth ac ar gyfer gwaith cartref, y gellir eu hasesu'n ffurfiannol. Gwnânt yn siŵr bod disgyblion yn gwybod sut i gyflawni'r nodau dysgu, a chynlluniant gyfleoedd mynych i ddisgyblion asesu eu cynnydd eu hunain a chynnydd eu cyfoedion. Mae'r athrawon hyn yn helpu disgyblion i arfarnu'u gwaith eu hunain yn erbyn amcanion y dysgu, fel eu bod yn deall pa mor dda maent wedi cyflawni. Maent yn rhoi canmoliaeth pan fydd gwaith wedi'i wneud yn dda, ond cynigiant adborth adeiladol hefyd sy'n helpu disgyblion addasu gwaith sydd ganddynt ar y gweill. Mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn gywir fel bod disgyblion yn deall sut i wella.

Trwy fonitro cynnydd disgyblion dros gyfnod, gall athrawon weld lle mae angen iddynt ddarparu mwy o gymorth, arweiniad ac ymyrraeth unigol. Mae'r athrawon a staff cymorth yn defnyddio'r hyn a ddysgant o fonitro i gynllunio cynlluniau gwaith a gwersi sy'n ymatebol ac arloesol. Mae'r holl gynllunio ac addysgu da yn rhoi ystyriaeth dda i gefndiroedd disgyblion, gan gynnwys yr ystod o bwysau a chyfyngiadau sy'n wynebu dysgwyr difreintiedig, neu ddisgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

Ysgol gynradd wirfoddol a gynorthwyir yw **Ysgol Gynradd Gatholig St Philip Evans, Caerdydd**, sydd â 355 o ddisgyblion tair i 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 49 o blant sy'n mynychu'n rhan-amser yn y feithrinfa. Mae tua 40% o ddisgyblion yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. Ar hyn o bryd, mae gan tua chwarter o'r disgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae anghenion dysgu ychwanegol gan 17% o'r disgyblion.

Mae pob un o'r staff yn rhan o'r broses gynllunio ac mae pawb yn gwybod am beth y maent yn gyfrifol yn benodol. Fodd bynnag, natur gydweithredol y cynllunio sy'n creu gwersi mor ddychmygus. Mae athrawon yn dechrau eu cynllunio gyda dealltwriaeth o'u disgyblion. Maent yn gwybod pwy sydd â pha anghenion dysgu ychwanegol, a pha rai yw'r mwyaf galluog neu'r mwyaf difreintiedig, beth bynnag yw lefel eu gallu. Ystyriant anghenion gwahanol ddisgyblion fel eu bod yn gallu cynllunio gwersi sy'n heriol i bawb. Mae'r staff yn talu sylw i syniadau'r disgyblion eu hunain am eu dysgu.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn awgrymu gweithgareddau dysgu ar gyfer y dosbarth. Mae'r dull hwn wedi helpu disgyblion i weithio'n fwy annibynnol am fod ganddynt fwy o gyfrifoldeb am eu dysgu. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r athrawon a'r disgyblion yn aml yn cynllunio'r nodau dysgu ar gyfer gwersi gyda'i gilydd.

Mae athrawon yn rheoli eu dosbarthiadau yn eithriadol o dda. Mae'r athrawon yn cyflwyno pob un o'r gwersi gyda rhediad, momentwm a hyder, ar sail gwybodaeth bynciol ddiweddar ac ystod eang o strategaethau addysgu. Ar draws yr ysgol, mae'r athrawon yn datblygu geirfa a dealltwriaeth disgyblion mewn rhyngweithio. Mae disgyblion yn trafod eu gwaith mewn parau a grwpiau er mwyn meithrin medrau llythrennedd a medrau meddwl y disgyblion. Mae gan yr athrawon ddisgwyliadau uchel iawn o'u disgyblion ac mae eu brwdfrydedd yn heintus. Caiff hyn effaith sylweddol ar ansawdd gwaith y disgyblion a'r cynnydd y mae disgyblion yn ei wneud.

Mae pob un o'r athrawon yn dilyn polisi marcio ac olrhain yr ysgol. Mae'r gwaith marcio yn glir ac yn llawn gwybodaeth. Mae trefniadau hunan asesu ac asesu gan gyfoedion wedi hen sefydlu, ac yn aml yn defnyddio dulliau arloesol. Mae'r disgyblion yn dod i arfer â gosod targedau uchel iddynt eu hunain o oedran ifanc.

Mae uwch arweinwyr wedi creu diwylliant o wella cadarnhaol ond trylwyr lle mae arsylwi gwersi, craffu ar lyfrau a thrafodaethau proffesiynol yn rhan o waith dyddiol. O ganlyniad, maent yn cyflawni safonau uchel yn gyson ar draws yr ysgol.

O ganlyniad i'r cynllunio, yr addysgu a'r asesu da yn yr ysgol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da, gyda llawer ohonynt yn rhagori'n uwch na disgwyliadau.

Mae **Ysgol Arbennig Portfield, Hwlffordd,** yn darparu addysg ar gyfer disgyblion â datganiadau o anghenion addysgol arbennig (AAA) rhwng tair ac 19 oed.

Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer disgyblion ag ystod o anghenion addysgol arbennig, gan gynnwys: anawsterau dysgu difrifol; anawsterau dysgu dwys a lluosog; ac anhwylder yn y sbectrwm awtistig, yn ogystal ag anawsterau synhwyraidd. Mae 140 o ddisgyblion ar y gofrestr, ac mae 32% ohonynt yn derbyn prydau ysgol am ddim.

Mae asesu ar gyfer dysgu yn un o brif gryfderau'r ysgol. Mae staff yn asesu, yn cofnodi ac yn olrhain cynnydd disgyblion yn drwyadl. Mae'r athrawon a'r cynorthwywyr addysgu i gyd yn cadw cofnodion manwl iawn, gyda thystiolaeth ffotograffig yn aml, o'r camau bach y mae disgyblion yn eu cymryd tuag at gyflawni'u targedau. Mae staff yn defnyddio'r data hwn i osod targedau wedi'u haddasu ar gyfer gwella. Mae cyflawniad yn erbyn y targedau hyn yn darparu tystiolaeth werthfawr o effaith yr addysgu a'r dysgu ar unigolion ac ar grwpiau gwahanol o ddisgyblion, ac mae hyn yn helpu'r staff i gynllunio'n briodol. Mae'r disgyblion yn cael adborth rheolaidd a phenodol i'w galluogi i adnabod eu cynnydd mewn gwersi. Un canlyniad hyn yw, am fod disgyblion yn cael eu cynnwys yn y broses asesu, maent yn gwybod beth sydd angen iddynt ei wneud i wella ymhellach.

Canlyniad arall yw bod bron pob un o'r disgyblion yn cwrdd â'u targedau unigol penodol ac yn gwneud cynnydd da iawn mewn perthynas â'u hanghenion a'u galluoedd. Mae pob un o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai â hawl i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol, yn gwneud cynnydd cadarn o gymharu â'u cyrhaeddiad blaenorol. Mae bechgyn yn cyflawni gystal â merched.

# Beth ydyn ni wedi'i ddweud am addysgu digonol ac anfoddhaol?

Mewn ysgolion lle mae'r addysgu dim ond yn ddigonol neu'n anfoddhaol, mae gormod o athrawon yn cynllunio gwersi gwael. Mewn rhai achosion, sylfaen wybodaeth annigonol rhai athrawon yw'r rheswm am hyn, ond nid dyma'r rheswm bob tro. Y rheswm yn rhy fynych yw bod strwythur gwael i'r gwersi hyn, ac nid ydynt yn cynnwys nodau dysgu clir. Mae'r cynllunio mewn gwersi o'r fath yn arwynebol, yn rhy drefnedig neu nid oes unrhyw gynllunio o gwbl. Mae llawer o'r gweithgareddau yn methu ennyn diddordeb disgyblion yn llawn am fod eu rhediad yn rhy araf, maent yn ailadroddus neu ar lefel rhy isel i ymestyn y dysgu. Gall athrawon siarad am gyfnod rhy hir heb ymgysylltu'n weithredol â'r disgyblion. Gallant fynnu bod disgyblion yn copïo talpiau mawr o wybodaeth neu'n llenwi taflenni gwaith nad ydynt yn gofyn am lawer o ymdrech. Lle mae'r nodweddion hyn yn gyffredin, nid yw'r addysgu yn heriol. Mae disgyblion yn colli diddordeb ac yn dechrau crwydro o'r tasgau a osodwyd, ac mae hynny'n arwain at darfu ar lefel isel sy'n effeithio ar gynnydd disgyblion eraill yn y gwersi hyn. Prin y mae'r addysgu yn ddigonol neu mae'n anfoddhaol pan fydd wedi'i drefnu'n wael, ac mae polisïau a gweithdrefnau rheoli ymddygiad yr ysgol yn cael eu cymhwyso'n anghyson.

Weithiau hefyd, mae athrawon yn dibynnu ar gynllun gwaith wedi'i gynhyrchu'n fasnachol i gyflwyno cwricwlwm, heb wirio dealltwriaeth disgyblion o'r cysyniadau neu'r medrau a ddatblygir ac y mae'r cynllun yn honni ei fod yn ymdrin â nhw. Er y gall y cynllun yn wir fod yn gwneud hynny, oni bai bod yr athro yn gwirio dysgu disgyblion unigol yn rheolaidd, gall bylchau mewn dealltwriaeth ddigwydd a fydd yn cyfyngu ar gynnydd disgyblion. Yn yr ysgolion hyn, mae defnydd athrawon o asesu ffurfiannol yn wael yn aml, ac mae gormod o ddisgyblion yn anymwybodol o sut maent yn gwneud a beth yn union y mae angen iddynt ei wneud i wella. Mae ansawdd y gwaith marcio yn wan: mae sylwadau ar waith disgyblion yn arwynebol ac yn rhy ganmoliaethus. Nid yw athrawon yn gwneud yn siŵr bod disgyblion yn cywiro'u camgymeriadau neu'n mireinio eu gwaith er mwyn gwella ei ansawdd. Mae hyn yn golygu bod disgyblion yn parhau â chamsyniadau ac yn ailadrodd eu camgymeriadau. and repeat their mistakes.

# Ffactorau sy'n hyrwyddo addysgu da a rhagorol

Mae'r gallu i gynnal safonau addysgu da a rhagorol yn yr ystafell ddosbarth yn dibynnu ar lawer o ffactorau. Er enghraifft, mae cydberthynas agos rhwng addysgu rhagorol ac arweinyddiaeth ragorol. Yn yr ysgolion hynny lle mae arweinwyr wedi bod yn llwyddiannus o ran gwella ansawdd yr addysgu a'r deilliannau ar gyfer dysgwyr yn sylweddol, mae rhai nodweddion allweddol wedi bod yn amlwg. Mae'r rhestr isod yn nodi rhai o'r rhain.




**Yn y 90% o ysgolion lle mae'r addysgu yn rhagorol, mae arweinyddiaeth ragorol ynddynt hefyd.**

## Arweinyddiaeth strategol

Mae arweinwyr, gan gynnwys athrawon, yn yr ysgolion gorau yn adnabod eu hysgolion yn dda. Mae ganddynt weledigaeth â ffocws clir ar y cyd ar gyfer gwella. Mae rolau arweinyddiaeth wedi'u diffinio'n strategol gyda'r bwriad o ddosbarthu cyfrifoldebau clir a chyd-ddibynnol o fewn strwythur a gynlluniwyd i wella safonau. Mae gan bob arweinydd yn yr ysgol ffocws ar sut y maent yn cyfrannu at y busnes craidd, sef addysgu a dysgu. Mae'r holl staff addysgu a'r staff cymorth yn deall blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer datblygu, ac maent yn gwybod beth sydd angen iddynt ei wneud fel rhan o gyd-destun ehangach. Mae'r arweinwyr yn gwrando'n ofalus ar ddysgwyr a staff, ac yn cynnal ethos dyheadol.

Mae arweinwyr yn gyfarwydd â'r gymuned y mae'r ysgol yn ei gwasanaethu, ac yn deall cefndir ac anghenion penodol eu disgyblion. Mae hyn yn golygu y gall arweinwyr wneud yn siŵr bod cynllun datblygu'r ysgol yn ymateb yn llawn i gyd-destun yr ysgol. Caiff rhieni a disgyblion eu cynnwys yn llawn ym mywyd yr ysgol, ac mae eu barnau'n cyfrannu at benderfyniadau ynglŷn â darpariaeth ac at arfarniadau o ba mor dda y mae'r ysgol yn perfformio yn yr ystyr ehangaf. Mae arweinwyr yn talu sylw cynyddol i fynd i'r afael â'r rhwystrau rhag dysgu sy'n bodoli i rai o'u disgyblion. Mae'r arweinwyr gorau yn gwneud hyn drwy gynllunio'n strategol ar gyfer cymorth bugeiliol yn ogystal â chymorth addysgol ar gyfer plant a'u teuluoedd, y tu hwnt i gwricwlwm y brif ffrwd.

## Hunan arfarnu

Mae staff mewn ysgolion da a rhagorol yn dadansoddi data perfformiad yn onest er mwyn monitro effeithiolrwydd yr addysgu ac i fyfyrio ar ba mor dda y mae strategaethau addysgu penodol yn gweithio. Mae arweinwyr yn defnyddio data ar berfformiad, ynghyd ag arsylwi gwersi a chraffu ar waith disgyblion, i ddeall y cryfderau a'r meysydd i'w datblygu yn yr addysgu. Mae hyn yn eu galluogi i gefnogi athrawon lle bo angen. Yn yr ysgolion lle mae addysgu rhagorol, mae arweinwyr ac athrawon yn rhannu'u harfer dda drwy arsylwi cymheiriaid. Mae dull agored o arsylwi gwersi a chraffu ar waith disgyblion, gyda meini prawf clir a strwythur amserlenedig, lle mae pob un o'r staff yn cydnabod buddion arfarnu arfer ym mhob ystafell ddosbarth. Rhoddir adborth defnyddiol gan yr arsylwyr, ac mae'r athrawon yn penderfynu gyda'i gilydd sut i wella. Ar sail arfarniad cyffredinol uwch reolwyr o'r ysgol, cynhelir trafodaethau a hyfforddiant ysgol gyfan. Mae disgyblion yn cyfrannu at arfarnu'r addysgu a'r dysgu drwy lenwi holiaduron, ac mae hyn yn helpu athrawon i gynllunio gwersi a chynlluniau gwaith sy'n berthnasol i ddyheadau a diddordebau disgyblion.

## Rheoli perfformiad

Yn yr ysgolion gorau, mae systemau cadarn gan arweinwyr ar gyfer rheoli perfformiad pob un o'r staff, gan gynnwys staff cymorth. Mae'r arweinwyr hyn yn mynd i'r afael yn gadarn â thanberfformiad, gan ddefnyddio strategaethau tryloyw a chefnogol. Maent yn trafod targedau heriol ar gyfer pob un o'r staff, ac yn cyfarfod yn aml ag unigolion er mwyn monitro a thrafod eu cynnydd. Mewn ysgolion rhagorol, mae arweinwyr yn nodi staff sydd i'w hyfforddi er mwyn mentora ac hyfforddi eu cydweithwyr.. Mae'r system hon yn cynorthwyo athrawon i gwrdd â'u targedau rheoli perfformiad, ac yn cynnig y cyfleoedd datblygu sydd eu hangen arnynt i wella. Mae'r arweinwyr hyn yn gwybod mai eu staff yw'r adnodd mwyaf gwerthfawr mewn unrhyw strategaeth i godi safonau.

Ysgol gyfun gymunedol naturiol ddwyieithog ar gyfer disgyblion a myfyrwyr rhwng 11 a 18 oed yw **Ysgol Dyffryn Ogwen, Gwynedd**. Mae 370 o ddisgyblion yn yr ysgol, yn cynnwys 50 o fyfyrwyr yn y chweched dosbarth. Addysgir pob pwnc trwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae unedau gwaith ym mhob un o'r pynciau trwy gyfrwng y Saesneg. Mae tua 18% o'r disgyblion yn derbyn prydau ysgol am ddim ac mae anghenion dysgu ychwanegol gan 4% o'r disgyblion.

Mae arsylwi gwersi wedi bod yn rhan allweddol o hunan arfarnu yn yr ysgol ers nifer o flynyddoedd. Caiff pob un o'r athrawon eu harsylwi'n flynyddol, gan arwain at drafodaeth lafar ar ddiwedd y wers ac adroddiad ysgrifenedig yn fuan wedyn, ar sail graddfa farnau Estyn. Yn y gorffennol, yr uwch dîm rheoli yn bennaf oedd yn cynnal yr arsylwadau, ond yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae ymgynghorwyr annibynnol wedi bod yn rhan o'r system, ynghyd â phenaethiaid adran, ac yn fwy diweddar, athrawon eraill. Gall hyn olygu bod dau neu dri o unigolion mewn ystafell ddosbarth yn arsylwi'r un wers. Mae'r trafodaethau dilynol rhwng yr arsylwyr wedi cynyddu ymwybyddiaeth pob un o'r athrawon o nodweddion dysgu ac addysgu effeithiol.

Mae pob athro bellach yn cael eu harsylwi gan gymheiriaid, ac yn arsylwi cymheiriaid, ac mae hyn yn cynnig cyfleoedd i rannu a datblygu arfer orau.

Pan gynhaliwyd y cylch cyntaf o arsylwadau gwersi o dan y fframwaith newydd yn Ionawr 2011, ni ddyfarnwyd unrhyw farnau 'rhagorol'. Yn ystod y ddau gylch hunan arfarnu dilynol, canolbwyntiodd yr ysgol ar symud y gwersi da at fod yn wersi rhagorol.

Mae'r cyfle i arsylwi cyd-athro a bod yn rhan o drafodaeth ehangach am y wers honno wedi bod yn hyfforddiant mewn swydd (HMS) rhagorol, ac mae wedi arwain at drafodaethau proffesiynol buddiol ymhlith athrawon, yn ffurfiol ac yn anffurfiol. Mae hyn yn ei dro wedi arwain at gysondeb gwell o ran cynllunio gwersi da a rhagorol ar draws yr ysgol.

Yn dilyn pob cyfnod o arsylwi, cynhelir cyfarfod staff i drafod y cryfderau a beth sydd angen ei wella. Hefyd, mae staff yn trafod nodweddion gwersi rhagorol.

Yn yr arolygiad diweddar, barnwyd bod yr addysgu yn rhagorol yn gyffredinol. Yng nghyfnod allweddol 4 yn 2012, mae perfformiad y disgyblion wedi rhoi Ysgol Dyffryn Ogwen yn y chwarter uchaf o ysgolion o ran bob un o'r prif ddangosyddion er 2010-2011.





## Darparu cymorth yn y dosbarth

Yn yr ysgolion lle mae'r addysgu yn dda ac yn rhagorol, mae cymorth yn y dosbarth ar gyfer disgyblion ag anghenion ychwanegol yn helpu pob un o'r disgyblion i gyflawni'u potensial. Fel arfer, mae gan staff cymorth gymwysterau da i ddarparu cymorth arbenigol i ddisgyblion unigol. Maent yn adnabod y disgyblion y maent yn rhoi cymorth iddynt ac yn deall sut i oresgyn ystod y rhwystrau a wynebant neu sut i ddatblygu eu galluoedd a'u doniau penodol. Mae athrawon a staff cymorth yn defnyddio systemau olrhain manwl yr ysgol i fonitro cynnydd disgyblion a llywio'r cynllunio. Mae staff cymorth yn cydweithredu ag athrawon i gynllunio gweithgareddau mewn gwersi, ac i asesu gwaith disgyblion er mwyn sicrhau bod unigolion ar draws yr ystod gallu yn cael cymorth i fodloni'u nodau dysgu. Mae arweinwyr yn dadansoddi cynnydd y disgyblion er mwyn arfarnu'r defnydd a wneir o staff cymorth, a defnyddiant y wybodaeth hon i gynllunio sut i'w defnyddio yn y dyfodol.

## Mynd i'r afael ag anfantais

Mae arweinwyr yn yr ychydig ysgolion mewn amgylchiadau heriol sydd ag arweinyddiaeth ragorol yn cynllunio systemau a gweithdrefnau ysgol sy'n nodi ac yn mynd i'r afael ag anghenion penodol disgyblion difreintiedig a'u teuluoedd. Pan fyddant yn rhoi strategaethau datblygu ysgol ar waith, byddant yn sicrhau bod yr holl staff yn rhoi blaenoriaeth uchel i fynd i'r afael ag anfantais a sicrhau lles disgyblion. Mae datblygiad proffesiynol athrawon yn canolbwyntio ar anghenion penodol disgyblion yn yr ysgol. Mae hyn yn golygu bod pob un o'r athrawon yn gwybod llawer am sut i ddiwallu anghenion disgyblion difreintiedig a'u bod yn ymwybodol o sut a pha bryd i gyfeirio anghenion at wasanaethau arbenigol. Caiff staff cymorth eu defnyddio'n sensitif ac mae arbenigedd penodol gan lawer ohonynt mewn materion sy'n gysylltiedig â thlodi ac anfantais.

Un nodwedd gyffredin yn yr ysgolion rhagorol hyn mewn ardaloedd o amddifadedd yw dull gweithio mewn tîm wrth hunan arfarnu a chynllunio sy'n cynnwys staff academaidd a staff bugeiliol, a chydweithwyr o asiantaethau cymorth allanol. Mae pob un o'r staff hyn yn mynd ati'n drwyadl iawn i olrhain disgyblion, ac maent yn hyderus wrth ymdrin â data ac yn ymwybodol o sut i fynd i'r afael â'r materion a gaiff eu creu gan anfantais.

## Datblygu gwybodaeth ac arbenigedd athrawon

Un nodwedd gyffredin ar arweinyddiaeth ragorol sy'n esgor ar addysgu rhagorol yw datblygiad proffesiynol sy'n canolbwyntio ar y blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer gwella, ac ar ddatblygu medrau ac arbenigedd unigol athrawon yng nghyd-destun blaenoriaethau ysgol. Mae'r ysgol dda yn cynllunio cyfleoedd rheolaidd i staff fyfyrio ar eu harfer addysgu, ac mae arweinwyr yn trefnu cyfarfodydd, gweithgorau, HMS, a gweithdai addysgu i ganolbwyntio ar flaenoriaethau. Mae'r cyfleoedd hyn yn cydategu'i gilydd o ran meithrin hyder a medrau athrawon wrth gyflwyno cwricwlwm wedi'i ail-raddnodi sy'n adlewyrchu disgwyliadau'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Mae'r ysgolion gorau wedi bod ar y blaen o ran sicrhau bod eu hathrawon yn deall sut i roi dulliau newydd o addysgu a dysgu llythrennedd a rhifedd ar waith. Mae arweinwyr yn deall bod sicrhau arweinyddiaeth gadarn gan athrawon pwnc ac adrannau Saesneg/Cymraeg a mathemateg yn un o ofynion hanfodol sicrhau carfanau o ddisgyblion llythrennog a rhifog.

Mae ysgolion da a rhagorol yn defnyddio grwpiau clwstwr neu deulu i ddatblygu addysgeg pwnc mewn cyd-destun proffesiynol ehangach ac maent yn arfarnu effaith datblygiad proffesiynol ar gyflawniad disgyblion.

Mae **Ysgol Gynradd Marshfield** wedi'i lleoli mewn ardal lled wledig ar y ffin rhwng Casnewydd a Chaerdydd yn awdurdod lleol Casnewydd. Mae gan ychydig dros 4% o'r disgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mae gan yr ysgol draddodiad cadarn o ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm. Dangosodd archwiliad o fedrau nad oedd medrau rhifedd wedi'u datblygu gystal â medrau llythrennedd. O 2011 i 2013, rhoddodd yr ysgol flaenoriaeth uchel i wella rhifedd disgyblion trwy ganolbwyntio ar arweinyddiaeth, rheolaeth a darpariaeth.

Y dirprwy bennaeth sy'n gyfrifol am rifedd ar draws yr ysgol. Roedd yr ysgol wedi penderfynu ei bod yn bwysig penodi'r dirprwy bennaeth i'r rôl hon oherwydd natur drawsbynciol y cyfrifoldebau. Y dirprwy bennaeth hefyd yw arweinydd pwnc cyfnod allweddol 2 ar gyfer mathemateg ac mae'n gweithio'n agos ag arweinydd pwnc y Cyfnod Sylfaen. Mae hyn yn golygu eu bod mewn sefyllfa dda i ystyried materion yn ymwneud â phontio, dilyniant a pharhad.

Mae'r ysgol yn rhoi blaenoriaeth i hyfforddiant ar gyfer staff mewn addysgu rhifedd. Yn ogystal, mae'r dirprwy bennaeth yn un o 15 o athrawon sy'n cael hyfforddiant gan yr awdurdod lleol ac yn gwneud ymchwil weithredu fel athro rhifedd rhagorol. Mae rhwydwaith proffesiynol yn yr ysgol, yn cael ei harwain gan y dirprwy bennaeth, i ledaenu'r arfer dda o'u cysylltiad ym menter yr awdurdod lleol ac i wella addysgu rhifedd.

Mae dull trwyadl gan yr ysgol o gynllunio. Mae dilyniant clir o flwyddyn i flwyddyn mewn medrau rhifedd, a hefyd portffolio sy'n dangos lle gellir defnyddio rhifedd ym mhob pwnc ym mhob grŵp blwyddyn. Gwna bob un o'r staff yn siŵr eu bod yn cynnwys cyfleoedd i ddefnyddio ac atgyfnerthu medrau rhifedd pa bryd bynnag y bo'n berthnasol. Amlinellir disgwyliadau yn glir, fel bod y staff yn gwybod beth a ddisgwylir a ble gallent gynllunio ar gyfer rhifedd. Caiff y broses gynllunio ei monitro gan uwch aelodau staff i wneud yn siŵr bod rhifedd yn cael ei gynnwys yn briodol. Hefyd, mae rhifedd yn ffocws yn ystod arsylwadau o wersi ac wrth fonitro llyfrau.

Mae safonau rhifedd wedi gwella ar draws yr ysgol. Mae monitro'n dangos bod pob agwedd yn cael eu cyflwyno'n fwy cyson nag o'r blaen. Mae'r ysgol mewn sefyllfa dda i addasu i elfen rhifedd y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, ac mae eisoes yn croesgyfeirio hyn wrth gynllunio gwersi o ddydd i ddydd.

Mae **Ysgol Gyfun y Pant, Pontyclun,** yn ysgol gyfun gymysg cyfrwng Saesneg 11-18 oed, ac mae tua 1,250 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae 12% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Mae uwch reolwyr yn rhoi pwyslais cadarn ar ddatblygiad proffesiynol pob un o'r staff. Cynigiant amrywiaeth eang o gyfleoedd hyfforddi i'r staff, yn cynnwys cyrsiau allanol, arsylwi cymheiriaid ac adolygiadau o adrannau. O ganlyniad, caiff y staff amrywiaeth o gyfleoedd i ddatblygu'u medrau proffesiynol, gan gynnwys paratoi ar gyfer eu rolau arweinyddiaeth a rheolaeth, a'u datblygu. Mae'r strategaeth hon yn galluogi staff hefyd i gyfrannu at gynllunio a chyflawni gwelliannau.

Bob blwyddyn, mae uwch reolwyr yn ystyried anghenion hyfforddi unigol yng ngolau blaenoriaethau'r ysgol ac awgrymiadau gan staff. Y canlyniad yw rhaglen o ugain seminar. Mae staff yn dewis 10 seminar o'r rhaglen o seminarau i'w mynychu dros y flwyddyn academaidd mewn sesiynau gyda'r hwyr, a gynhelir yn lle diwrnodau HMS.

Mae'r testunau yn y rhaglen HMS yn eang iawn ac wedi cynnwys codi cyflawniad bechgyn, datblygu rolau arweinyddiaeth a rheolaeth, dysgu sy'n ystyriol o ddyslecsia, athroniaeth ar gyfer plant a'r defnydd effeithiol o gynorthwywyr cymorth dysgu. Mae'r dull a fabwysiedir gan yr ysgol yn helpu darparu model hyfforddi sy'n bodloni anghenion proffesiynol y staff ar gyfnodau gwahanol o'u gyrfa. Yn gyffredinol, y staff o fewn yr ysgol, gan gynnwys cynorthwywyr cymorth dysgu, sy'n arwain y sesiynau hyfforddi. Ar ôl yr hyfforddiant, mae staff yn llenwi ffurflen arfarnu, sy'n helpu arweinwyr a rheolwyr i wirio pa mor berthnasol yw'r rhaglen o ran blaenoriaethau'r ysgol, yn ogystal ag anghenion hyfforddi'r staff. Gwelir y rhaglen gyfan fel un ddynamig, proffesiynol iawn a gwerthfawr i'r staff oherwydd, er bod cyswllt amlwg rhyngddi ag anghenion yr ysgol, mae hefyd yn cynnig rhywfaint o ymreolaeth broffesiynol i'r staff dros agweddau ar eu hyfforddiant. Gwahoddir staff i gynllunio ac arwain sesiynau, a gall hynny gefnogi datblygu darpar arweinwyr.

Canfu'r arolygiad diweddar fod diwylliant dysgu cadarn yn yr ysgol, a chanfuwyd bod safonau a'r addysgu yn rhagorol.

## Rhannu arfer orau

Mae arweinwyr da a rhagorol yn gwybod pwy yw eu hathrawon gorau. Mae'r arweinwyr hyn yn cydnabod hefyd, os yw arfer dda i'w rhannu, bod angen i'r athrawon rhagorol fod â'r medrau i gymell a gweithio gydag eraill. Mae'r ysgolion hyn yn hyfforddi'u staff i arsylwi cymheiriaid a threfnir 'dosbarthiadau meistr' i'r staff arsylwi ar arfer dda neu gyfleoedd addysgu tîm gydag ymarferwyr rhagorol. Darparant gyfleoedd hefyd i rannu arfer ar draws dosbarthiadau, cyfnodau a phynciau ac i drafod y ffyrdd gorau ofynd i'r afael â blaenoriaethau allweddol yr ysgol. Maent yn 'cyfeillio' staff er mwyn gwella agweddau penodol ar arfer, ac yn dylunio dulliau arloesol o roi cymorth cymheiriaid i staff, er enghraifft drwy gynllunio neu addysgu gwersi ar gyfer a gydag athrawon eraill. Caiff datblygiadau allweddol a meysydd i'w trafod eu cyfleu drwy gylchlythyrau, cyfryngau electronig, a thrwy gynhyrchu 'llawlyfrau arfer effeithiol'.

## Gweithio gyda darparwyr a sefydliadau eraill

Mae arweinwyr sy'n cael effaith gadarnhaol ar ansawdd addysgu yn eu hysgolion yn trefnu ymweliadau â darparwyr eraill i gasglu gwybodaeth am arfer orau ac i gyfarfod ag ymarferwyr arweiniol er mwyn trafod addysgu a dysgu. Cynlluniant ddiwrnodau HMS ar y cyd gydag ysgolion clwstwr neu ysgolion eraill i fyfyrio ar arfer, fel sut i gynllunio parhad ar gyfer disgyblion sy'n trosglwyddo o un cyfnod allweddol neu ysgol i'r nesaf, neu sut i ddefnyddio gweithgorau ar draws cyfnodau i ddatblygu strategaethau pontio. Yn aml, mae gan yr ysgolion hyn gysylltiadau â darparwyr hyfforddiant cychwynnol i athrawon, a defnyddiant y rhain i ddatblygu medrau mentora athrawon. Maent yn cynllunio cyfleoedd i staff weithio gydag ymchwilwyr i ddatblygu dulliau newydd yn yr ystafell ddosbarth. Cefnogant staff mewn astudiaethau allanol achredig, er enghraifft ar lefel gradd meistr. Caiff staff eu hannog i weithredu fel arholwyr allanol a safonwyr, ac i gyfrannu'n rheolaidd at weithgorau lleol a chenedlaethol. Fel hyn, mae staff yn yr ysgol yn parhau i ddatblygu arbenigedd y gallant ei rannu gydag eraill.

Mae **Ysgol Iolo Morganwg** yn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ym Mro Morgannwg ar gyfer disgyblion rhwng tair ac 11 oed. Mae gan 3% o'r disgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mae disgyblion a staff yn yr ysgol wedi elwa ar bartneriaeth arloesol gydag archfarchnad leol a agorwyd yn ddiweddar. Mae ymweliadau dosbarth â'r siop wedi galluogi'r disgyblion i ddefnyddio'u medrau rhif mewn amgylchedd go iawn, ac i ddeall y ffordd y mae'r busnes yn gweithio. Gwireddwyd y buddion i'r staff mewn sesiynau datblygiad proffesiynol a gafodd eu harwain gan reolwr yr archfarchnad, a lle cynhyrchwyd fframwaith rheoli perfformiad newydd ganddynt ar y cyd a oedd yn seiliedig ar arfer dda yn yr archfarchnad. Mae'r fframwaith newydd wedi galluogi staff i nodi, mireinio a chyflawni targedau datblygu ymestynnol/heriol sydd wedi cyfrannu at welliannau mesuradwy mewn deilliannau ar gyfer disgyblion o bob gallu.


# Pa mor dda yw'r addysgu yn y sector ôl-16?









**Ffigur 1.4:**
Canrannau barnau arolygu ar addysgu mewn colegau addysg bellach, 2010-2013




**Ffigur 1.5:**
Canrannau barnau arolygu ar addysgu mewn dysgu yn y gwaith, 2010-2013




**Ffigur 1.6:**
Canrannau barnau arolygu ar addysgu mewn dysgu oedolion yn y gymuned, 2010-2013




- Rhagorol
- Da
- Digonol
- Anfoddhaol

Mae'r siartiau uchod yn dangos canlyniadau arolygu ar gyfer ansawdd yr addysgu mewn colegau addysg bellach, dysgu yn y gwaith a dysgu oedolion yn y gymuned rhwng 2010-2013.

Ar draws y sector ôl-16, yn ystod tair blynedd y cylch arolygu, dim ond dau ddarparwr oedd ag addysgu rhagorol yn gyffredinol. Er bod rhywfaint o arfer ragorol yn y rhan fwyaf o ddarparwyr, nid yw hyn yn gyson ar draws y darparwr yn aml. Er bod addysgu da yn amrywio, mae gormod o addysgu sydd yn ddigonol yn unig.

## Ffactorau sy'n hyrwyddo addysgu da a rhagorol yn y sector ôl-16

Mae addysgu da a rhagorol yn y sector ôl-16 yn cynnwys llawer o nodweddion sy'n gyffredin ag addysgu da a rhagorol mewn ysgolion. Fodd bynnag, mae rhai agweddau ar addysgu ac arweinyddiaeth sy'n fwy penodol i sectorau ôl-16. Rhestrir y rhain isod.

## Datblygu gwybodaeth ac arbenigedd galwedigaethol athrawon

Mae athrawon da a rhagorol yn y sector ôl-16 yn meddu ar wybodaeth ac arbenigedd pynciol neu alwedigaethol da iawn. Yn aml, mae gan y rheini sy'n addysgu cyrsiau neu hyfforddiant galwedigaethol brofiad diweddar yn y gweithle ac y maent yn ei ddefnyddio yn eu haddysgu.

Mae'r athrawon gorau yn cynllunio sesiynau sy'n cynnwys cydbwysedd da o waith theori a gwaith ymarfer. Mae sesiynau dysgu yn aml yn cael eu hamserlennu dros gyfnod estynedig a bydd athrawon yn cynllunio'r sesiynau hyn i gynnwys amrywiaeth o dasgau dysgu ar gyfer dysgwyr yn unigol ac mewn grwpiau, mewn ffyrdd sy'n adeiladu gwybodaeth a medrau dysgwyr fesul cam ac yn gwneud y defnydd gorau o'r amser sydd ar gael. Mae athrawon yn strwythuro sesiynau gweithdy ymarferol i gynnwys arddangosfeydd a gwybodaeth greiddiol. Maent hefyd yn rhoi amser i ddysgwyr ddatblygu'u medrau eu hunain ac i archwilio ffyrdd dysgu gwahanol, er enghraifft, drwy archwilio ystod o ddeunyddiau neu ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau iddynt eu hunain. Mae'r athrawon gorau yn mynd y tu hwnt i ofynion sylfaenol aseiniadau asesedig drwy ddefnyddio'u gwybodaeth am ddiwydiannau'n gysylltiedig â phynciau i wella cyflogadwyedd eu myfyrwyr.

## Profiad gwaith a chysylltiadau â diwydiant

Mae'r athrawon gorau yn darparu cyd-destunau 'byd go iawn' i'w dysgwyr drwy sefydlu cysylltiadau â diwydiant, trefnu profiad gwaith a chysylltu'r dysgu o brofiad gwaith ag aseiniadau mewn dosbarthiadau, lle bo'n briodol. Defnyddiant ddarlithwyr gwadd sydd â gwybodaeth uniongyrchol am y gweithle, a chynigiant gyfleoedd i ddysgwyr weithio ar brosiectau gyda phartneriaid busnes a phartneriaid cymunedol. Mae athrawon yn defnyddio technoleg sy'n berthnasol i'r gweithle i hyrwyddo dysgu, a rhoddant ystyriaeth dda i lefelau profiad gwahanol y dysgwyr o weithio gyda TGCh. Mewn dysgu yn y gwaith, mae'r darparwyr gorau yn edrych am ffyrdd i wella medrau sy'n berthnasol i gyfleoedd swyddi yn lleol.

Mae athrawon da a rhagorol mewn darparwyr ôl-16 yn rhoi cymorth a chyngor da i ddysgwyr sy'n cynyddu'u cyfleoedd am gyflogaeth ac yn gwella'r medrau sydd eu hangen arnynt i fod yn fwy llwyddiannus yn eu gwaith a medrau bywyd. Mewn dysgu yn y gwaith, mae'r ymgynghorwyr hyfforddi gorau yn helpu dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth o'r gwaith theori a fydd yn gwella'u profiad yn y gweithle.

## Sgrinio ac asesu cychwynnol

Mae athrawon ac aseswyr yn gwneud diagnosis gofalus o anghenion dysgu'r dysgwyr ar ddechrau'u cyrsiau, a gwnânt yn siŵr y caiff yr anghenion hyn eu cefnogi. Maent yn arwain dysgwyr at ffynonellau cymorth, ac yn monitro effaith y cymorth hwnnw. Mae'r athrawon hyn yn asesu gwaith dysgwyr yn rheolaidd, ac yn cadw cofnodion olrhain cywir. Maent yn cyd-drafod targedau ar gyfer gwella, ac yn trafod cynnydd gyda'r dysgwyr. Darparant gymorth tiwtorial sy'n galluogi dysgwyr i archwilio'u dulliau dysgu ac i drafod eu huchelgeisiau. Mae athrawon yn gweithio gydag aseswyr allanol i rannu arfer orau wrth asesu.

Cafodd **Coleg Iâl (Consortiwm Sgiliau Canolbartha Gogledd Cymru), Wrecsam,** gontract gan Lywodraeth Cymru yn Awst 2011. Yr aelodau yw Coleg Iâl, ITeC Wrecsam, Nacro, Gwasanaethau Hyfforddi Myrick a Phrifysgol Glyndŵr. Mae gan y consortiwm tua 1,000 o ddysgwyr yn y gwaith sy'n ymgymryd â hyfforddiant ar raglenni yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru.

Mae mentoriaid-hyfforddi a staff addysgu yn defnyddio technolegau gwybodaeth a dysgu i wella'r addysgu, y dysgu a'r asesu. Yn yr achosion gorau, caiff y defnydd o ddyfeisiau, fel cyfrifiaduron nodiadur a ffonau symudol, ei integreiddio i weithgareddau yn yr ystafell ddosbarth a'r gweithdy. Mae athrawon yn gwneud defnydd da o gymwysiadau sy'n galluogi, er enghraifft, asesu a rhoi adborth ar y pryd, dolenni at adnoddau gwybodaeth pellach gan ddefnyddio codau QR (Adnabod yn Gyflym) ac ailchwarae fideo yn syth i roi adborth ar dasgau ymarferol.

Gwneir asesiadau o waith dysgwyr ar-lein, ar sail eu e-bortffolios. Mae hyn yn helpu gwneud adborth yn gyflym ac yn hygyrch, ac yn helpu dysgwyr i reoli'u hamser yn fwy effeithlon. Mewn bron pob un o'r meysydd dysgu, caiff y broses asesu ei rheoli'n weithredol gan ddysgwyr. Mae pob un o'r dysgwyr yn gwybod sut byddant yn cael eu hasesu a pha gynnydd maent yn ei wneud tuag at eu cymhwyster. Mae aseswyr yn defnyddio systemau olrhain electronig a phapur i gofnodi cynnydd dysgwyr. Mae bron pob un o'r aseswyr yn rhoi adborth llafar ac ysgrifenedig defnyddiol i'r dysgwyr ar ddiwedd eu hasesiad, ac yn cynllunio asesiadau yn y dyfodol yn dda i wneud yn siŵr bod dysgwyr yn gwneud cynnydd a'u bod ar y trywydd iawn i gyflawni.

Mae rheolwyr a staff yn dadansoddi data'n rheolaidd ac yn gwybod pa mor dda maent yn perfformio fel consortiwm, yn ogystal â sut mae partneriaid unigol yn perfformio. Mae staff yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i gofnodi cynnydd dysgwyr ac i adolygu'u perfformiad yn erbyn perfformiad staff hyfforddi eraill ar draws y consortiwm.

At ei gilydd, mae dysgwyr yn cwblhau'u rhaglenni ac yn cyflawni'u fframweithiau cymwysterau llawn ar raddfeydd da, ac mae graddau cyrhaeddiad uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol.

## Cymorth ar gyfer llythrennedd, rhifedd a chyflogadwyedd

Mae athrawon da a rhagorol mewn darparwyr ôl-16 yn rhoi cymorth a chyngor da a fydd yn cynyddu cyfleoedd ar gyfer dilyniant ac yn gwella cyflogadwyedd. Mewn dysgu yn y gwaith, mae ymgynghorwyr hyfforddi yn helpu dysgwyr i weld sut i adeiladu ar eu profiadau yn y gweithle. Mae'r darparwyr gorau yn rhoi ystyriaeth dda i wybodaeth am y farchnad lafur ac anghenion dysgwyr yn eu cymuned i gynllunio darpariaeth sy'n bodloni anghenion dysgwyr a chyflogwyr.

Mae staff addysgu a hyfforddi da yn rhoi ffocws cadarn ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr. Caiff llythrennedd a rhifedd eu hintegreiddio i'r holl aseiniadau galwedigaethol lle bo'n briodol. Mae athrawon yn defnyddio strategaethau llawn dychymyg i ddatblygu medrau dysgwyr mewn cyd-destun sy'n berthnasol i'w prif faes dysgu. Ym mhortffolios a gwaith aseiniadau CGC dysgwyr, mae athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr yn cywiro camgymeriadau sillafu a gramadeg yn rheolaidd ac yn rhoi sylwadau manwl ac adeiladol i ddangos i ddysgwyr sut gallant wella.

## Gweithio gyda phartneriaid

Yn yr enghreifftiau gorau o gyflawni partneriaethau, mae arweinwyr yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd i drafod perfformiad gyda chynrychiolwyr o'r holl bartneriaid, lle byddant yn rhannu gwybodaeth am addysgu a hyfforddi, ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i staff am bolisïau, perfformiad a datblygiadau'r bartneriaeth.

Lle caiff darpariaeth ei lledaenu dros ardal ddaearyddol fawr, mae arweinwyr yn creu systemau electronig i rannu data ar draws cyrsiau. Mae hyn yn galluogi staff i fonitro unrhyw amrywiadau mewn perfformiad, ac i rannu'u myfyrdodau ar addysgu a safonau.

Fel rhan o broses arsylwi systematig o sesiynau addysgu, mae'r darparwr yn monitro ansawdd yr addysgu a'r dysgu a ddarperir gan is-gontractwyr, gan gynnwys craffu ar systemau ansawdd mewnol yr is-gontractwyr. Dadansoddi'r arsylwadau hyn yw'r sail ar gyfer rhannu a thrafod arfer dda er mwyn gwella addysgu a hyfforddi.

## Beth ydyn ni wedi'i ddweud am addysgu digonol ac anfoddhaol yn y sector ôl-16?

Mae addysgu digonol ac anfoddhaol yn y sector ôl-16 yn rhannu llawer o'r un diffygion sydd eisoes wedi'u nodi uchod mewn ysgolion.

Lle mae'r addysgu dim ond yn ddigonol neu'n anfoddhaol yn y sector ôl-16, nid yw darparwyr yn gwneud digon i ddatblygu llythrennedd a rhifedd dysgwyr mewn cyd-destunau go iawn mewn sesiynau galwedigaethol. Yn benodol, nid yw dysgwyr yn cael eu herio i wella'u medrau ymhellach na'r lefel sy'n ofynnol gan eu cwrs neu fframweithiau cymwysterau.

Mewn lleoliadau ymarferol a galwedigaethol, nid yw dysgwyr yn cael eu herio'n effeithiol gan athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr i ddatblygu safonau cymhwysedd ymarferol uwch. Yn yr achosion hyn, dim ond y medrau ymarferol a'r wybodaeth theori a fydd yn eu galluogi i basio aseiniadau y mae dysgwyr yn eu datblygu. Nid yw athrawon yn strwythuro sesiynau hwy i wneud y defnydd gorau o'r amser, i osod amrywiaeth o weithgareddau ar gyfer dysgwyr neu i herio'r holl ddysgwyr yn y grŵp. Yn aml, bydd yr addysgu yn dangos diffyg cysylltiad ag arfer gyfredol yn y diwydiant neu fusnes galwedigaethol perthnasol.

Nid yw athrawon yn cynllunio sut byddant yn diwallu anghenion gwahanol ddysgwyr yn eu cynlluniau sesiwn unigol neu gynlluniau cyffredinol. Nid ydynt yn rhoi ystyriaeth ddigon da i brofiadau blaenorol dysgwyr fel bod y dysgwyr yn gallu cyfrannu at y dysgu neu arwain y dysgu. Nid yw athrawon yn defnyddio cynlluniau dysgu unigol i gynllunio'r dysgu, i osod nodau realistig nac i fonitro cynnydd.

# Addysg a hyfforddiant cychwynnol i athrawon

Nid ydym wedi bod yn recriwtio digon o athrawon dan hyfforddiant â'r cymwysterau gorau, ac mae angen mwy o gysondeb arnom o ran ansawdd yr hyn a ddarperir ar eu cyfer mewn addysg a hyfforddiant cychwynnol i athrawon, er mwyn rhoi'r cychwyn gorau iddynt yn eu gyrfa addysgu.

## Recriwtio

Mae tua hanner yr athrawon dan hyfforddiant sy'n ymgymryd â hyfforddiant athrawon yng Nghymru yn meddu ar raddau da (dosbarth cyntaf neu ail ddosbarth uwch). Mae'r gyfran hon wedi cynyddu ychydig dros y blynyddoedd diwethaf (yn unol â gwelliannau cyffredinol mewn dosbarthiadau graddau) ac mae'n uwch ar gyfer hyfforddeion cynradd nag ar gyfer hyfforddeion uwchradd. Er hynny, mae'r gyfran islaw'r cyfartaledd – llwyddodd 62% o fyfyrwyr yn y DU i ennill gradd dda yn 2010.

**59%**

Llwyddodd 59% o hyfforddeion yng Nghymru a oedd yn hyfforddi i fod yn athrawon ysgol gynradd yn 2010-2011 i ennill gradd dda.

**52%**

Llwyddodd 52% o hyfforddeion yng Nghymru a oedd yn hyfforddi i fod yn athrawon ysgol uwchradd yn 2010-2011 i ennill gradd dda.

**Ffigur 1.7:**
Graddau da wrth gychwyn ar raglenni ôl-radd yng Nghymru

| | 2008/09 | 2009/10 | 2010/11 |
|---|---|---|---|
| Ôl-raddedigion cynradd | 53% | 55% | 59% |
| Ôl-raddedigion uwchradd | 50% | 52% | 52% |

Yn ddigon tebyg, mae'r cymwysterau mynediad Safon Uwch ar gyfer hyfforddiant athrawon cynradd i israddedigion yn gwella, ond o gwmpas y norm yn unig y maent o hyd (sgôr pwyntiau o tua 300 ar gyfer holl gyrsiau israddedig y DU ar gyfartaledd).

**281**

Sgôr tariff gyfartalog ar fynediad i raglenni israddedig cynradd, 2010-2011

**Ffigur 1.8:**
Sgôr tariff gyfartalog ar fynediad i raglenni israddedig cynradd yng Nghymru

| | 2008/09 | 2009/10 | 2010/11 |
|---|---|---|---|
| Israddedigion cynradd | 266 | 272 | 281 |

## Safonau

Mae tair canolfan hyfforddiant cychwynnol i athrawon yng Nghymru. Mae'r tair canolfan yn cynnig hyfforddiant cychwynnol i athrawon ar gyfer hyfforddeion cynradd ac uwchradd ar lefel israddedig ac ôl-raddedig. Fe wnaethom arolygu dwy o'r canolfannau yn y tair blynedd diwethaf a chanfod mai safonau digonol yn unig y mae hyfforddeion yn eu cyflawni yn y ddwy ganolfan.

Mae'r rhan fwyaf o'r hyfforddeion yn gwneud cynnydd da yn gyffredinol tuag at fodloni'r safonau ar gyfer statws athro cymwysedig. Mae agweddau cadarnhaol at ddysgu gan hyfforddeion a dangosant nodweddion ac agweddau proffesiynol da. Maent yn adeiladu perthnasoedd gweithio cadarnhaol gyda'u cymheiriaid, disgyblion, a staff yr ysgol a'r brifysgol. Mae'r rhan fwyaf o hyfforddeion yn datblygu ystod addas o dechnegau rheoli ymddygiad. Mae gwybodaeth bynciol gadarn gan bron bob un ohonynt. Fodd bynnag, medrau llythrennedd a rhifedd gwan sydd gan ychydig o hyfforddeion, ac nid yw mwyafrif o hyfforddeion yn cynllunio'n ddigon da i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion mewn gwersi.

Mae diffygion hefyd yng ngwaith cynllunio hyfforddeion. Mae llawer o hyfforddeion yn gwybod sut i asesu gwaith disgyblion ond, am nad ydynt yn glir ynghylch beth maent yn bwriadu i ddisgyblion ddysgu, mae'n anodd iddynt fyfyrio ar ddysgu'r disgyblion neu ddefnyddio deilliannau asesu i gynllunio gwersi yn y dyfodol. Mae'r gwendid hwn o ran adnabod nodau dysgu penodol ar gyfer disgyblion yn golygu hefyd nad yw hyfforddeion bob amser yn dewis y strategaeth addysgu fwyaf priodol ar gyfer y wers.

## Hyfforddiant

Mae gan y rhan fwyaf o diwtoriaid hyfforddiant athrawon prifysgol wybodaeth arbenigol dda, er nad oes gan ychydig ohonynt wybodaeth gyfoes am arfer mewn ysgolion. Mae tiwtoriaid yn darparu cymysgedd defnyddiol o theori ac ymarfer ac yn cynllunio sesiynau sy'n modelu addysgu da. Fodd bynnag, nid yw tiwtoriaid a mentoriaid ysgol yn helpu hyfforddeion i ddatblygu'u medrau cynllunio'n ddigon da. Nid ydynt yn helpu hyfforddeion i ddatblygu'u medrau mewn asesu dysgu disgyblion, nac i ddefnyddio deilliannau disgyblion i fyfyrio ar ba mor dda y mae gwersi'n bodloni anghenion pob dysgwr. Nid yw tiwtoriaid a mentoriaid yn rhoi digon o gymorth i hyfforddeion i gynllunio ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd neu TGCh disgyblion.

Mae asesu gwaith hyfforddeion yn y brifysgol yn amrywio gormod ar draws tiwtoriaid a rhaglenni, ac nid yw tiwtoriaid yn nodi camgymeriadau hyfforddeion yn gyson. Yn yr hyfforddiant mewn ysgolion, mae mentoriaid yn defnyddio'u profiad yn dda i helpu hyfforddeion i ddatblygu'u haddysgu. Nid yw lleiafrif o fentoriaid, fodd bynnag, yn asesu cynnydd hyfforddeion yn gywir, neu maent yn rhy hael wrth asesu.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn dda mewn un canolfan ac yn anfoddhaol yn y llall. Lle mae'r arweinyddiaeth yn dda, mae gweledigaeth glir gan arweinwyr a rheolwyr ar gyfer datblygu'r ganolfan. Yn y ddwy ganolfan, fodd bynnag, mae diffygion yn yr hunan arfarnu a'r cynllunio ar gyfer gwella. Er bod y canolfannau'n casglu ystod eang o wybodaeth am y ddarpariaeth ar gyfer hyfforddiant cychwynnol i athrawon, ac yn ystyried barnau rhanddeiliaid, cyfyngedig yw'r dadansoddi a wneir o hyfforddiant. Nid yw arweinwyr yn mynd ati'n systematig i ddadansoddi ansawdd yr hyfforddiant mewn prifysgol neu mewn ysgol, ac nid oes syniad clir ganddynt o'r hyn sydd angen ei wella neu lle mae arfer ragorol y mae angen ei lledaenu.


# Dysgu Cymraeg fel ail iaith

Mae pob disgybl mewn ysgolion a gynhelir yn astudio Cymraeg nes eu bod yn 16 oed. Oherwydd bod tua thri chwarter o ysgolion yn rhai cyfrwng Saesneg, mae mwy o ddisgyblion yn sefyll TGAU mewn Cymraeg ail iaith nag mewn Cymraeg iaith gyntaf. Dim ond 15% sy'n sefyll arholiadau mewn Cymraeg iaith gyntaf yn 16 oed, ond mae 62% yn sefyll TGAU mewn Cymraeg ail iaith. Nid yw bron i chwarter o'r garfan Blwyddyn 11 yn sefyll unrhyw arholiadau TGAU mewn Cymraeg.

Mewn addysg ôl-16, mae chwe chanolfan 'Cymraeg i oedolion' yn darparu cyfleoedd cenedlaethol i oedolion ddysgu Cymraeg yn eu cymunedau neu eu gweithleoedd. Mae'r canolfannau hyn yn cynnig ystod eang o gyrsiau o gyrsiau lefel mynediad i bobl ddi-Gymraeg i lefel hyfedredd i ddysgwyr Cymraeg uwch. Gall dysgwyr fynychu cyrsiau o ddwysedd a hyd amrywiol, o gyrsiau blasu a phreswyl byr i gyrsiau dwys o fwy na thair awr yr wythnos dros gyfnod hwy. Yn ogystal, mae'r canolfannau'n cynnig cyrsiau unigol i weithleoedd penodol ac maent wedi datblygu ystod dda o gyrsiau e-ddysgu a dysgu o bell.

Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, mae nifer yr oedolion sy'n dysgu Cymraeg wedi aros yn weddol gyson, ac mae tua 18,000 o oedolion wedi ymrestru. Bu tuedd ar i lawr mewn ymrestriadau ar lefelau mynediad a sylfaen, ond mae nifer y dysgwyr sy'n mynychu cyrsiau hyfedredd wedi cynyddu. Mae nifer y dysgwyr sy'n mynychu cyrsiau arbenigol, fel Cymraeg yn y gweithle, cyrsiau adolygu a chyrsiau byr wedi cynyddu hefyd.

**Ffigur 1.9: 2013**
Cwrs llawn TGAU Cymraeg ail iaith




**27%**
o ddisgyblion wedi dilyn cyrsiau llawn TGAU Cymraeg ail iaith



**76%**
wedi cyflawni graddau A*-C

**Ffigur 1.10: 2013**
Cwrs byr TGAU Cymraeg ail iaith



**35%**
o ddisgyblion wedi dilyn y cwrs TGAU byr



**48%**
wedi cyflawni graddau A*-C

# Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Cymraeg ail iaith?

Nid oes unrhyw ganlyniadau asesiadau cyhoeddedig ar gyfer datblygu'r Gymraeg mewn lleoliadau ac ysgolion cyfrwng Saesneg hyd at saith oed.

Yng nghyfnod allweddol 2, gall ysgolion ddewis rhoi manylion am asesiadau athrawon mewn Cymraeg ail iaith i Lywodraeth Cymru. Yn 2013, aseswyd 95% o ddisgyblion o'r garfan gymwys mewn Cymraeg ail iaith. Canran y disgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig (lefel 4 neu'n uwch) mewn Cymraeg ail iaith oedd 68%.

Yn 2013, cwblhaodd tuag 83% o ddisgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 asesiadau mewn Cymraeg ail iaith, a chyrhaeddodd 73% ohonynt y lefel ddisgwyliedig, neu ragori arni. Cwblhaodd yr 17% arall o'r disgyblion asesiadau Cymraeg iaith gyntaf.

Nid yw cyrsiau TGAU mewn Cymraeg ail iaith yn cynhyrchu disgyblion dwyieithog na phobl ifanc sy'n ddigon hyderus i ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau bob dydd. Mae Cymraeg yn bwnc statudol i bob disgybl hyd ddiwedd cyfnod allweddol 4. I lawer o ddisgyblion, mae cymwysterau TGAU ail iaith yn ddiweddglo i 11 mlynedd o ddysgu Cymraeg fel ail iaith. Mae hwn yn fuddsoddiad sylweddol gan Lywodraeth Cymru.

Yn 2013, dilynodd 27% o ddisgyblion gyrsiau TGAU llawn mewn Cymraeg ail iaith (sydd ychydig yn uwch nag yn 2012). O'r rhain, cyflawnodd 76% ohonynt raddau A*-C. Mae canlyniadau yn y cwrs byr yn wannach na'r rhai ar gyfer y cwrs llawn. Dilynodd 35% o ddisgyblion y cwrs TGAU byr a chyflawnodd 48% ohonynt raddau A*-C.

Felly, yn gyffredinol, mae nifer gymharol fyr o ddisgyblion yn dilyn y cyrsiau TGAU llawn mewn Cymraeg ail iaith yng nghyfnod allweddol 4. Mewn rhai ysgolion cyfrwng Saesneg, fel Ysgol Bryngwyn, mae llawer o ddisgyblion yn sefyll y cwrs TGAU llawn ac yn llwyddo ynddo. Yn Ysgol Bryngwyn, mae 93% o ddisgyblion yn dilyn y cwrs TGAU llawn, ac mae 82% ohonynt yn cyflawni graddau A* i C. Nid yw'n syndod bod disgyblion yn cyrraedd safonau uchel mewn Cymraeg ail iaith yn yr ysgolion hynny lle mae addysgu yn dda neu'n rhagorol.

Yn 2007, cyhoeddodd Estyn adroddiad cylch gwaith yn dwyn y teitl 'Arfarniad o'r cwrs byr TGAU Cymraeg ail iaith'. Mae'r adroddiad yn nodi sawl her sy'n gysylltiedig â'r cwrs byr TGAU, ac mae'r diffygion hyn yn berthnasol o hyd. Yn bennaf, maent yn adlewyrchu'r diffyg amser a ddyrennir i addysgu cyrsiau TGAU mewn Cymraeg ail iaith ac ansawdd gwael llawer o'r addysgu hwnnw, y mae'r ddau ohonynt yn effeithio ar gymhelliant disgyblion. Mae prinder athrawon Cymraeg ail iaith â chymwysterau da yn cyfyngu ar gynnydd disgyblion ar draws y cyfnodau allweddol o hyd.

## Canfyddiadau o arolygiadau ysgolion yn ystod y cylch arolygu cyfredol

Mewn Cymraeg ail iaith, yn y mwyafrif o ysgolion, mae disgyblion yn gwneud dechrau cymharol dda o ran dysgu sut i siarad Cymraeg a gwrando ar Gymraeg. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn ystod sesiynau grŵp cyfan, ac mae ganddynt agwedd gadarnhaol tuag at siarad Cymraeg.

Mae safonau yng nghyfnod allweddol 2 yn gwella'n araf ond mewn lleiafrif sylweddol o ysgolion, nid yw disgyblion yn datblygu eu medrau Cymraeg yn ddigon da. Yn aml yn yr ysgolion hyn, nid yw athrawon yn dyrannu digon o amser i wella medrau Cymraeg ail iaith disgyblion, ac nid yw llawer o athrawon yn hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg eu hunain, yn enwedig gyda disgyblion hŷn yng nghyfnod allweddol 2. Yn rhy aml, nid yw athrawon yn cynllunio ar y cyd i sicrhau dilyniant iaith o un flwyddyn i'r llall ond, yn aml, maent yn ailadrodd patrymau brawddegau a geirfa o'r dechrau. Gwneir gormod o ddefnydd o fframiau ysgrifennu sy'n gofyn i ddisgyblion lenwi bylchau, yn hytrach na chynnig cyfleoedd i strwythuro brawddegau syml yn annibynnol. Mae enghreifftiau o ddisgyblion yn defnyddio'r Gymraeg yn dda ar draws y cwricwlwm yn brin.

Mae safonau mewn Cymraeg ail iaith mewn ysgolion uwchradd yn dda mewn ychydig o ysgolion yn unig. Mae safonau yn arbennig o dda yn yr ysgolion hynny lle mae safonau yn rhagorol yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae Cymraeg ail iaith yn faes pwysig y mae angen ei wella mewn tua un o bob pump o ysgolion, lle mae safonau mor isel fel ein bod yn argymell bod angen gwelliannau. Hyd yn oed mewn ysgolion lle mae safonau yn dda, mae'n anghyffredin i ddod o hyd i ddisgyblion sy'n ddigon hyderus i ddefnyddio'r iaith o ddydd i ddydd.

Nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion wella eu gallu i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i wersi Cymraeg. Ychydig iawn o ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg sy'n cynnwys camau gweithredu yn eu cynlluniau gwella ysgol i gynyddu rhuglder yn y Gymraeg. Ychydig iawn ohonynt sy'n cydweithio â sefydliadau fel yr Urdd neu Fentrau Iaith i gynnig mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ymarfer siarad Cymraeg yn anffurfiol y tu allan i oriau ysgol. Fodd bynnag, mae rhai ysgolion unigol yn llwyddo'n dda pan fydd ganddynt athrawon â chymwysterau gwell ac sy'n dod o hyd i ffyrdd dychmygus i wella medrau disgyblion yn eu gwersi amserlenedig a'r tu allan iddynt.

## Beth y gellir ei wneud i wella'r sefyllfa?

Yn rhy aml, mae'r hyn a welwn mewn llawer o wersi Cymraeg ail iaith yn adlewyrchu technegau addysgu traddodiadol a digyffro.

Mae'r ysgolion mwyaf llwyddiannus yn rhoi pwyslais ar fagu hyder mewn siarad (ac ysgrifennu) yr iaith, yn hytrach na medrau mwy goddefol gwrando a darllen. Maent yn gwneud hyn trwy gysylltu gwaith dosbarth â gweithgareddau allgyrsiol pleserus a thrwy bwysleisio'r Cwricwlwm Cymreig ar draws yr ysgol gyfan, er mwyn i ddisgyblion werthfawrogi a deall hanes, daearyddiaeth a diwylliant Cymru. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys gweithgareddau yn yr awyr agored neu gyfnodau preswyl i ffwrdd o'r ysgol, er enghraifft yng ngwersylloedd yr Urdd.

Mae'r ysgolion gorau yn meithrin cysylltiadau â chymheiriaid mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, yn lleol ac ymhellach oddi cartref, ac maent yn defnyddio technoleg fodern, fel e-bost a Twitter. Gellir dysgu llawer o'r fethodoleg sy'n cael ei harddangos gan rai darparwyr Cymraeg i oedolion, er enghraifft trwy wahodd siaradwyr Cymraeg o'r gymuned leol i'r ysgol i siarad â'r dysgwyr.

Mae ychydig o ysgolion yn codi ymwybyddiaeth ymhlith disgyblion a rhieni o fanteision dwyieithrwydd yn y farchnad swyddi. Mae gan y gwasanaeth gyrfaoedd ran bwysig i'w chwarae trwy ddefnyddio gwybodaeth y farchnad lafur am y swyddi sydd ar gael i siaradwyr Cymraeg.

## Staffio

Mae denu arbenigwyr Cymraeg â chymwysterau da i addysgu Cymraeg ail iaith yn her i lawer o ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg. At ei gilydd, mae gallu cyfyngedig o ran staffio ac arweinyddiaeth. Mewn rhai ysgolion, disgwylir i athrawon nad ydynt yn arbenigwyr pwnc addysgu Cymraeg yn helaeth. Mae gormod o'r athrawon hyn yn brin o hyder a chymhwysedd.

Mae 1,003 o athrawon wedi eu cofrestru i addysgu Cymraeg iaith gyntaf neu ail iaith yn gweithio mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru[1]. O'r rhain, dim ond 67% ohonynt sydd wedi eu hyfforddi i addysgu Cymraeg ac nid yw 23% ohonynt wedi eu hyfforddi i addysgu'r pwnc. Mae hyn yn golygu bod o leiaf 226 o athrawon yn addysgu Cymraeg mewn ysgolion uwchradd nad ydynt wedi eu hyfforddi i addysgu'r pwnc, ac nid oes unrhyw wybodaeth am gymwysterau perthnasol y gweddill ohonynt.

Mae lleiafrif o ysgolion yn trefnu rhaglen i helpu staff i ddysgu Cymraeg. Mae hyn yn helpu staff i ddefnyddio'r Gymraeg gyda disgyblion mewn sefyllfaoedd anffurfiol o gwmpas yr ysgol, ond nid yw'n mynd i'r afael â'r angen am athrawon rhugl.

Mae'n amlwg o'r ffordd y mae dulliau addysg drochi yn gweithio gyda phlant ifanc o gartrefi di-Gymraeg pan fyddant yn ymuno ag ysgolion cyfrwng Cymraeg yn dair neu bedair oed, mai trochi cynnar yw'r ffordd fwyaf effeithiol o addysgu nid yn unig ail iaith, ond trydedd a phedwaredd iaith hefyd. Mae plant ifanc yn barod iawn i ddysgu iaith. Daw'n anoddach yn ddiweddarach, er y caiff dulliau trochi eu defnyddio ar bob lefel, gan gynnwys gydag oedolion. Mae ymchwil ddiweddar yn awgrymu bod manteision gwybyddol cyffredinol yn gysylltiedig â rhuglder mewn mwy nag un iaith, a'u bod yn mynd y tu hwnt i hyfedredd syml mewn iaith. Fodd bynnag, nid oes gennym y gallu yn y gweithlu addysgu na chymorth dysgu yng Nghymru ar hyn o bryd i alluogi ysgolion a lleoliadau i gynnig addysg drochi i bob plentyn sy'n dysgu Cymraeg fel ail neu drydedd iaith. Nid oes gennym gwricwlwm ychwaith ar gyfer Cymraeg ail iaith sy'n mynnu bod athrawon yn defnyddio dulliau trochi.

**Ffigur 1.11:**
**Canrannau'r athrawon Cymraeg mewn ysgolion uwchradd yn ôl eu hyfforddiant cychwynnol**



**67%** wedi eu hyfforddi i addysgu Cymraeg

**23%** yn addysgu Cymraeg ond heb eu hyfforddi i wneud hynny

**11%** nid yw'r pwnc y maent wedi ei hyfforddi ynddo yn hysbys

[1] Crynhoad Ystadegau Blynyddol Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, Mawrth 2013

## Cymraeg i oedolion

Nid oes digon o ddysgwyr sy'n dechrau mewn dosbarthiadau lefel mynediad yn symud ymlaen i ddosbarthiadau lefel sylfaen mewn canolfannau sy'n cynnig cyrsiau Cymraeg i oedolion, sy'n golygu bod nifer yr oedolion sy'n llwyddo i ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus a rhugl yn isel o hyd.

Rydym wedi arolygu tair canolfan er Medi 2010. Mae addysgu yn gyson dda mewn dwy o'r tair canolfan a arolygwyd, ond ceir ychydig iawn o enghreifftiau o addysgu ardderchog yn yr un o'r canolfannau. Mae athrawon yn trefnu gwersi'n dda ac yn defnyddio amrywiaeth o weithgareddau i gyflawni eu hamcanion dysgu, gan gynnwys gwaith mewn parau a grwpiau, lle gall dysgwyr ymarfer eu geirfa a'u cystrawen Gymraeg. Mae athrawon yn defnyddio medrau holi da i sicrhau bod gan ddysgwyr ddealltwriaeth lawn ac mae rhediad y gwaith yn aml yn fywiog.

Yn gyffredinol, mae athrawon Cymraeg i oedolion yn dangos model cywir o Gymraeg llafar. Maent yn defnyddio'r Gymraeg yn gyson wrth addysgu ac yn defnyddio Saesneg yn anaml iawn, a dim ond yn ôl yr angen. Cymraeg yw'r prif ddull cyfathrebu mewn sesiynau ac mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn defnyddio'r Gymraeg wrth siarad gyda'i gilydd a chyda'r athro. Mae tiwtoriaid yn marcio gwaith ysgrifenedig yn rheolaidd ac yn cynnig adborth priodol ar sut i wella'r gwaith ymhellach. Maent yn rhoi adborth llafar da i ddysgwyr hefyd.

Yn aml, mae athrawon Cymraeg yn defnyddio TGCh i ddatblygu medrau gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu dysgwyr ac yn annog dysgwyr i gyfathrebu â'i gilydd y tu allan i wersi gan ddefnyddio technoleg. Mae pob canolfan yn trefnu gweithgareddau allgyrsiol amrywiol i ddysgwyr. Mae'r gweithgareddau hyn yn annog dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn fyrfyfyr mewn sefyllfaoedd go iawn. Maent yn creu amgylchedd Cymraeg cyfeillgar a chefnogol.

## Y ffordd ymlaen

Yn 2010, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg. Y nod yw cyflawni 'system addysgu a hyfforddiant sy'n sicrhau cynnydd yn nifer y bobl o bob oedran a chefndir sy'n rhugl yn y Gymraeg'. Yn 2012, amlinellodd 'Iaith Fyw: Iaith Byw' strategaeth bum mlynedd, a oedd yn cynnwys nod tebyg ac yn anelu at gyflawni 'rhagor o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg' a 'cynnydd yn hyder pobl a'u rhuglder yn yr iaith'.

Yn fwy diweddar, comisiynwyd dau adolygiad o Gymraeg mewn addysg gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau a chyhoeddwyd dau adroddiad. Mae un ohonynt yn ymwneud â Chymraeg i oedolion a'r llall yn adolygiad o Gymraeg ail iaith yng nghyfnodau allweddol 3 a 4. Mae'r ddau adroddiad yn nodi nodweddion anfoddhaol mewn cynllunio'r cwricwlwm ar gyfer caffael iaith, mewn ysgolion ac i oedolion, ac mae'r ddau adroddiad yn cyflwyno dadl dros fframwaith cwricwlaidd cydlynol a fyddai'n hwyluso dilyniant ar draws pob cyfnod dysgu, efallai wedi ei seilio ar Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin ar gyfer Ieithoedd neu'r Fframwaith Llythrennedd Cenedlaethol.

Hefyd, mae'r ddau adroddiad yn nodi'r heriau y mae angen mynd i'r afael â nhw er mwyn sicrhau a chynnal gweithlu cwbl broffesiynol a chymwysedig o athrawon mewn ysgolion ac mewn addysg i oedolion. Yn sgil yr adolygiadau hyn, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwneud newidiadau i'r modd y caiff Cymraeg i oedolion ei threfnu a'i chyflwyno. Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys ad-drefnu cyllid a darpariaeth, ac adolygu achredu, asesu a chwricwlwm rhaglenni Cymraeg i oedolion.

# PISA yn y DU

Y Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr yw PISA, sy'n cael ei chynnal gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD). Bob tair blynedd, mae myfyrwyr o wledydd ledled y byd yn sefyll profion darllen, mathemateg a gwyddoniaeth. Prif ffocws arolwg PISA yn 2012 oedd mathemateg.

Yng Nghymru, cymerodd 137 o ysgolion uwchradd ran yn PISA 2012, a'r gyfradd ofynnol o ran cyfranogiad disgyblion oedd o leiaf 50% o'r sampl disgyblion. Bydd pob un o'r ysgolion hyn yn cael set o ganlyniadau manwl a ddylai eu rhoi mewn sefyllfa dda i fyfyrio ar eu cwricwlwm a'r modd y caiff ei gyflwyno.

## Sgorau cymedrig a gyflawnwyd ym mhrofion PISA gan ddisgyblion yng ngwledydd y DU o gymharu â chyfartaledd OECD


## Ffigur 1.12: Sgorau cymedrig a gyflawnwyd ym mhrofion PISA gan ddisgyblion yng ngwledydd y DU o gymharu â chyfartaledd OECD

- Yr Alban
- Gogledd Iwerddon
- Lloegr
- Cymru
- Cyfartaledd OECD

**Cyfartaledd OECD**

| Mathemateg | Gwyddoniaeth | Darllen |
|---|---|---|
| 494 | 501 | 496 |



# Canfyddiadau allweddol

Yn arolwg PISA 2012, nid oedd unrhyw wahaniaeth sylweddol o ran perfformiad mewn mathemateg, gwyddoniaeth a darllen rhwng Yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon, ac eithrio mewn mathemateg, lle cafodd Yr Alban sgôr sylweddol uwch na Gogledd Iwerddon. Fodd bynnag, roedd sgorau Cymru ym mhob pwnc yn sylweddol is na'r rhai yng ngwledydd eraill y DU a chyfartaledd OECD.

Mae PISA yn defnyddio chwe lefel hyfedredd i ddisgrifio medrau disgyblion, a lefel 6 yw'r lefel uchaf. Ym mhob pwnc, Cymru oedd â'r ganran isaf o ddisgyblion yn gweithio ar lefel 5 neu 6 a'r ganran uchaf o ddisgyblion a oedd yn gweithio ar lefel 1 neu'n is.

Ar gyfer mathemateg, perfformiodd 38 o wledydd yn well na Chymru o gymharu â 31 mewn darllen a 25 mewn gwyddoniaeth. Ym mhob un o'r tri phwnc, perfformiodd mwy o wledydd yn well na Chymru yn 2012 nag yn 2009.

# Pa mor dda yw safonau mewn mathemateg?

## Perfformiad mathemateg yn PISA

PISA 2012 yw'r pumed cylch o brofion PISA a'r trydydd lle mae sgorau Cymru wedi eu nodi ar wahân i rai y DU. Mathemateg yw prif ffocws PISA 2012 a chaiff ei ddiffinio gan OECD fel a ganlyn:

*"Llythrennedd mathemategol yw gallu unigolyn i ffurfio, defnyddio a dehongli mathemateg mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Mae'n cynnwys ymresymu'n fathemategol a defnyddio cysyniadau, gweithdrefnau, ffeithiau ac offer mathemategol i ddisgrifio, esbonio a rhagfynegi ffenomenau. Mae'n helpu unigolion i gydnabod y rôl y mae mathemateg yn ei chwarae yn y byd ac i lunio'r barnau a'r penderfyniadau cadarn sydd eu hangen ar ddinasyddion adeiladol, ymgysylltiedig a myfyriol."*

Mae adroddiad y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (SCYA) ar PISA 2012 yn nodi bod gan lythrennedd mathemategol bedwar categori cynnwys ('maint', 'ansicrwydd a data', 'newid a pherthnasoedd' a 'siâp a gofod') a thair proses fathemategol sy'n ymwneud â'r gallu:

1. i ffurfio sefyllfaoedd yn fathemategol;
2. i ddefnyddio cysyniadau, ffeithiau a gweithdrefnau mathemategol; ac
3. i ddehongli, cymhwyso ac arfarnu deilliannau mathemategol.


Mae sgorau'n amrywio ym mhob gwlad sy'n cymryd rhan yn y categorïau hyn sy'n ymwneud â chynnwys a phroses, ac mae'r adroddiad yn awgrymu lle ceir amrywiant eang yn y sgorau ar draws y categorïau, fel sydd yng Nghymru:

*"gallai hyn fod â rhai goblygiadau ar gyfer addysgu a dysgu neu gallant awgrymu y dylid arfarnu cydbwysedd y meysydd hyn yn y cwricwlwm".*

Mae canlyniadau PISA 2012 yn dangos bod perfformiad Cymru mewn mathemateg wedi dirywio er 2006. Hefyd, mae bwlch cynyddol rhwng cyflawnwyr uchel ac isel. Yn 2012, roedd bechgyn yn perfformio'n well na merched mewn mathemateg o hyd, er bod llai o fwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched nag yn 2009.


Mae canlyniadau PISA 2012 yn rhoi Cymru mewn sefyllfa sy'n sylweddol is na chymedr OECD mewn mathemateg, yn ogystal ag islaw safleoedd ei chymdogion agosaf yn y DU a'r rhan fwyaf ohonynt yn yr Undeb Ewropeaidd.

## Ffigur 1.13: Perfformiad cymedrig ym meysydd cynnwys mathemateg, yn ôl gwledydd y DU (PISA 2012)




Ar gyfer y pedwar maes cynnwys mewn mathemateg, cyflawnodd Cymru ei sgôr orau ar y raddfa 'ansicrwydd a data' a'i sgôr isaf ar y raddfa 'siâp a gofod'. Yn y tri maes prosesau, cafodd Cymru y sgôr orau ar allu disgyblion i ddehongli, arfarnu a chymhwyso, a'i sgôr isaf ar y gallu i ffurfio sefyllfaoedd yn fathemategol.

## Ffigur 1.14:
## Canran y disgyblion ar y lefelau hyfedredd uwch (lefelau 5 a 6), yn ôl gwledydd y DU (PISA 2012)




Mae dadansoddiad SCYA o ddata PISA 2012 yn dangos bod perfformiad Cymru mewn mathemateg ar bob un o'r chwe lefel hyfedredd a ddefnyddir gan PISA i ddosbarthu cyrhaeddiad yn is ni chyfartaledd OECD. Mae cyfran y disgyblion yng Nghymru sy'n cyrraedd y lefelau uchaf, sef 5 a 7, tua hanner y tair gwlad arall yn y DU. Mae hyn yn pleidio'r achos am astudiaeth fanwl o ganfyddiadau dadansoddiadau OECD a SCYA gan ysgolion uwchradd, gan y rhai sy'n llunio cymwysterau TGAU newydd a'r rhai sydd ynghlwm wrth feithrin gallu yn y proffesiwn addysgu.

Dan yr amgylchiadau, mae'n syndod bod disgyblion yng Nghymru yn dangos lefel uchel o ddiddordeb, mwynhad, hyder a chydwybodolrwydd mewn mathemateg mewn ymateb i holiaduron, yn fwy na chyfartaledd OECD.

Nid athrawon cyfnod allweddol 4 yn unig sy'n gyfrifol am safle dirywiol Cymru mewn mathemateg o gymharu â gwledydd eraill, yn sgorau PISA a chanlyniadau TGAU. Caiff sylfeini cymhwysedd mewn mathemateg eu gosod yn gynharach o lawer yn addysg disgyblion ac, oni bai bod y sylfeini hyn yn gadarn, mae'n rhy hwyr i wella'r holl ddiffygion yng nghyfnod allweddol 4. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae Estyn wedi cyhoeddi sawl adroddiad ar safonau mewn mathemateg a rhifedd mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, a rhoddwyd cyhoeddusrwydd da i ganfyddiadau'r adroddiadau hyn. Canfuom fod bylchau yn nealltwriaeth fathemategol ac addysgeg rhai athrawon ym mhob cyfnod allweddol.

# Deilliannau yng nghyfnod allweddol 4

Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni gradd C neu'n uwch mewn TGAU mathemateg wedi cynyddu naw pwynt canran er 2008. Fodd bynnag, mathemateg yw'r pwnc craidd â'r perfformiad isaf yng nghyfnod allweddol 4 o hyd, ac mae canlyniadau TGAU mewn mathemateg wedi bod yn is yng Nghymru nag yn Lloegr ers rhai blynyddoedd.

Mae dilyniant o gyfnod allweddol 3 i gyfnod allweddol 4 yn wannach mewn mathemateg nag yn y pynciau craidd eraill. Roedd cyfran y disgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig (lefel 5 neu'n uwch) ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 yn 2011, o gymharu â chyfran y TGAU ar radd C neu'n uwch ddwy flynedd yn ddiweddarach yn 2013, yn is mewn mathemateg nac yn y pynciau craidd eraill.

**Ffigur 1.15: Cyfran y disgyblion a gyflawnodd lefel 5 neu'n uwch yng nghyfnod allweddol 3 yn 2011 o gymharu â chyfran y graddau C neu'n uwch mewn TGAU yn 2013**

| | 2011 | 2013 | |
|---|---|---|---|
| | Disgyblion a gyflawnodd lefel 5+ yng nghyfnod allweddol 3[2] | Graddau C+ mewn TGAU[3] | Gwahaniaeth o ran pwyntiau canran |
| Saesneg | 76% | 66% | -10 |
| Cymraeg iaith gyntaf | 81% | 73% | -8 |
| Mathemateg | 78% | 60% | -18 |
| Gwyddoniaeth | 80% | 75% | -8 |

*Ffynhonnell: Ystadegau Ysgolion, Llywodraeth Cymru* [4]

Mae'r tabl isod yn dangos, er i gyfran uwch o ddisgyblion gyflawni lefel 6 neu'n uwch mewn mathemateg yng nghyfnod allweddol 3 o gymharu â'r pynciau craidd eraill, mae llai o ddisgyblion yn yr un garfan wedi cyflawni graddau A*, A neu B yng nghyfnod allweddol 4, ddwy flynedd yn ddiweddarach.


**Ffigur 1.16: Cyfran y disgyblion a gyflawnodd lefel 6 neu'n uwch yng nghyfnod allweddol 3 yn 2011 o gymharu â chyfran y graddau B neu'n uwch mewn TGAU yn 2013**

| | 2011 | 2013 | |
|---|---|---|---|
| | Disgyblion a gyflawnodd lefel 6+ yng nghyfnod allweddol 3[2] | Graddau B+ mewn TGAU[3] | Gwahaniaeth o ran pwyntiau canran |
| Saesneg | 35% | 37% | 2 |
| Cymraeg iaith gyntaf | 38% | 43% | 4 |
| Mathemateg | 47% | 27% | -19 |
| Gwyddoniaeth | 39% | 43% | 4 |

*Ffynhonnell: Ystadegau Ysgolion, Llywodraeth Cymru* [4]

[2] Caiff y ffigurau ar gyfer Cymraeg iaith gyntaf eu cyfrifo ar sail carfan Gymraeg iaith gyntaf. Caiff y ffigurau ar gyfer Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth eu cyfrifo ar sail carfan Cymru gyfan.
[3] Mae'r ffigurau wedi'u seilio ar nifer yr arholiadau TGAU sy'n cael eu sefyll gan rai 15 oed yn ystod y flwyddyn academaidd a gallant gynnwys nifer o arholiadau fesul disgybl.
[4] http://wales.gov.uk/statistics-and-research/end-foundation-phase-outcomes-national-curriculum-teacher-assessment-core-subjects-key-stages-2-3/?skip=1&lang=cy
http://wales.gov.uk/statistics-and-research/examination-results/?skip=1&lang=cy

**Ffigur 1.17:**
**Canran y TGAU pwnc craidd ar bob gradd ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 yn 2013**




Nodyn: Mae U/X yn cynnwys disgyblion na enillodd ddigon o farciau i gael gradd, neu a oedd yn absennol o rai rhannau o'r arholiad.

*Ffynhonnell: Ystadegau Ysgolion, Llywodraeth Cymru*

Dros y pum mlynedd diwethaf, mae canran y disgyblion 15 oed a enillodd radd C neu'n uwch mewn TGAU mathemateg wedi gwella, ac mae'r gwahaniaeth rhwng deilliannau mewn Saesneg wedi culhau. Fodd bynnag, roedd cyfran is o'r canlyniadau TGAU mewn mathemateg ar raddau A a B nag yn y pynciau craidd eraill, a chyfran uwch o lawer o'r canlyniadau TGAU mewn mathemateg ar raddau is na D nag yn y pynciau craidd eraill.

Mae gormod o ysgolion yn cael trafferth ysgogi ac ennyn diddordeb disgyblion sy'n cael mathemateg yn anodd, yn rhannol oherwydd eu bod yn gosod disgwyliadau rhy isel. Maent yn canolbwyntio gormod ar ddisgyblion sydd ar y ffin rhwng graddau D ac C, ac yn gwneud iddynt wneud digon i gyflawni gradd C yn unig. Mae gormod o ysgolion yn gwneud i ddisgyblion sefyll TGAU mewn mathemateg yn gynnar er mwyn rhoi mwy o gyfle iddynt ennill gradd C - maent yn sefyll yr arholiad ym Mlwyddyn 10 ac, os ydynt yn methu, maent yn ei sefyll eto y flwyddyn ganlynol. O ganlyniad, mae gormod o ddisgyblion yn sefyll arholiadau cyn eu bod yn barod, felly nid ydynt yn cael cyfle i ennill y graddau uchaf.

Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, mae'r gwahaniaeth sylweddol rhwng cyfran y disgyblion sy'n ennill gradd C neu'n uwch mewn mathemateg yng Nghymru o gymharu â Lloegr wedi parhau[5]. Mae cyfran y canlyniadau TGAU yng Nghymru ar raddau uwch na gradd C, yn enwedig graddau A a B, yn sylweddol is na'r cyfraddau yn Lloegr. Mae'r gymhariaeth hon yn awgrymu nad yw digon o ddisgyblion yng Nghymru yn cyrraedd eu llawn botensial mewn mathemateg.

Yn ein cyhoeddiad diweddar, 'Arfer dda mewn mathemateg yng nghyfnod allweddol 4', Estyn Hydref 2013, rydym yn archwilio safonau, addysgu ac arweinyddiaeth mewn mathemateg.

[5] http://wales.gov.uk/statistics-and-research/examination-results/?skip=1&lang=cy
https://www.gov.uk/government/collections/statistics-gcses-key-stage-4

## Beth rydym wedi ei ddweud am safonau digonol ac anfoddhaol mewn mathemateg?

Mewn gwersi mathemateg lle mae safonau yn ddigonol yn unig neu'n waeth, ni all disgyblion alw medrau mathemategol allweddol i gof i gefnogi eu dysgu. Er enghraifft, mae disgyblion yn cael trafferth â rhifau negatif mewn sefyllfaoedd newydd. Mae disgyblion yn rhy ddibynnol ar ddefnyddio cyfrifianellau i ddatrys problemau. Ni all llawer o ddisgyblion symleiddio mynegrifau heb ddefnyddio cyfrifiannell, sy'n tanseilio eu dealltwriaeth o fynegrifau. Mewn gwersi lle mae safonau yn wael, mae disgyblion yn aml yn gweithio ar lefelau isel gan nad yw cynnwys y wers yn eu hymestyn ddigon. Yn aml, mae'r gwersi hyn yn cynnwys cyfran sylweddol o waith a addysgwyd ynghynt, fel disgyblion galluog ym Mlwyddyn 11 yn gweithio ar gymesuredd, priodweddau siapiau syml a chyfaint syml.

## Beth rydym wedi ei ddweud am safonau da a rhagorol mewn mathemateg?

Yn y gwersi lle mae safonau mewn mathemateg yn dda neu'n rhagorol, gall disgyblion alw ffeithiau mathemategol i gof yn gyflym ac yn gywir. Maent yn dangos rhuglder wrth ddelio â rhifau mewn cyfrifiadau pen ac ysgrifenedig ac yn eu cymhwyso'n effeithiol i ddatrys problemau yn eu cyd-destun. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o drin algebra ac maent yn cysylltu prosesau haniaethol â sefyllfaoedd go iawn. Maent yn defnyddio cyfrifianellau yn hyfedr ac yn gwneud amcangyfrifon call i wirio atebion. Maent yn nodi patrymau yn eu gwaith yn gyflym ac yn creu cysylltiadau rhwng agweddau gwahanol ar fathemateg. Wrth ddatrys problemau, maent yn cynllunio'n effeithiol trwy ddethol technegau mathemategol priodol ac yn trefnu eu gwaith mewn ffordd systematig i leihau camgymeriadau. Maent yn dangos lefelau uchel o wydnwch ac yn nodi ac yn cywiro gwallau yn eu gwaith. Maent yn deall cysyniadau mathemategol allweddol yn dda ac yn rhoi ymresymiad clir, gan ddefnyddio iaith fathemategol briodol, wrth esbonio eu gwaith. Maent yn dehongli gwybodaeth ystadegol yn drachywir ac yn defnyddio ystod o ddiagramau, graffiau a nodiannau mathemategol i gyfathrebu canfyddiadau a syniadau i eraill.

## Beth yw nodweddion cyffredin addysgu da a rhagorol mewn mathemateg?

Yn yr ysgolion lle mae addysgu mathemateg yn dda neu'n well, mae athrawon yn gosod disgwyliadau uchel trwy gynllunio gwersi sydd â rhediad da ac sy'n ymestyn disgyblion o bob gallu. Maent yn symbylu cyfaredd disgyblion â mathemateg trwy greu cysylltiadau â sefyllfaoedd go iawn ac maent yn rhoi gwir bwrpas i fathemateg. Maent yn esbonio ac yn cyfleu cysyniadau mathemategol anodd mewn ffordd glir a diffwdan. Maent yn gosod gweithgareddau difyr sy'n cynnwys disgyblion yn eu dysgu eu hunain. Maent yn canolbwyntio'n rheolaidd ar fedrau mathemategol craidd hanfodol er mwyn sicrhau bod disgyblion yn datblygu lefelau uchel o alw i gof a rhuglder mewn medrau rhif ac algebraidd. Maent yn rheoli sesiynau trafod yn fedrus i ddatblygu syniadau ac ymatebion disgyblion ac yn defnyddio ystod o gwestiynau penagored a chaeedig i asesu dealltwriaeth o gysyniadau mathemategol allweddol. Wrth holi disgyblion, maent yn caniatáu amser meddwl a thrafod i alluogi disgyblion i rannu syniadau a datblygu ymatebion llawnach. Maent yn defnyddio camgymeriadau a chamsyniadau i wella dysgu a galluogi disgyblion i ddeall egwyddorion a chysyniadau mathemategol sy'n tanategu eu gwaith mewn mathemateg a phynciau eraill.

Fodd bynnag, lle mae addysgu yn ddigonol yn unig neu'n anfoddhaol, nid yw athrawon yn cynllunio'n ddigon da i herio na datblygu medrau a dealltwriaeth pob disgybl. Mae'r adroddiad 'Arfer dda mewn mathemateg yng nghyfnod allweddol 4' yn nodi agweddau ar addysgu ac arweinyddiaeth mewn mathemateg y mae angen eu gwella.

## Beth y mae angen ei wneud?

Mae angen i arweinwyr ysgolion gyfathrebu gweledigaeth glir ar gyfer mathemateg a gosod disgwyliadau uchel ar gyfer pob disgybl, ac mae angen ffocws clir ar yr hanfodion, sef cynllunio, addysgu ac asesu da. Mae angen i addysgu ddatblygu disgyblion sy'n fwy rhugl a hyderus mewn agweddau allweddol ar fathemateg, fel gwaith rhif ac algebra. Bydd gwelliannau yn yr agweddau hyn yn golygu y daw disgyblion yn ddysgwyr gwytnach ac yn well am ddatrys problemau.

Mae angen i raglenni astudio, yn cwmpasu pob cyfnod allweddol, ganolbwyntio'n agosach ar yr agweddau pwysig hyn er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad gwell ym medrau mathemategol disgyblion rhwng ysgolion a grwpiau blwyddyn. Mae angen i athrawon sicrhau bod disgyblion y dilyn y rhaglen astudio lawn, mewn ffordd sy'n cysylltu â'u gallu.

Mae angen i athrawon gynllunio gwersi difyr, heriol a pherthnasol, sy'n adeiladu ar fedrau mathemategol craidd disgyblion a datblygu hyder a rhuglder yn y meysydd hyn. Mae angen i fedrau holi effeithiol brofi a datblygu dealltwriaeth disgyblion o gysyniadau mathemategol allweddol. Mae angen amlygu camgymeriadau a chamsyniadau a'u defnyddio i wella dysgu.

Mae angen i asesu fod yn rheolaidd ac yn gywir. Mae angen iddo adlewyrchu gwaith a gallu'r disgyblion eu hunain. Mae angen i feysydd i'w gwella a nodwyd o weithgareddau asesu lywio gwaith athrawon a disgyblion. Mae angen i athrawon gynllunio i fynd i'r afael â gwendidau disgyblion ac mae angen i ddisgyblion fod yn ymwybodol o'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella. Rhaid i ddisgyblion gael cyfleoedd i ailedrych ar feysydd i'w gwella a'u hymarfer, ac mae angen iddynt allu asesu eu cynnydd yn y meysydd hyn. Mae angen i uwch arweinwyr, athrawon, disgyblion a rhieni/gofalwyr fod â dealltwriaeth gadarn o'r cynnydd a wneir gan ddisgyblion mewn mathemateg. Mae angen i weithgareddau asesu roi darlun manwl gywir i arweinwyr o gynnydd disgyblion. Mae angen iddynt adnabod yn gyflym y disgyblion sy'n tangyflawni a rhoi lefel briodol o her a chymorth iddynt.

Mae angen i arweinwyr sicrhau bod disgyblion sy'n sefyll arholiadau mathemateg yn gynnar yn barod i wneud hynny a'u bod wedi dilyn y rhaglen astudio lawn. Mae angen i uwch arweinwyr ac arweinwyr canol sicrhau lefelau uchel o atebolrwydd i staff a darparu cyfeiriad clir ar gyfer datblygu addysgu a dysgu o ansawdd uchel. Mae angen i arweinwyr ar bob lefel ddefnyddio prosesau hunanarfarnu rheolaidd a chadarn sy'n canolbwyntio ar ansawdd addysgu a safonau gwaith disgyblion. Mae angen i ddeilliannau disgyblion ar gyfer pob lefel gallu fod o'r pwys mwyaf. Mae angen i ganfyddiadau hunanarfarnu lywio cynllunio ar gyfer gwella, ac mae angen i'r pwyntiau datblygu ganolbwyntio ar y meysydd â'r angen mwyaf. Er enghraifft, os yw gweithgareddau hunanarfarnu, fel arsylwi gwersi a chraffu ar waith, yn awgrymu bod gan ddisgyblion fedrau gwan mewn gwaith rhif, yna mae angen i hyn fod yn flaenoriaeth mewn cynlluniau datblygu.

Mae angen rhagor o gyfleoedd i ddatblygu athrawon yn broffesiynol mewn mathemateg, p'un a yw hynny trwy raglen genedlaethol, wedi'i frocera trwy gonsortia rhanbarthol, neu wedi'i seilio ar glystyrau ysgolion cynradd ac uwchradd. Byddai angen i'r cyfryw gyfleoedd fod yn gysylltiedig â'r Rhaglen Gymorth Genedlaethol ar gyfer y rhaglen Llythrennedd a Rhifedd.

Mae cyflwyno cwrs TGAU newydd mewn rhifedd yn amserol. Gallai ei gynllun elwa o ddadansoddiad agos o wendidau Cymru fel y'i nodwyd o ran ein perfformiad yng nghynnwys mathemategol PISA a'r maes llafur mathemateg TGAU presennol.

Fodd bynnag, mae gennym enghreifftiau o arfer ragorol mewn addysgu a dysgu mathemateg mewn ysgolion yng Nghymru. Isod, ceir cyfrif o arfer enghreifftiol.

Mae **Ysgol Eirias, Conwy**, yn ysgol gyfun gymysg i ddisgyblion 11 i 18 oed sydd â 1,500 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae 13% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim ac mae gan 11% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig.

Mae'r paragraff isod yn disgrifio dosbarth haen uwch ym Mlwyddyn 11, sy'n cael problem mesur i'w datrys.

Mae'r athro yn dechrau'r wers â gweithgaredd cychwynnol effeithiol i brofi pa mor dda y mae disgyblion yn galw dimensiynau a fformiwlâu cylchoedd i gof ac yn eu gallu. Daw'r cwestiynau'n fwy soffistigedig ac maent yn cynnwys cysylltiadau â meysydd eraill, fel aildrefnu fformiwlâu. Mae'r brif dasg yn cyflwyno'r 'Cwestiwn Mawr' ar gyfrifo'r gost o adeiladu gardd wedi'i dirlunio sy'n cynnwys arcau, segmentau a sectorau, ond mae gwybodaeth allweddol ar goll.

Mae hyn yn herio'r disgyblion i feddwl a chydweithio â'i gilydd i ddatrys y problemau. Mae cliwiau ar gael i'r disgyblion os oes angen cymorth ychwanegol arnynt. Mae ychydig o'r disgyblion yn defnyddio'r cliwiau.

Fodd bynnag, mae llawer ohonynt yn dangos gwytnwch ac yn dyfalbarhau â'r dasg yn annibynnol. Mae'r gweithgaredd hwn yn arwain at drafodaeth dda wrth i'r disgyblion ystyried strategaethau gwahanol i ddatrys y broblem. Tua diwedd y wers, mae'r athro yn rhoi ateb gweithiedig i'r disgyblion ac yn gofyn iddynt gymharu eu dulliau â'r un a roddwyd. Mae'r athro yn herio'r disgyblion i wella'r ddau ddull. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd rhagorol yn y wers. Maent yn creu cysylltiadau rhwng gwahanol bynciau a dulliau mathemategol ac yn esbonio eu hateb dewisol yn hyderus ac â dealltwriaeth.









# Adran 2:
# Adroddiad sector
## Ysgolion cynradd

Yn Ionawr 2013, roedd 1,374 o ysgolion cynradd yng Nghymru. Mae hyn 38 o ysgolion yn llai nag yn Ionawr 2012. Roedd 264,186 o ddisgyblion yn yr ysgolion cynradd yn Ionawr 2013, sy'n gynnydd o'r 262,144 o ddisgyblion yn y flwyddyn flaenorol. Dyma'r drydedd flwyddyn yn olynol i nifer y disgyblion cynradd godi.

Eleni, fe wnaethom arolygu 208 o ysgolion cynradd.

# Gweithgarwch dilynol: ysgolion cynradd

Nodwyd bod arfer ragorol mewn 31 o ysgolion cynradd, sef cyfran debyg i'r llynedd a rhyw un o bob saith o'r ysgolion a arolygwyd. Mae gan yr ysgolion hyn arweinwyr sy'n rhannu nodau clir a disgwyliadau uchel gyda holl aelodau cymuned yr ysgol. Mae'r hunanarfarnu a'r cynllunio ar gyfer gwella yn canolbwyntio'n fanwl ar godi safonau ac ennyn diddordeb llawn disgyblion yn eu dysgu.

Mae angen ymweliad dilynol ar ryw 43% o ysgolion cynradd, naill ai gan yr awdurdod lleol neu gan Estyn. Gwelwyd cynnydd graddol er 2010 yn y gyfran o ysgolion yn cael eu monitro gan Estyn. Nid yw'r arweinwyr mewn mwyafrif o'r ysgolion hyn wedi datblygu systemau ddigon cadarn i nodi a mynd i'r afael â diffygion yn yr addysgu neu'r cwricwlwm. Yn aml, bydd yr ysgolion hyn yn ei chael hi'n anodd gwella safonau disgyblion am nad ydynt yn targedu'r meysydd cywir i'w gwella. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yr oedd angen eu monitro gan yr awdurdod lleol neu Estyn y llynedd wedi gwneud digon o gynnydd i'w tynnu o'r categori gweithgarwch dilynol. Nid yw ychydig o ysgolion wedi gwella digon ac mae Estyn wedi cynyddu lefel y monitro ar gyfer yr ysgolion hyn.


Mae angen rhoi mesurau arbennig ar waith, neu mae angen gwelliant sylweddol ar ryw 5% o ysgolion cynradd. Mae'r ffigur hwn wedi aros yn weddol gyson dros y tair blynedd diwethaf.

Mae'r holl ysgolion a gafodd eu rhoi yn y categori mesurau arbennig neu welliant sylweddol ddwy flynedd yn ôl wedi sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol erbyn hyn i gael eu tynnu o gategori gweithgarwch dilynol. Hefyd, mae pump o'r chwe ysgol a roddwyd yn y categori mesurau arbennig y llynedd wedi gwneud cynnydd da ac nid oes angen eu monitro ymhellach. Dim ond rhyw hanner o'r ysgolion hynny yn y categori gwelliant sylweddol sydd wedi gwneud digon o gynnydd. Bydd angen gweithgarwch dilynol ar y gweddill ohonynt o hyd.

Yn ystod ymweliadau monitro 2012-2013, nododd arolygwyr fod pedair o ysgolion a oedd wedi bod yn y categori monitro gan Estyn am flwyddyn, heb wella'n ddigonol a bod angen eu gwella'n sylweddol erbyn hyn. Y ffactorau cyffredin yn y cynnydd gwael a wnaed gan yr ysgolion hyn yw:

- maent yn ei chael hi'n anodd gwella tangyrhaeddiad bechgyn ac i godi safonau mewn darllen ac ysgrifennu;
- mae'r addysgu a'r asesu yn rhy anghyson, ac mae diffyg her i'r disgyblion mwy galluog;
- nid yw'r hunanarfarnu'n ddigon trylwyr ac nid yw'n canolbwyntio'n ddigon da ar safonau disgyblion; ac
- mae cyrff llywodraethol yn dibynnu gormod ar gyngor y pennaeth.

**Ffigur 2.1: Canrannau ysgolion cynradd mewn categorïau gweithgarwch dilynol**[6]




[6] Mae ychydig o ysgolion mewn dau gategori, er enghraifft, lle mae arfer ragorol gan ysgol ac mae angen ei monitro gan yr awdurdod lleol hefyd.

# Deilliannau: ysgolion cynradd

Mae safonau yn dda neu'n well mewn ychydig dros 70% o ysgolion cynradd. Mae'r ganran hon yn debyg i'r llynedd.

## Safonau rhagorol

Dim ond mewn ychydig iawn o ysgolion y mae safonau rhagorol. Yn yr ysgolion hyn, mae disgyblion yn hyderus ac yn disgwyl cyflawni'n uchel. Dysgant yn dda o'u camgymeriadau a chânt eu cynnwys wrth osod eu targedau dysgu eu hunain. Mae medrau datrys problemau da gan bron pob un o'r disgyblion hyn, ac maent yn cymhwyso'r rhain yn dda i sefyllfaoedd dysgu newydd. Yn yr ysgolion hyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau llythrennedd yn eithriadol o dda ar draws y cwricwlwm. Defnyddiant eirfa eang ac amrywiol, ac maent yn mwynhau arbrofi gydag iaith.

Eleni, yn hanner yr ysgolion y barnwyd bod safonau rhagorol ynddynt, mae gan dros chwarter o'u disgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim, a chyfran sylweddol o ddisgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Yn yr ysgolion hyn, mae'r dull systematig o addysgu llythrennedd, cymorth ychwanegol wedi'i dargedu, a'r disgwyliad y bydd pob un o'r disgyblion yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig o leiaf, yn cyfrannu at safonau rhagorol yn gyffredinol.


## Safonau da

Mae safonau da gan fwyafrif o ysgolion. Mae disgyblion yn gwneud cynnydd priodol ac yn cyflawni'n dda. Maent yn siarad yn hyderus ac yn gwrando'n dda ar bobl eraill. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen gan ddeall a mwynhau'r testun, a defnyddiant ystod o strategaethau i ganfod ystyr geiriau anghyfarwydd. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn frwdfrydig ac yn mynegi ac yn cyfiawnhau eu barnau ynglŷn â llyfrau. Mae llawer ohonynt yn brasddarllen testunau yn gyflym i gael trosolwg o'r cynnwys a dethol gwybodaeth berthnasol. Mae llawer o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn ysgrifennu testunau byr yn annibynnol ar yr athro mewn amrywiaeth o genres ac yn gywir o ran eu sillafu, atalnodi a gramadeg. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer ohonynt yn ysgrifennu darnau estynedig ac yn datblygu eu medrau ysgrifennu ar draws pob pwnc. Mae mwyafrif yn strwythuro'u hysgrifennu yn dda ac yn defnyddio geirfa llawn dychymyg.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'u medrau rhifedd yn briodol mewn gwersi mathemateg. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif sylweddol ohonynt yn cymhwyso'u medrau rhifedd, yn enwedig eu medrau rhif a'u hymresymu rhifiadol, ar lefel briodol ar draws pynciau. Er enghraifft, yn aml nid yw disgyblion yn gwybod pa weithrediad i'w ddefnyddio wrth geisio datrys problemau a fynegir mewn geiriau, neu mae eu harafwch o ran galw ffeithiau rhif allweddol i gof yn cyfyngu ar eu gallu i ddarganfod atebion. Mewn mwyafrif o ysgolion, mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) da gan ddisgyblion. Er hynny, nid yw lleiafrif sylweddol o ddisgyblion yn defnyddio medrau trin data neu fodelu yn ddigon da mewn gwersi TGCh neu mewn cyd-destun o fewn pynciau eraill.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae agwedd gadarnhaol gan y rhan fwyaf o ddisgyblion tuag at ddysgu Cymraeg fel ail iaith. Yng nghyfnod allweddol 2, mae mwyafrif o ddisgyblion yn defnyddio ystod addas o batrymau brawddegau syml yn eu gwaith llafar ac ysgrifenedig, ac yn darllen testunau Cymraeg ar lefel briodol. Mae ychydig o ddisgyblion yn siarad yn hyderus mewn gwersi Cymraeg, er nad yw llawer ohonynt yn defnyddio'r iaith y tu allan i wersi strwythuredig.

**Ffigur 2.2: Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**



## Safonau digonol

Mae safonau'n ddigonol yn ychydig dros chwarter o ysgolion. Ym mhob un o'r ysgolion bron y barnwyd bod angen eu monitro gan Estyn neu eu gwella'n sylweddol, mae medrau siarad a gwrando'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2. Ym mwyafrif yr ysgolion hyn, mae disgyblion yn gwneud cynnydd wrth ddatblygu'u medrau darllen yn y Cyfnod Sylfaen a thrwy gyfnod allweddol 2. Mewn lleiafrif o'r ysgolion hyn, mae disgyblion yn defnyddio'u medrau TGCh yn dda ar draws y pynciau.

Mewn tua hanner yr ysgolion hyn, nid yw disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud digon o gynnydd o ran datblygu'u hysgrifennu, ac nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn datblygu'u medrau meddwl yn ddigon da. Yn yr ysgolion hyn, nid yw disgyblion yn cael y cyfle i wneud penderfyniadau ynglŷn â'u dysgu, ac nid oes hyder ganddynt wrth wynebu heriau a phroblemau newydd. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, dim ond ychydig o ddisgyblion sy'n ysgrifennu darnau estynedig neu'n ysgrifennu ar draws pynciau'r cwricwlwm. Mewn ychydig o ysgolion, cychwyn araf y mae disgyblion yn ei wneud o ran datblygu'u darllen. Yn rhyw hanner yr ysgolion hyn, nid yw llawer o ddisgyblion yn datblygu'u rhifedd mewn gwersi mathemateg neu mewn pynciau eraill.

### Disgyblion yn chwarae rhan fawr yn eu darpariaeth eu hunain

Yn Ysgol Gynradd Waunarlwydd, mae menter i integreiddio 'hawliau plant' ar draws yr ysgol wedi rhoi ymdeimlad o berchenogaeth i'r disgyblion, a chyfrifoldeb dros y broses gyfan ar gyfer gwella'r ysgol.

I gael mwy o wybodaeth am hyn, cliciwch ar yr astudiaeth achos

## Lles

Mae lles ac ymddygiad disgyblion yn dda neu'n well yn y rhan fwyaf o ysgolion. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o ysgolion, yn enwedig y rhai â throsiant uchel o ran staff, mae ymddygiad gwael lleiafrif o ddisgyblion yn tarfu ar waith disgyblion eraill.

Mae cyfraddau presenoldeb[7] wedi aros gerllaw 93% er 2002-2003. Yn 2012-2013, mae gostyngiad bach mewn presenoldeb cyffredinol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae gan dros bedair rhan o bump o ysgolion sydd ag argymhelliad i wella presenoldeb disgyblion gyfran uwch o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim na chyfartaledd Cymru (20.7%). Mae bron i hanner yr ysgolion hyn yn y band uchaf o ran prydau ysgol am ddim (32% neu fwy). Fel yr adroddwyd mewn blynyddoedd blaenorol, mae cysylltiad rhwng cyfran y disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim, lefel yr absenoliaeth a deilliannau disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol. Fodd bynnag, eleni, mae traean o'r ysgolion y barnwyd bod safonau rhagorol ganddynt yn y grŵp uchaf o ran prydau ysgol am ddim. Mae'r ysgolion hyn yn gweithio'n agos â rhieni, trwy ddigwyddiadau arbennig a chyfathrebu effeithiol, i sicrhau eu bod yn deall yr angen am bresenoldeb da.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn llawn cymhelliant ac mae llawer ohonynt yn dechrau cymryd cyfrifoldeb am agweddau ar eu dysgu eu hunain, fel gweithio tuag at dargedau unigol ar gyfer gwella. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn trin ei gilydd â pharch ac yn dangos gofal a chonsyrn tuag at eraill. Maent hefyd yn gwybod am bwysigrwydd byw'n iach. Mae cyngor ysgol sefydledig gan y rhan fwyaf o ysgolion. Fodd bynnag, mewn llawer o ysgolion, nid oes digon o lais gan ddisgyblion o ran dylanwadu ar broses benderfynu'r ysgol ynglŷn â sut i wella darpariaeth.

[7] SDR 221/2013 Absenoldeb o Ysgolion Cynradd, 2012/13, Llywodraeth Cymru
http://wales.gov.uk/statistics-and-research/absenteeism-primary-schools/?skip=1&lang=cy

# Darpariaeth: ysgolion cynradd

Mae'r ddarpariaeth yn dda neu'n well mewn ychydig o dan bedair o bob pum ysgol. Mae'r gyfran hon yn is na'r llynedd ac yn adlewyrchu diffygion mewn addysgu. Yn unol â'r llynedd, nid oes digon o arweinwyr ysgolion yn mynd i'r afael ag addysgu digonol. Mae argymhelliad i wella agweddau ar yr addysgu neu'r asesu gan bron i hanner yr ysgolion, hyd yn oes y rhai lle barnwyd bod yr addysgu yn dda yn gyffredinol.

Yn yr ychydig iawn o ysgolion â darpariaeth ragorol, mae anghenion disgyblion unigol yn ganolog i gynlluniau ysgolion. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r cynllunio yn cynnig cyfleoedd creadigol i ddisgyblion ddysgu drwy chwarae tra'n datblygu eu hiaith, rhifedd a meddwl.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion da yn darparu cwricwlwm sy'n ennyn diddordeb ac yn ysgogi disgyblion. Yn gyffredinol, mae profiadau yng nghyfnod allweddol 2 yn adeiladu'n dda ar ddysgu yn y Cyfnod Sylfaen. Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion hyn yn datblygu darllen ac ysgrifennu'r disgyblion yn systematig mewn gwersi iaith. Maent yn cynllunio'n drefnus i ddatblygu medrau disgyblion ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn rhoi'r cyfle i ddisgyblion gymhwyso'u medrau yn aml, yn enwedig eu medrau ysgrifennu, rhifedd a TGCh, ar lefel ddigon uchel.

Mae dros chwarter o ysgolion yn darparu profiadau dysgu sydd yn ddigonol yn unig, neu'n waeth. Bydd llawer o ysgolion yn rhoi ystyriaeth i gyfnod datblygu grwpiau o ddisgyblion yn eu cynllunio, ond nid ydynt yn talu digon o sylw i anghenion disgyblion unigol. Mewn mwyafrif o'r ysgolion hyn, nid yw athrawon yn cynnig digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'u llythrennedd, rhifedd, TGCh a medrau meddwl ar draws y cwricwlwm.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae'r ddarpariaeth ar gyfer siarad a gwrando mewn Cymraeg ail iaith yn dda yn y Cyfnod Sylfaen. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r ddarpariaeth ar gyfer medrau Cymraeg disgyblion yn faes pwysig i'w wella mewn lleiafrif sylweddol o ysgolion. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddysgu am hanes a diwylliant Cymru, ac i ddysgu am addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang.


Eleni, dim ond dwy ysgol a gafodd farn ragorol ar gyfer addysgu ac asesu.

Mae darpariaeth dda gan ychydig o dan dri chwarter o ysgolion ar gyfer addysgu ac asesu. Mewn mwyafrif o'r ysgolion hyn, mae'r athrawon yn defnyddio gwybodaeth asesu'n effeithiol i lywio cynllunio dyddiol. Maent yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn addasu'u gwersi i fodloni anghenion pob disgybl. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn gofalu bod disgyblion yn gwybod beth sydd angen iddynt ei wneud i lwyddo, a defnyddiant dechneg holi effeithiol i wirio dealltwriaeth disgyblion. Maent yn cynnig cyfleoedd addas i ddisgyblion ddefnyddio'u medrau llythrennedd a'u medrau meddwl. Yn yr ysgolion hyn, mae athrawon yn defnyddio staff cymorth yn dda.

Mewn llawer o ysgolion lle mae'r addysg yn ddigonol yn unig, nid yw athrawon yn defnyddio gwybodaeth asesu yn ddigon da. Mae eu disgwyliadau yn rhy isel o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni, yn enwedig disgyblion mwy galluog, ac nid yw gweithgareddau'n bodloni anghenion disgyblion yn dda. Mewn ychydig o ysgolion, nid yw athrawon yn sicrhau diddordeb pob disgybl ac mae hyn yn arwain at darfu ar lefel isel.

Mewn lleiafrif sylweddol o ysgolion, nid yw sylwadau ysgrifenedig athrawon yn helpu disgyblion i ddeall sut i wella'u gwaith. Mewn ychydig o'r ysgolion, mae disgyblion yn ailadrodd camgymeriadau sylfaenol am fod gwaith marcio'r athrawon wedi methu â chywiro'r camgymeriadau hyn. Mae mwyafrif o ysgolion yn cynnwys disgyblion wrth asesu eu dysgu eu hunain a dysgu eu cyfoedion.

**Ffigur 2.3: Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**



Yn rhyw chwarter o ysgolion, nid yw'r gweithdrefnau ar gyfer asesiadau diwedd blwyddyn ac asesiadau ar ddiwedd cyfnod allweddol yn sicr. Mae hyn yn golygu nad yw deilliannau a lefelau disgyblion yn gywir.

Mae gweithdrefnau da o leiaf gan y rhan fwyaf o ysgolion i gefnogi lles a datblygiad emosiynol disgyblion. Yn gyffredinol, mae ysgolion yn hyrwyddo addysg ysbrydol, foesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda. Maent yn addysgu'r disgyblion am bwysigrwydd ffordd iach o fyw.

Yn yr ysgolion sy'n cynnig gofal, cymorth ac arweiniad rhagorol, mae hawliau disgyblion yn ganolog i fywyd bob dydd yr ysgol. Mae disgyblion yn dysgu sut i chwarae eu rhan wrth ddatrys unrhyw anghytundeb. Mae'r ysgolion hyn hefyd yn ymgynghori â disgyblion wrth wneud newidiadau i bolisïau pwysig, fel y polisi gwrth-fwlio.

Mae trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion sy'n bodloni'r gofynion gan bron pob ysgol. Mae llawer o ysgolion yn nodi anghenion dysgu ychwanegol disgyblion yn gynnar ac yn ymyrryd yn briodol. Yn yr ychydig iawn o ysgolion â barn ddigonol neu waeth ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad, mae diffyg cymorth i fynd i'r afael â gwendidau ym medrau llythrennedd a rhifedd sylfaenol disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, ac mae'r targedau mewn cynlluniau dysgu unigol yn rhy generig. Cynnydd gwael yw canlyniad hyn.

Mae ethos cadarnhaol gan bron pob ysgol sy'n dathlu cefndiroedd a diwylliannau gwahanol y disgyblion yn dda. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn gynhwysol ac mae llawer ohonynt yn helpu'u disgyblion i ddeall eu hawliau a'u cyfrifoldeb i ymddwyn yn briodol ac â pharch tuag at eraill. Mae hyn yn helpu disgyblion i ddatblygu agweddau goddefgar. Bydd pob ysgol bron yn sicrhau bod pob disgybl yn cael mynediad priodol i'r cwricwlwm ac i weithgareddau allgyrsiol.

Ceir amgylcheddau dysgu da neu well yn y rhan fwyaf o ysgolion. Mewn ychydig iawn o ysgolion, mae'r staff yn dylunio mannau dysgu llawn dychymyg, gan feddwl yn greadigol yn aml am sut i oresgyn cyfyngiadau o ran maint a chynhwysedd. Yn yr ysgolion hyn, trwy gynllunio gofalus, mae disgyblion yn cael defnyddio ystod eang o adnoddau sy'n eu helpu i ddod yn ddysgwyr annibynnol. Nid yw ychydig iawn o ysgolion yn gwneud defnydd digon da o'u hamgylchedd. Yn benodol, nid yw ymarferwyr (athrawon a staff cymorth) ym Mlwyddyn 1 a Blwyddyn 2 yn cynnig digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddysgu yn yr awyr agored.



### Bodloni anghenion disgyblion ag awtistiaeth

Mae Ysgol y Garnedd wedi cyflwyno strategaethau i ddarparu perthynas weithio well o lawer rhwng athrawon a grŵp o blant ag awtistiaeth, sy'n golygu bod y plant yn gallu integreiddio â disgyblion y brif ffrwd a bywyd ysgol yn gyffredinol.

I gael rhagor o wybodaeth am hyn, cliciwch ar yr astudiaeth achos

# Arweinyddiaeth a rheolaeth: ysgolion cynradd

Mae'r arweinyddiaeth yn dda neu'n well mewn ychydig dros dri chwarter o ysgolion. Mae hyn yn debyg i'r llynedd.

Yn yr ysgolion ag arweinyddiaeth ragorol, mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn rhannu'r un weledigaeth ac yn defnyddio dull cyson i wella gwaith yr ysgol. Mae arweinwyr yn canolbwyntio ar wella safonau ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o'r staff a disgyblion. Yn yr ysgolion hyn, mae systemau rheoli perfformiad cadarn ac mae arweinwyr yn mynd i'r afael yn gyflym â thanberfformiad. Maent yn mynd ati i ddadansoddi pob agwedd ar fywyd yr ysgol ac yn casglu tystiolaeth uniongyrchol o arsylwi ar wersi a chraffu ar waith disgyblion. Mae arweinwyr yn sicrhau bod staff yn defnyddio canlyniadau dadansoddi data a gweithgareddau hunanarfarnu i nodi anghenion dysgwyr unigol.


Mae safonau digonol ond arweinyddiaeth dda mewn ychydig o ysgolion. Yn y rhan fwyaf o'r ysgolion hyn, mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd am lai na dwy flynedd. Mae gan y penaethiaid hyn weledigaeth glir ar gyfer gwella'r ysgol, ac maent yn cyfleu'r weledigaeth hon yn dda. Maent yn sefydlu systemau hunanarfarnu sy'n canolbwyntio ar safonau ac addysgu, ac mae ganddynt ddealltwriaeth gywir o sefyllfa bresennol yr ysgol. Defnyddiant y deilliannau o hunanarfarnu yn dda i lywio cynlluniau gwella.

Mae safonau da ond arweinyddiaeth ddigonol gan ychydig iawn o ysgolion. Yn yr ysgolion hyn, mae safonau yn dda ond nid ydynt yn gwella. Fel yn y rhan fwyaf o ysgolion ag arweinyddiaeth ddigonol, mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac maent yn deall eu rolau. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn canolbwyntio'n ddigon da ar wella safonau ac nid oes digon o arfarnu cadarn o addysgu ac asesu. Yn rhy aml yn yr ysgolion hyn, nid yw arweinwyr yn mynd i'r afael yn ddigon cyflym ag addysgu cyffredin nac yn sicrhau bod yr asesu'n llywio cynlluniau athrawon. Mewn llawer o'r ysgolion hyn, nid yw llywodraethwyr yn herio arweinwyr digon.

Mewn ychydig o ysgolion, mae'r farn ar gyfer arweinyddiaeth yn dda ond digonol yw trefniadau'r ysgol ar gyfer gwella ansawdd. Ym mhob un o'r ysgolion hyn bron, mae gweledigaeth glir gan y pennaeth ac mae'n pennu'r cyfeiriad strategol yn briodol. Fodd bynnag, nid yw'r tîm arweinyddiaeth yn canolbwyntio'n ddigon da ar wella safonau. Mewn llawer o'r ysgolion hyn, mae corff llywodraethol cadarn yn cefnogi ac yn herio'r pennaeth. Mae mwyafrif o'r ysgolion hyn wedi dod trwy gyfnod ansefydlog yn ddiweddar, er enghraifft newidiadau helaeth i'r staffio neu uno ysgolion. Un diffyg cyffredin yn yr ysgolion hyn yw nad oes gan yr ysgol weithdrefnau sicrhau ansawdd effeithiol. Er bod llawer o'r ysgolion hyn yn ystyried ystod gadarn o dystiolaeth mewn gweithgareddau hunanarfarnu, nid ydynt yn defnyddio'r wybodaeth hon yn ddigon da i ganolbwyntio ar ychydig o feysydd allweddol. Mewn llawer o'r ysgolion hyn, nid yw'r cynllun datblygu ysgol yn cael ei fonitro digon.

Mae llawer o ysgolion yn gwneud defnydd da o ddata perfformiad ar lefel ysgolion. Mae arweinwyr yn dadansoddi data am dueddiadau mewn perfformiad ac i amlygu meysydd i'w gwella. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif sylweddol o arweinwyr ysgolion yn defnyddio data perfformiad neu ddeilliannau o asesiadau yn ddigon da i olrhain cynnydd disgyblion drwy'r flwyddyn neu i sicrhau bod athrawon yn defnyddio'r wybodaeth yn rheolaidd i gydweddu tasgau ag angen neu allu unigol.

**Ffigur 2.4: Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**



Mae llawer o ysgolion yn darparu hyfforddiant proffesiynol da i athrawon, ond dim ond tua hanner sy'n cynnwys staff cymorth yn ddigon da yn y gweithgareddau hyn. Yn gyffredinol, mae cysylltiadau rhwng y ffocws ar gyfer gweithgareddau datblygiad proffesiynol a blaenoriaethau a nodwyd yn adroddiad hunanarfarnu'r ysgol. Eleni, parhaodd lawer o ysgolion i ganolbwyntio ar lythrennedd, ond dim ond lleiafrif o ysgolion a ganolbwyntiodd ar godi safonau mewn rhifedd neu leihau effaith tlodi. Mae llawer o benaethiaid yn gofyn i staff arfarnu ansawdd gweithgareddau datblygiad proffesiynol. Fodd bynnag, nid oes digon o benaethiaid yn mynd ar drywydd gweithgareddau hyfforddi i sicrhau bod pob aelod o staff yn rhoi hyfforddiant ar waith yn gyson, ac nid oes digon ohonynt yn arfarnu effaith hyfforddiant staff ar safonau ac ansawdd.

Mae gan bron pob ysgol ystod briodol o bartneriaethau. Mewn ychydig iawn o ysgolion rhagorol, mae partneriaethau gyda rhieni, y gymuned a busnesau lleol yn ehangu profiadau dysgu disgyblion ac yn cyfrannu at wella safonau. Mae gan lawer o ysgolion gysylltiadau priodol ag ysgolion lleol eraill ac maent yn safoni gwaith disgyblion ar ddiwedd y cyfnod allweddol. Mae cysylltiadau â'r ysgol uwchradd yn helpu disgyblion i ymgyfarwyddo â'u hysgol newydd, ond yn gyffredinol nid yw cysylltiadau'n canolbwyntio'n ddigon da ar wella safonau disgyblion. Yn yr ychydig iawn o ysgolion lle ceir partneriaethau digonol yn unig, nid yw'r arweinwyr yn aml yn cyfathrebu'n dda gyda rhieni nac yn annog staff i gymryd rhan mewn gweithgareddau gydag ysgolion eraill.

Mae ychydig dros 70% o ysgolion yn cynnig gwerth da neu werth gwell am arian. Mae digon o staff â chymwysterau addas gan y rhan fwyaf o ysgolion, ac maent yn eu defnyddio'n briodol. Ceir trefniadau addas yn y rhan fwyaf o ysgolion i gyflenwi dros amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon. Mae llawer o gyrff llywodraethol yn monitro cyllideb yr ysgol yn dda, ac yn sicrhau bod cyflenwad da o adnoddau gan y disgyblion. Fodd bynnag, dim ond lleiafrif o benaethiaid a chyrff llywodraethol sy'n mynd ati'n drwyadl i adolygu pa mor effeithiol ac effeithlon y mae arian a wariwyd wedi cyfrannu at godi safonau disgyblion a gwella ansawdd yr addysgu a'r asesu.





## Rhannu dysgu trwy'r cyfryngau cymdeithasol

Mae Ysgol Feithrin Cogan wedi defnyddio technoleg i rannu dysgu'r plant gyda'u rhieni/gofalwyr i wella medrau TGCh, llefaredd a darllen y plant.

I gael rhagor o wybodaeth am hyn, cliciwch ar yr astudiaeth achos





# Adran 2: Adroddiad sector
## Ysgolion uwchradd

Yn Ionawr 2013, roedd 216 o ysgolion uwchradd yng Nghymru, sef pump yn llai nag Ionawr 2012. Mae nifer y disgyblion mewn ysgolion uwchradd wedi bod yn gostwng bob blwyddyn er 2004. Yn Ionawr 2013, y nifer oedd 191,279, sef gostyngiad o 6,736 o Ionawr 2012. Eleni, fe wnaethom arolygu 40 o ysgolion uwchradd.

# Gweithgarwch dilynol: ysgolion uwchradd

Eleni, nodwyd bod arfer sy'n arwain y sector mewn 10 o ysgolion, sef cyfran debyg i'r ddwy flynedd diwethaf.

Y llynedd, roedd angen monitro gan yr awdurdod lleol ar dair ysgol, ac roedd angen monitro gan Estyn ar 16 o ysgolion. Mae llawer o'r ysgolion hyn wedi gwneud cynnydd cadarn o ran mynd i'r afael â'u hargymhellion, yn bennaf drwy wella cysondeb yr addysgu neu lefel y safonau yng nghyfnod allweddol 3 neu gyfnod allweddol 4.


Eleni, fe wnaeth nifer yr ysgolion y mae angen eu monitro gan yr awdurdod lleol godi o dair i bump, ond fe wnaeth nifer yr ysgolion y mae angen eu monitro gan Estyn ostwng o 16 i 11.

Mae gan lawer o'r ysgolion y mae angen eu monitro gan Estyn berfformiad gwael mewn Saesneg, Cymraeg neu fathemateg. Hefyd, ceir hunanarfarnu arwynebol a chynllunio amhenodol ar gyfer gwella mewn llawer o'r ysgolion hyn. Nid yw lleiafrif o arweinwyr canol yn yr ysgolion hyn yn cyflawni'u rolau yn ddigon da.

Eleni, fe wnaeth nifer yr ysgolion uwchradd y mae angen eu gwella'n sylweddol godi o bump i chwech. Er bod rhai cryfderau yn yr ysgolion hyn, mae eu perfformiad yn wan yng nghyfnod allweddol 4, ac mae presenoldeb gwael mewn llawer ohonynt o gymharu â phresenoldeb ysgolion tebyg. Nid yw disgyblion yn cyflawni'n ddigon da mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf, ac mae gormod o anghysondeb yn y gwaith i wella medrau llythrennedd disgyblion.

Eleni, roedd cynnydd sylweddol o un i chwech yn nifer yr ysgolion a roddwyd yn y categori mesurau arbennig. Mae perfformiad gwan yn yr ysgolion hyn o gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg, ac nid ydynt yn dangos fawr o welliant dros gyfnod. Mae ymddygiad a phresenoldeb disgyblion yn wael yn aml, ac mae problemau gyda bwlio ac anfodlonrwydd ymhlith disgyblion a staff. Y ffactor allweddol yn yr ysgolion hyn yw arweinyddiaeth wan, gan gynnwys amharodrwydd i ddwyn staff i gyfrif am safonau ac addysgu gwael.

**Ffigur 2.5: Canrannau ysgolion uwchradd mewn categorïau gweithgarwch dilynol[8]**




[8] Mae ychydig o ysgolion mewn dau gategori, er enghraifft lle mae arfer ragorol gan ysgol ac mae angen ei monitro gan yr awdurdod lleol hefyd.

# Deilliannau: ysgolion uwchradd

Mae safonau yn dda neu'n well mewn ychydig o dan hanner yr ysgolion uwchradd a arolygwyd, ac yn rhagorol mewn rhyw un o bob saith ysgol. Mae'r rhain yn gyfrannau tebyg i'r cyfrannau a adroddwyd gennym y llynedd. Fodd bynnag, mae safonau'n anfoddhaol mewn rhyw chwarter o ysgolion, ac mae hyn yn gynnydd amlwg ar y llynedd.

## Safonau rhagorol

Mewn ysgolion lle ceir safonau rhagorol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da iawn o ran datblygu'u gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau darllen ac ysgrifennu ar lefel uwch. Mae disgyblion yn ddarllenwyr hyderus a galluog; mae gan y rhan fwyaf ohonynt eirfa eang ac maent yn ysgrifennu'n dda ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd gwahanol ac at ddibenion gwahanol. Yn gyffredinol, mae disgyblion ar draws yr ystod gallu yn gwneud cynnydd da o ran casglu a dehongli data, a gwneud cyfrifiadau cywir a gwybodus. Mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso'r medrau hyn yn briodol mewn ystod o bynciau. Fodd bynnag, hyd yn oed yn yr ysgolion hyn, nid yw medrau rhifedd y disgyblion wedi'u datblygu mor dda â'u medrau llythrennedd.

Yn yr ysgolion hyn, mae perfformiad cyson a chadarn iawn mewn arholiadau allanol hefyd o gymharu â pherfformiad mewn ysgolion tebyg. Ychydig iawn o wahaniaeth sydd ym mherfformiad cymharol grwpiau o ddisgyblion, fel bechgyn a merched. Mae'r disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn cyflawni'n dda ac mae eu perfformiad yn cymharu'n arbennig o dda â pherfformiad disgyblion difreintiedig mewn ysgolion eraill. Mae safonau mewn Cymraeg ail iaith yn dda neu'n well yn gyffredinol.


## Safonau da

Mewn ysgolion lle mae safonau yn dda, mae perfformiad mewn arholiadau cyfnod allweddol 4 yn dangos tuedd o wella ac yn cymharu'n dda â pherfformiad mewn ysgolion tebyg. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o gyfnodau allweddol blaenorol ac mewn gwersi. Mae llawer ohonynt yn datblygu ystod eang o fedrau llythrennedd, ac yn gyffredinol maent yn ddarllenwyr hyderus. Ysgrifennant ar gyfer ystod o ddibenion ac maent yn deall sut y dylent gyflwyno gwybodaeth a dadleuon. Yn yr ysgolion hyn, mae disgyblion yn datblygu'u medrau rhifedd yn dda er nad ydynt yn ymarfer nac yn datblygu'u medrau rhifedd lefel uwch yn ddigon rheolaidd ar draws ystod o bynciau. Mae safonau ar gyfer disgyblion sy'n dilyn cwrs TGAU mewn Cymraeg ail iaith yn dda yn yr ysgolion hyn fel arfer.

## Safonau digonol

Yn y traean o ysgolion lle dim ond digonol yw'r safonau, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn mewn gwersi, er bod gwendidau mewn Saesneg, Cymraeg iaith gyntaf neu fathemateg yn aml. Adlewyrchir y gwendidau hyn mewn perfformiad mewn arholiadau sy'n dangos rhywfaint o welliant, ond mae islaw'r cyfartaledd o gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg. Mae mwyafrif y disgyblion yn ysgrifennu at ystod o ddibenion, mae ganddynt eirfa bynciol briodol a gweithiant yn effeithlon mewn grwpiau neu barau. Fodd bynnag, mae camgymeriadau sillafu, atalnodi a gramadeg gan leiafrif o ddisgyblion yn eu gwaith ysgrifenedig. Mewn ysgolion lle mae safonau'n ddigonol yn unig, ceir gwendidau cyffredin mewn Cymraeg fel ail iaith, lle mae nifer oedd isel yn dilyn cymwysterau addas yng nghyfnod allweddol 4.

**Ffigur 2.6: Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**



## Safonau anfoddhaol

Yn y chwarter o ysgolion lle mae safonau'n anfoddhaol, nid yw mwyafrif y disgyblion yn gwneud digon o gynnydd, ac mae perfformiad mewn arholiadau allanol yng nghyfnod allweddol 4 ymhell islaw'r cyfartaledd yn gyffredinol o gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg. Mae ansawdd gwaith ysgrifenedig disgyblion yn anghyson ar draws y cwricwlwm ac nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd mewn darllen ac ysgrifennu. Mae gwaith ysgrifenedig yn cynnwys camgymeriadau sillafu neu atalnodi mynych, ac mae'n anghyflawn yn aml. Er bod disgyblion yn barod i gyfrannu at drafodaethau yn y dosbarth, nid yw'r hyder gan fwyafrif ohonynt wrth siarad, mae eu hatebion yn rhy fyr, ac mae eu geirfa bynciol yn gyfyngedig. Mewn llawer o'r ysgolion hyn, mae safonau yn isel mewn Cymraeg ail iaith ac ychydig o gynnydd y mae disgyblion yn ei wneud yn siarad Cymraeg.

## Lles

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, a dywedant yr eir i'r afael yn briodol â digwyddiadau o fwlio. Mae llawer o ddisgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd ffordd iach o fwy ac mae'r mwyafrif ohonynt yn cyfranogi'n rheolaidd mewn ystod o weithgareddau chwaraeon a chorfforol.

Mae ymddygiad yn dda mewn llawer o ysgolion; mae disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu ac maent yn gwrtais ac yn barchus tuag at eraill. Mewn ychydig o ysgolion lle mae lles yn rhagorol, mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos ymddygiad da iawn, lefelau uchel o gymhelliant a pherthnasoedd pwrpasol. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o ysgolion, nid yw ychydig o ddisgyblion yn canolbwyntio'n dda ar gwblhau tasgau a osodwyd a dangosant ddiffyg parch at eraill. Yn yr ychydig iawn o ysgolion lle mae lles yn anfoddhaol, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn teimlo yr eir i'r afael yn effeithiol â bwlio, mae ymddygiad yn wael ac mae lleiafrif sylweddol o ddisgyblion yn dangos agweddau negyddol tuag at eu dysgu.

Yn y mwyafrif o ysgolion, mae presenoldeb yn cymharu'n dda â phresenoldeb ysgolion tebyg neu mae'n debyg iddo. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o ysgolion lle bernir mai digonol yw lles, y rheswm am hynny'n bennaf yw bod presenoldeb yn cymharu'n wael â phresenoldeb ysgolion tebyg ac nid yw'n dangos llawer o welliant dros y blynyddoedd diwethaf.

Yn y mwyafrif o ysgolion, mae disgyblion yn cyfrannu'n briodol at wneud penderfyniadau ynglŷn â bywyd yr ysgol. Mewn ychydig o ysgolion lle mae lles yn rhagorol, mae disgyblion yn helpu datblygu polisïau ysgol allweddol, fel polisïau gwrth-fwlio a pholisïau addysgu a dysgu. Fodd bynnag, ychydig o effaith gaiff barnau disgyblion mewn ychydig o ysgolion. Hyd yn oed os oes cyngor ysgol, nid yw'r cyfathrebu rhwng y grŵp hwn o ddisgyblion a disgyblion eraill wedi'i ddatblygu digon ac mae'n aneffeithiol. Yn aml, nid yw aelodau cyngor yr ysgol yn rhoi adborth i weddill y disgyblion bob amser.



### Targedau uchelgeisiol yn gwella perfformiad disgyblion

Mae Ysgol Gymunedol Cwmtawe wedi gwella ei system olrhain er mwyn gosod targedau heriol ar gyfer pob disgybl ac i godi safonau.

I gael rhagor o wybodaeth am hyn, cliciwch ar yr astudiaeth achos

# Darpariaeth: ysgolion uwchradd

Mae pob un o'r ysgolion a arolygwyd yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer y cwricwlwm. Yn yr ychydig o ysgolion lle mae profiadau dysgu'n rhagorol, ceir darpariaeth effeithiol iawn ar gyfer disgyblion mwy galluog a dawnus, trefniadau da iawn ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion, ac ystod eang eithriadol o weithgareddau allgyrsiol.

Mae strategaethau a darpariaeth effeithiol gan lawer o ysgolion i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion, gan gynnwys cymorth defnyddiol i ddisgyblion sydd â lefelau llythrennedd neu rifedd is.

Mae pob ysgol Gymraeg neu ddwyieithog a mwyafrif o ysgolion cyfrwng Saesneg yn hyrwyddo'r dimensiwn Cymreig yn dda. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion Cymraeg neu ddwyieithog yn cynllunio i ddatblygu gallu disgyblion i siarad ac ysgrifennu yn Gymraeg yn dda. Mewn mwyafrif o ysgolion cyfrwng Saesneg, fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ymarfer eu Cymraeg y tu allan i wersi Cymraeg. Mae'r ddarpariaeth o ran addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang wedi'i datblygu'n dda mewn mwyafrif o ysgolion.

Mewn rhyw draean o ysgolion, nid yw strategaethau i wella medrau llythrennedd a rhifedd wedi cael effaith ar safonau gwaith disgyblion ac nid yw datblygiad y medrau hyn yn cael ei gydlynu a'i fonitro'n effeithiol ar draws yr holl bynciau. Mewn ychydig iawn o ysgolion, mae darpariaeth aneffeithiol ar gyfer y disgyblion sy'n cael yr anawsterau mwyaf yn darllen ac ysgrifennu. Cyfyngedig yw'r ddarpariaeth ar gyfer Cymraeg ail iaith mewn ychydig o ysgolion, ac nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn dilyn cymhwyster cyfnod allweddol 4.


Yn yr ychydig iawn o ysgolion lle mae addysgu rhagorol, mae disgwyliadau uchel o'r holl ddisgyblion gan yr athrawon. Maent yn gosod tasgau llawn dychymyg ac yn cynllunio gwersi ysgogol sy'n cynnwys gweithgareddau fwyfwy heriol. Mae athrawon yn addasu rhediad a her y gwaith yn fedrus ac yn caniatáu digon o amser i ddisgyblion feddwl a myfyrio ar eu dysgu. Mae athrawon yn defnyddio cwestiynau heriol sy'n procio'r meddwl i wirio dealltwriaeth a chynnydd disgyblion.

Mewn rhyw chwarter o ysgolion lle mae addysgu da, ceir disgwyliadau uchel addas o'r disgyblion. Mae gwersi'n strwythuredig a bywiog, gyda thasgau wedi'u hamseru yn aml. Mae athrawon yn holi disgyblion gan ddefnyddio cwestiynau penagored sy'n holi'n fanwl ac yn dwysau dealltwriaeth tra'n ehangu'u meddwl.

Mae meysydd pwysig i'w gwella yn yr addysgu mewn bron i dair o bob pum ysgol, gan gynnwys addysgu anfoddhaol ym mron un o bob pum ysgol. Yn yr ysgolion hyn, nid yw techneg holi yn datblygu meddwl disgyblion yn ddigonol, ac mae hyn yn aml yn ganlyniad athrawon yn gwneud cyflwyniadau rhy hir. Mae athrawon yn gosod tasgau nad ydynt yn herio disgyblion digon, ac yn rhy aml mae rhediad y dysgu'n araf. Mewn ychydig o wersi, mae gorddefnydd o daflenni gwaith strwythuredig yn cyfyngu ar ddisgyblion yn meddwl drostynt eu hunain, ac mae rheolaeth aneffeithiol ar ymddygiad disgyblion yn arwain at darfu mynych ar ddysgu disgyblion.

Mae arferion asesu yn hyrwyddo dysgu'n effeithiol mewn ychydig o dan hanner yr ysgolion. Yma, mae athrawon yn rhoi adborth defnyddiol, penodol i bwnc am eu cryfderau a'u gwendidau. Mae athrawon yn yr ysgolion hyn yn aml yn gwneud sylwadau ar lythrennedd disgyblion yn unol â pholisi'r ysgol gyfan. Fodd bynnag, mae'r asesu yn wendid yn yr ysgolion sy'n weddill lle mae ansawdd y marcio'n amrywio o athro i athro ac o bwnc i bwnc. Yn yr ysgolion hyn, mae sylwadau athrawon yn rhy hael yn aml, ac nid ydynt yn rhoi syniad clir i ddisgyblion o sut gallant wella eu gwaith.

**Ffigur 2.7: Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**



Mae systemau defnyddiol gan y rhan fwyaf o ysgolion ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion, ac mae llawer ohonynt yn cynorthwyo disgyblion sy'n tangyflawni. Darparant adroddiadau clir, llawn gwybodaeth i rieni.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad yn gadarn mewn llawer o ysgolion, ac mae'n rhagorol mewn rhyw un o bob chwech ohonynt. Yn yr ysgolion lle mae'r gofal, cymorth ac arweiniad yn rhagorol, mae arweinwyr bugeiliol yn defnyddio gwybodaeth sydd ar gael, yn cynnwys data perfformiad, i nodi problemau'n gyflym ac i drefnu cymorth amserol. Mae'r systemau ar gyfer cynorthwyo ac arwain disgyblion wedi'u cydlynu'n dda a chânt effaith sylweddol ar wella presenoldeb, ymddygiad a chyrhaeddiad.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn datblygu ymwybyddiaeth ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion yn dda, ac mae ganddynt bolisïau priodol ar wrth-fwlio ac ymddygiad.

Ym mhob un o'r ysgolion, mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gynhwysfawr ac yn cyfateb yn dda i anghenion unigol. Caiff cynlluniau addysg unigol defnyddiol eu hadolygu'n rheolaidd ac mae athrawon yn sicrhau bod ystod eang o gymorth sydd wedi'i dargedu'n dda.

Mewn ychydig o ysgolion, nid yw'r trefniadau ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion. Y rheswm am hyn fel arfer yw bod yr ysgol ym methu delio'n ddigon da â bwlio.

Mae llawer o ysgolion yn darparu amgylchedd dysgu da neu dda iawn, gan gynnwys ethos cadarnhaol ac ymdeimlad cryf o gymuned. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae'r adeiladau yn darparu amgylchedd dysgu ysgogol a deniadol. Mewn ychydig o ysgolion, fodd bynnag, mae cyflwr toiledau disgyblion o safon isel annerbyniol ac mae rhai ardaloedd o'r adeiladau mewn cyflwr gwael.



### Strategaethau i leihau rhwystrau rhag cynnydd ac i sicrhau cymorth i bob disgybl

Mae Ysgol Maesteg ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn darparu ystod helaeth o strategaethau ymyrryd sydd wedi cynyddu hunan-barch a dyheadau disgyblion, ac yn ei dro wedi gwella presenoldeb a chyrhaeddiad disgyblion.

I gael rhagor o wybodaeth am hyn, cliciwch ar yr <u>astudiaeth achos</u>

# Arweinyddiaeth a rheolaeth: ysgolion uwchradd

Yn yr ychydig o ysgolion sydd ag arweinyddiaeth ragorol, mae cyfeiriad strategol a gweledigaeth gadarn sy'n cael eu cyfleu'n dda. Mae blaenoriaethau'n seiliedig ar ddadansoddiad cynhwysfawr a manwl o ddata perfformiad a thystiolaeth sylweddol o wersi a llyfrau disgyblion. Yn yr ysgolion hyn, mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn cynnig her gadarn a chymorth wedi'i dargedu'n dda o fewn eu meysydd cyfrifoldeb.

Mewn mwyafrif o ysgolion, mae uwch arweinwyr yn darparu cyfeiriad clir ar gyfer datblygu'r ysgol ac yn hyrwyddo diwylliant o ddisgwyliadau uchel ymhlith staff, disgyblion a rhieni yn llwyddiannus. Mae rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir ac yn canolbwyntio ar wella safonau ac ansawdd yr addysgu. Mae uwch reolwyr a rheolwyr canol yn defnyddio data'n dda i fonitro perfformiad a gosod targedau heriol ar gyfer gwella.


Mae cyfran yr ysgolion lle mae'r arweinyddiaeth yn anfoddhaol wedi cynyddu eleni. Yn rhyw hanner yr ysgolion y barnwyd nad ydynt ddim gwell na digonol, nid yw uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn rheoli'u cyfrifoldebau yn ddigon da. Mae llinellau atebolrwydd yn aneglur, mae diffyg trylwyredd yn y trefniadau rheoli llinell, ac mae uwch arweinwyr yn anghyson o ran monitro a dwyn rheolwyr i gyfrif. Nid yw uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn defnyddio data'n ddigon da i herio tanberfformiad ac nid ydynt yn rhoi ffocws ddigon cadarn ar wella'r addysgu. Mewn lleiafrif o'r ysgolion hyn, mae pennaeth newydd wedi dechrau mynd i'r afael â diffygion yn yr arweinyddiaeth a'r ddarpariaeth, ond gwelliannau diweddar yw'r rhain ac nid ydynt wedi codi safonau eto na sicrhau addysgu gwell.

Mewn llawer o ysgolion, mae llywodraethwyr yn wybodus ac yn gefnogol, a dangosant ddealltwriaeth gadarn o gryfderau a meysydd i'w gwella. Mewn ychydig o ysgolion, nid yw llywodraethwyr yn dadansoddi nac yn deall data perfformiad yn ddigon da i herio'r ysgol o ran safonau.

Mewn dros ddwy o bob pum ysgol, mae trefniadau cadarn a sefydledig ar gyfer gwella ansawdd. Mae'r ysgolion hyn yn defnyddio tystiolaeth uniongyrchol, gan gynnwys arsylwadau o wersi a chraffu ar waith disgyblion, sy'n canolbwyntio'n glir ar safonau a medrau disgyblion. Yn yr ychydig iawn o ysgolion lle mae gwella ansawdd yn rhagorol, mae cynlluniau hunanarfarnu a gwella adrannau a'r ysgol gyfan yn drwyadl, yn gywir ac yn gynhwysfawr yn gyson. Mae cynlluniau datblygu ysgol yn cynnwys targedau heriol ac yn nodi deilliannau bwriadedig yn glir.

Ym mron hanner yr ysgolion lle nad oedd gwella ansawdd yn well na digonol, nid yw adroddiadau hunanarfarnu'n nodi meysydd i'w gwella yn ddigon clir, ac nid ydynt yn defnyddio tystiolaeth o arsylwadau o wersi, arolygon disgyblion a chraffu ar lyfrau i lywio cynllunio gwelliannau. Mewn lleiafrif o ysgolion, mae barnau ar safonau ac addysgu yn rhy hael ac nid yw arweinwyr yn astudio data perfformiad ysgolion tebyg. Mewn lleiafrif o ysgolion, mae diffyg ffocws manwl mewn cynlluniau gwella ar wella addysgu a safonau, nid yw camau gweithredu'n ddigon manwl ac mae gormod o dargedau. Nid yw lleiafrif o ysgolion wedi gwneud digon o gynnydd ar wella argymhellion o'u harolygiad blaenorol.

**Ffigur 2.8: Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**



Mae llawer o ysgolion yn datblygu partneriaethau pwrpasol i ehangu profiadau disgyblion ac i wella'u lles. Mae llawer o ysgolion yn cydweithio gydag ysgolion lleol a cholegau i ehangu ystod y cyrsiau i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth. Drwy weithio'n agos ag ysgolion cynradd, mae rhaglenni sefydledig gan lawer o ysgolion uwchradd i sicrhau bod disgyblion yn trosglwyddo'n hwylus yn eu dysgu a'u lles. Eleni, barnwyd mai digonol oedd gweithio mewn partneriaeth yn chwarter yr ysgolion. Nid yw'r rhan fwyaf o'r ysgolion hyn yn sicrhau bod partneriaethau'n cael effaith ar ddeilliannau disgyblion.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae'r staff yn meddu ar gymwysterau a phrofiad da ac mae llawer o ysgolion yn eu defnyddio'n effeithiol i fanteisio i'r eithaf ar eu medrau a'u harbenigedd. Mewn llawer o ysgolion, ymdrinnir â materion ariannol yn ofalus ac yn drwyadl, ac mae cysylltiad agos rhwng penderfyniadau gwario â blaenoriaethau ysgol gyfan dynodedig. Mewn chwarter o ysgolion, mae penaethiaid, rheolwyr busnes a llywodraethwyr yn gwneud cynnydd da iawn o ran lleihau diffygion yn y gyllideb. Fodd bynnag, mae diffyg sylweddol yn eu cyllideb gan un o bob deg ysgol. Nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer y chweched dosbarth yn gost-effeithiol mewn ychydig iawn o ysgolion lle mae mwyafrif y dosbarthiadau yn cynnwys niferoedd bach o ddisgyblion.





## Tyfu arweinwyr trwy ddatblygiad a hyfforddiant i arweinwyr canol

Mae Ysgol Uwchradd Gatholig Joseff Sant wedi datblygu strategaethau i wella arweinwyr canol. O ganlyniad, mae'r holl arweinwyr canol yn gwneud cyfraniad rhagorol at lwyddiant yr ysgol.

I gael rhagor o wybodaeth am hyn, cliciwch ar yr astudiaeth achos





# Adran 2: Adroddiad sector
## Ysgolion arbennig a gynhelir

Yn Ionawr 2013, roedd 42 o ysgolion arbennig a gynhelir yng Nghymru. Mae hyn un yn llai nag yn Ionawr 2012. Roedd 4,321 o ddisgyblion mewn ysgolion arbennig yn Ionawr 2013, sy'n gynnydd o'r 4,254 o ddisgyblion yn y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn adlewyrchu tuedd barhaus o niferoedd disgyblion yn cynyddu mewn ysgolion arbennig.

Eleni, fe wnaethom arolygu wyth o ysgolion arbennig.

# Gweithgarwch dilynol: ysgolion arbennig a gynhelir


Cynhyrchwyd astudiaethau achos o arfer ragorol ar gyfer ein gwefan gan dair o ysgolion, yn seiliedig ar eu harfer sy'n arwain y sector. Mae cydweithio cadarn â phartneriaid yn nodwedd gyffredin o'r astudiaethau hyn. Mae hyn yn golygu bod disgyblion yn mynychu dosbarthiadau mewn ysgolion y brif ffrwd, yn cyflawni hyfforddiant achrededig ac yn cymryd rhan mewn clybiau ar ôl ysgol i ddisgyblion o bob rhan o'r gymuned. Mae astudiaeth achos arall yn tynnu sylw at ddefnydd arloesol o dechnoleg i gynorthwyo cyfathrebu'r disgyblion.

Nodwyd un ysgol fel un yr oedd angen ei monitro gan Estyn.





**Figure 2.9: Niferoedd yr ysgolion arbennig a gynhelir mewn categorïau gweithgarwch dilynol**



# Deilliannau: ysgolion arbennig a gynhelir

## Safonau

Mae safonau'n dda mewn saith o'r wyth o ysgolion a arolygwyd. Mewn un ysgol, mae safonau'n rhagorol.

Ym mhob un o'r ysgolion, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da o ran bodloni'u targedau dysgu unigol. O ran eu hanghenion dynodedig, mae disgyblion yn datblygu'u medrau llythrennedd a rhifedd yn dda. Gwnânt gynnydd arbennig o dda o ran datblygu'u medrau cyfathrebu, gan gynnwys cyfathrebu dieiriau, a defnyddio arwyddo, technoleg neu symbolau i gefnogi'u rhyngweithiadau. Defnyddiant eu medrau'n effeithiol mewn sefyllfaoedd ymarferol i ddatblygu'u dysgu annibynnol, er enghraifft wrth siopa neu ddarllen cyfarwyddiadau a rhybuddion diogelwch.

## Lles

Mae lles disgyblion yn rhagorol mewn un ysgol ac yn dda mewn saith ysgol. Yn yr ysgol lle mae lles yn rhagorol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd arbennig o gadarnhaol o ran rheoleiddio'u hemosiynau a rheoli'u hymddygiad. Yn yr ysgol hon, mae cymorth wedi'i gynllunio'n ofalus iawn a help amserol gan y staff yn sicrhau bod bron pob disgybl yn ymddwyn yn dda yn yr ystafell ddosbarth a thu hwnt. Ym mhob un o'r ysgolion, mae bron yr holl ddisgyblion yn foesgar ac yn sylwgar, a dangosant barch at ei gilydd a'r staff. Mae eu brwdfrydedd a'u cymhelliant i ddysgu yn nodwedd gyffredin.

Mae bron pob un o'r disgyblion hŷn yn ennill cymwysterau sy'n briodol i'w galluoedd. Mewn pump o'r ysgolion, fe wnaeth pob un o'r disgyblion a adawodd yr ysgol symud i addysg bellach, cyflogaeth neu hyfforddiant.

Mae llawer o ddisgyblion yn elwa ar gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau eraill sy'n cefnogi ffordd iach o fyw. Mae bron pob un o'r disgyblion yn mynychu'n dda.

### TGCh yn creu profiadau dysgu newydd i ddisgyblion ag AAA

Mae Ysgol a Chanolfan Adnoddau Trinity Fields wedi ymchwilio i'r defnydd o lechi defnydd o lechi electonig fel offer addysgu ac wedi defnyddio technoleg wedi'i seilio ar ystumiau i gynyddu lefelau gallu disgyblion i fanteisio ar y cwricwlwm, ac mae hyn wedi cynyddu medrau archwilio disgyblion, gwella'r gallu i wneud penderfyniadau yn annibynnol, gwella medrau cyfathrebu ac ymestyn ystod rhyngweithiadau disgyblion.

I gael rhagor o wybodaeth am hyn, cliciwch ar yr <u>astudiaeth achos</u>

**Ffigur 2.10: Niferoedd yr ysgolion a barnau ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**



# Darpariaeth: ysgolion arbennig a gynhelir

Mae'r ddarpariaeth yn dda mewn saith o ysgolion, ac yn rhagorol mewn un ysgol.

Mae pob un o'r ysgolion yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys gyda phrofiadau ymarferol ysgogol wedi'u teilwra yn ôl anghenion unigol disgyblion. Yn yr ysgol sy'n cynnig darpariaeth ragorol, mae bron pob un o'r disgyblion yn ehangu'u dysgu a'u hyder trwy ymuno ag ysgolion y brif ffrwd neu leoliadau eraill ar gyfer sesiynau sy'n cyfateb i'w diddordebau, eu galluoedd a'u medrau. Fodd bynnag, nid yw ychydig o ysgolion yn cynnig y cyfleoedd gwerthfawr hyn i ddigon o ddisgyblion.

Mae rhaglenni addysg bersonol a chymdeithasol wedi'u cynllunio'n dda yn cyfrannu'n sylweddol at wella medrau emosiynol, cymdeithasol a medrau bywyd disgyblion. Mae'r rhaglenni hyn, gan gynnwys addysgu disgyblion ynghylch sut i gadw eu hunain yn ddiogel, yn flaenoriaeth uchel ym mhob un o'r ysgolion.

Mae defnyddio technoleg newydd yn cynyddu'r gallu i ymgysylltu a chyfathrebu â disgyblion ag anghenion cymhleth mewn llawer o ysgolion. Mewn un ysgol, mae'r defnydd arloesol a wneir o'r technolegau hyn yn arwain y sector, ac mae wedi cael effaith arwyddocaol ar ddeiliannau disgyblion, ac wedi gwella'u gallu i fanteisio ar y cwricwlwm a'u hansawdd bywyd yn gyffredinol.

Mae'r addysgu yn dda mewn saith o ysgolion ac yn rhagorol mewn un ysgol. Yn yr ysgolion hyn, mae'r athrawon a'r staff cymorth yn adnabod y disgyblion yn dda iawn ac yn disgwyl iddynt wneud eu gorau. Yn yr ysgol lle mae'r addysgu yn rhagorol, ceir trefniadau trwyadl ar gyfer asesu, cofnodi, olrhain ac arfarnu cyflawniadau disgyblion. Fodd bynnag, mewn tair ysgol, mae angen datblygu trefniadau dadansoddi data ymhellach i fonitro deilliannau disgyblion. Mae bron pob un o'r athrawon yn cynllunio gwaith yn effeithiol i gyfateb i anghenion a galluoedd disgyblion. Serch hynny, mewn dros hanner yr ysgolion, nid yw'r athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn deall beth sydd angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith.

Caiff gofal, cymorth ac arweiniad da eu cynnig ym mhob un o'r ysgolion. Mae hyn yn helpu disgyblion i ddysgu sut i reoli'u teimladau eu hunain a bod yn ystyriol o deimladau pobl eraill. Mae gweithwyr proffesiynol arbenigol fel therapyddion, nyrsys a chwnselwyr yn gwneud cyfraniad pwysig at ddarpariaeth yr ysgolion.

Mae'r adeiladau mewn chwech o'r ysgolion yn dda. Nid yw'r capasiti gan un ysgol i fodloni nifer gynyddol o ddisgyblion ag anghenion meddygol cymhleth. Mewn ysgol arall, mae adeiladau sy'n heneiddio ac wedi'u cynnal a'u cadw'n wael yn creu problemau iechyd a diogelwch i'r disgyblion.





**Ffigur 2.11: Niferoedd yr ysgolion ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**



# Arweinyddiaeth a rheolaeth: ysgolion arbennig a gynhelir

Mae ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn rhagorol mewn un ysgol, yn dda mewn chwech o ysgolion ac yn ddigonol mewn ysgol arall. Mae'r uwch arweinwyr ym mhob un o'r ysgolion bron yn gosod cyfeiriad strategol clir. Maent yn creu ethos lle mae pob un o'r staff, gan gynnwys staff cymorth, yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr, ac mae hyn yn annog gweithio mewn tîm.

Yn yr ysgol lle mae arweinyddiaeth ragorol, mae pob un o'r staff yn rhannu cyfrifoldeb am arweinyddiaeth drwy'r strwythur rheoli. Yn yr un ysgol lle mae'r arweinyddiaeth ddim gwell na digonol, mae'n rhy gynnar i weld a fydd strategaethau'r pennaeth a'r tîm arweinyddiaeth newydd yn gwella'r ysgol.

Yn gyffredinol, mae rheolwyr yn dwyn athrawon i gyfrif ac yn eu cynorthwyo mewn hyfforddiant ysgol gyfan. Defnyddiant ddata yn effeithiol i gefnogi'r gwaith hwn. Mae gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel o berfformiad staff, ac anogant staff i rannu arfer dda ac i ddatblygu arbenigedd mewn meysydd arbenigol fel defnyddio technoleg i gynorthwyo cyfathrebu disgyblion.

Mae cyrff llywodraethol yn adnabod eu hysgolion yn dda, ond nid yw lleiafrif ohonynt wedi datblygu'u rôl yn llawn o ran herio ysgolion i wella.

Mae'r hunanarfarnu yn dda mewn pump o ysgolion, yn rhagorol mewn dwy, ac yn ddigonol mewn un ysgol. Lle ceir hunanarfarnu rhagorol, mae'r ysgol yn mynd ati fel rhan o'r drefn arferol i hunanarfarnu a chynllunio gwelliannau, ac mae staff, llywodraethwyr, rhieni a disgyblion yn cyfrannu at y broses.

Mae bron pob un o'r ysgolion yn gweithio gyda phartneriaid i wneud yn siŵr bod disgyblion yn cael y cymorth iawn ac ystod eang o gyfleoedd dysgu. Mae'r partneriaid hyn yn cynnwys ysgolion prif ffrwd lleol a cholegau, yn ogystal â gwasanaethau arbenigol fel therapi lleferydd ac iaith. Maent yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu annibyniaeth a hyder, ac yn darparu amrywiaeth o brofiadau ysgogol.

Ceir adnoddau da ym mhob un o'r ysgolion, ynghyd â staff a chyfarpar priodol. Mae'r gwaith ar y cyd rhwng athrawon a staff cymorth yn gryfder sylweddol ym mhob un o'r ysgolion a arolygwyd. Mae'r staff cymorth yn fedrus iawn, er enghraifft, o ran rheoli ymddygiad, codi a chario a datblygu medrau cyfathrebu disgyblion. Gwnaiff y staff hyn gyfraniad cadarn at ddeilliannau disgyblion. Mae ychydig o ysgolion yn cyflogi'u therapyddion eu hunain i ategu'r rheini a ddarperir gan asiantaethau eraill.

Mae pob un o'r ysgolion yn cynnig gwerth da am arian.

### Partneriaethau'n talu ar eu canfed i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig

Mae Ysgol Arbennig Portfield wedi gweithio gyda dwy ysgol uwchradd gyfagos y brif ffrwd gan alluogi disgyblion i fanteisio ar gyfleoedd dysgu newydd a fyddai'n anodd eu darparu yn Ysgol Portfield ar ei phen ei hun.

I gael rhagor o wybodaeth am hyn, cliciwch ar yr astudiaeth achos

**Ffigur 2.12: Niferoedd yr ysgolion a barnau ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**




pinc
oren





# Adran 2: Adroddiad sector
## Ysgolion arbennig annibynnol

Yn Ionawr 2013, roedd 32 o ysgolion arbennig annibynnol wedi'u cofrestru yng Nghymru. Mae'r ysgolion hyn yn addysgu tua 550 o ddisgyblion. Mae llawer o'r ysgolion yn rhai bach ac yn addysgu llai na 15 o ddisgyblion sy'n dod yn bennaf o'r cartrefi plant sydd ynghlwm wrth yr ysgol. Mae'r ysgolion yn darparu ar gyfer ystod o anghenion, gan gynnwys anhwylder ar y sbectrwm awtistig ac anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiad. Mae llawer o'r disgyblion yn mynychu'r ysgolion hyn am nad ydynt wedi llwyddo i ymdopi â lleoliadau mwy y brif ffrwd.

Yn ystod 2012-2013, agorodd pedair o ysgolion arbennig annibynnol newydd. Caeodd un ysgol a oedd yn darparu ar gyfer disgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiad. Mae gan ddwy o'r 32 o ysgolion ystafelloedd dosbarth ar ddau neu fwy o safleoedd. Yn ystod y flwyddyn, agorodd un o'r ysgolion hyn ystafell ddosbarth ychwanegol. Ym mis Gorffennaf 2013, nid oedd unrhyw ddisgyblion gan naw o'r ysgolion gan fod y bobl ifanc sy'n byw yn y cartrefi plant cysylltiedig yn mynychu ysgolion y brif ffrwd neu ddarpariaeth addysgol arall.

Yn ychwanegol at arolygiadau llawn bob chwe blynedd, mae Estyn yn cynnal arolygiadau monitro blynyddol o ysgolion arbennig annibynnol, am fod y disgyblion yn yr ysgolion hyn yn agored iawn i niwed. Eleni, fe wnaethom arolygu saith ysgol arbennig annibynnol a chynnal ymweliadau monitro blynyddol â thair ar ddeg o ysgolion.


# Gweithgarwch dilynol: ysgolion arbennig annibynnol

Ym mhob arolygiad o ysgolion arbennig annibynnol, mae'r tîm arolygu yn llunio barn ar y graddau y mae'r ysgol yn cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003. Eleni, llwyddodd pum ysgol arbennig annibynnol i fodloni pob un o'r safonau. Methodd un ysgol â bodloni dwy o'r saith o safonau oherwydd diffygion yn y cwricwlwm a'i pholisi ar gyfer ymweliadau addysgol. Fe wnaeth ysgol arall fodloni un o'r safonau yn unig. Byddwn yn ymweld eto â'r ddwy ysgol hon fel rhan o'r broses fonitro flynyddol i wneud yn siŵr eu bod wedi gwneud y gwelliannau sy'n angenrheidiol i gynnal eu statws cofrestredig.


Ymwelwyd â 13 o ysgolion fel rhan o broses fonitro flynyddol Estyn. Mae llawer o'r ysgolion hyn wedi gwneud cynnydd da yn erbyn argymhellion blaenorol. Fodd bynnag, mewn rhyw chwarter o'r ysgolion hyn, mae cynnydd wedi bod yn rhy araf. Nid yw pedair o'r ysgolion yn cydymffurfio'n llawn â phob un o'r safonau ar gyfer ysgolion annibynnol.

Nodwyd bod arfer sy'n arwain y sector mewn pedair o'r ysgolion a arolygwyd eleni.

**Ffigur 2.13: Niferoedd yr ysgolion mewn categorïau gweithgarwch dilynol**




**Ffigur 2.14: Niferoedd yr ysgolion a fodlonodd y rheoliadau / na fodlonodd y rheoliadau**



# Deilliannau: ysgolion arbennig annibynnol

## Safonau

Mae safonau yn dda neu'n well mewn pump o'r saith o ysgolion a arolygwyd, ac yn ddigonol yn y ddwy ysgol arall. Yn y rhan fwyaf o'r ysgolion a arolygwyd neu yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'n rhaglen fonitro flynyddol, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'u cyflawniad blaenorol ac yn erbyn targedau unigol. Cynnydd cyfyngedig yr oedd llawer o'r disgyblion hyn wedi'i wneud cyn dechrau yn yr ysgol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu medrau cymdeithasol a chyfathrebu, yn unol â'u galluoedd a'u hanghenion. Mewn un ysgol lle mae safonau'n rhagorol, mae'r disgyblion yn datblygu'r hyder a'r medrau i gyfathrebu'n effeithiol â staff, cyfoedion, ymwelwyr ac aelodau'r gymuned. Mae llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da â'u medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh. Fodd bynnag, nid yw pob un o'r disgyblion yn cymhwyso'r medrau hyn yn ddigon da ar draws y cwricwlwm.

Mewn llawer o'r ysgolion, mae disgyblion yn cyflawni ystod eang o gymwysterau, er enghraifft TGAU, Sgiliau Hanfodol Cymru, BTEC, City and Guilds a'r Rhwydwaith Datblygu ac Achredu Cynlluniau Dyfarnu (ASDAN). Yn un o'r ysgolion hyn, mae cyrhaeddiad ar gyfer disgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiad yn arwain y sector. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o'r ysgolion, nid yw disgyblion yn cael eu cofrestru ar gyfer cymwysterau a fyddai'n adlewyrchu llawer o'r gwaith y maent yn ei wneud.

## Lles

Ym mhob un o'r ysgolion, mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda. Lle mae disgyblion yn dangos ymddygiad heriol, dysgant i reoli'u teimladau ac ymdawelu'n gyflym.

Yn yr ysgolion lle mae lles yn dda neu'n rhagorol, mae bron pob un o'r disgyblion yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Mae disgyblion eraill na wnaethant ymgysylltu'n dda ag addysg cyn dechrau yn eu hysgol bresennol yn dangos gwelliant sylweddol yn eu presenoldeb a'u parodrwydd i ddysgu. Nid yw un ysgol, fodd bynnag, yn cofnodi absenoldebau'n ddigon clir ac mae hyn yn golygu nad oes modd barnu lefelau presenoldeb cyffredinol. Ym mhob un o'r ysgolion bron, mae dealltwriaeth dda gan y disgyblion o sut i gadw'n iach drwy wneud ymarfer corff yn rheolaidd a bwyta bwyd iach. Gwnânt benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau, er enghraifft wrth ddewis y fwydlen ginio a gwisg yr ysgol. Mae cyngor ysgol gweithredol mewn pump o'r ysgolion. Fodd bynnag, mewn un ysgol, nid yw disgyblion yn cael cyfleoedd rheolaidd i fynegi'u barnau nac i ddylanwadu ar benderfyniadau am fywyd yr ysgol.

**Figur 2.15: Niferoedd yr ysgolion a barnau ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**



# Darpariaeth: ysgolion arbennig annibynnol

Mae ansawdd y profiadau dysgu yn dda mewn pump o'r saith ysgol a gafodd eu harolygu. Mae'r ysgolion hyn yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n cyfateb yn dda i anghenion unigol y disgyblion. Mae pob un o'r ysgolion yn darparu ystod eang o weithgareddau ymarferol sy'n helpu disgyblion i fagu hyder a datblygu medrau bywyd gwerthfawr. Mewn un ysgol, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'u gwybodaeth am wyddoniaeth na'u medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh sylfaenol. Mewn ysgol arall, nid yw'r polisi cwricwlwm yn rhoi cyfeiriad clir i'r staff ynghylch beth a ddisgwylir, ac nid oes unrhyw gynlluniau gwaith yng nghyfnod allweddol 3.

Mewn dwy o'r ysgolion a arolygwyd a thros draean o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw ar gyfer monitro blynyddol, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ennill cymwysterau.

Mae'r addysgu yn dda mewn pump o'r ysgolion ac yn ddigonol yn y ddwy ysgol arall. Lle mae'r addysgu yn dda, mae athrawon yn defnyddio ystod o strategaethau ac adnoddau i ennyn diddordeb y disgyblion. Mae athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu yn gweithio'n dda â'i gilydd i gefnogi anghenion dysgu ac ymddygiad y disgyblion. Lle mae diffygion, nid yw gwersi'n cael eu cynllunio'n ddigon da i sicrhau bod disgyblion yn gwneud digon o gynnydd. Mewn ychydig o achosion, mae cyfleoedd yn cael eu colli i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion.

Mae systemau effeithiol gan lawer o'r ysgolion ar gyfer cofnodi ac olrhain y cynnydd y bydd disgyblion yn ei wneud dros gyfnod. Mewn lleiafrif o ysgolion, nid yw athrawon yn defnyddio'r data hwn ddigon i lywio cynlluniau athrawon. Ym mron hanner yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw ar gyfer monitro blynyddol, nid yw data'n cael ei ddefnyddio'n ddigon da i olrhain cynnydd disgyblion unigol neu i helpu athrawon gyda'u cynllunio.

Mae bron pob un o'r ysgolion yn gweithio'n dda gydag ystod o arbenigwyr i gefnogi anghenion unigol disgyblion. Caiff rhieni a gofalwyr wybodaeth dda a chyson am gynnydd eu plant.

Mewn chwech o'r ysgolion, mae gofal, cymorth ac arweiniad yn dda neu'n rhagorol. Yn un o'r ddwy ysgol lle mae'n rhagorol, mae'r ysgol yn gweithio'n dda iawn gyda'i phartneriaid i nodi anghenion cymhleth iawn disgyblion unigol ac i ddatblygu pecynnau cymorth priodol. Mewn un ysgol, mae gofal, cymorth ac arweiniad yn anfoddhaol. Yn yr ysgol hon, nid yw'r staff yn defnyddio'r wybodaeth yn natganiadau disgyblion o angen addysgol arbennig i ddatblygu cynlluniau addysg unigol, ac nid yw trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion.

### Creu'r diwylliant ar gyfer cyflawni

Mae Ysgol Headlands yn ysgol arbennig annibynnol, ac mae wedi meithrin medrau cymdeithasol ac emosiynol y dysgwyr, wedi sefydlu partneriaethau cadarn gydag ysgolion lleol a cholegau, wedi cynnwys disgyblion mewn trafodaethau am eu dyheadau yn y dyfodol ac wedi datblygu ystod y cymwysterau sydd ar gael. Mae hyn wedi gwella'r cyfleoedd i ddisgyblion gyflawni cymwysterau priodol.

I gael rhagor o wybodaeth am hyn, cliciwch ar yr astudiaeth achos

**Ffigur 2.16: Niferoedd yr ysgolion a barnau ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**



# Arweinyddiaeth a rheolaeth: ysgolion arbennig annibynnol

Mae ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn y saith ysgol arbennig annibynnol a arolygwyd eleni yn amrywio gryn dipyn.

Yn y pum ysgol lle mae'r arweinyddiaeth yn dda neu'n well, mae gweledigaeth glir iawn ar gyfer yr ysgol gan yr arweinwyr a'r rheolwyr ac maent yn darparu cyfeiriad strategol cadarn ac effeithiol. Yn yr un ysgol lle mae'r arweinyddiaeth yn anfoddhaol, nid yw'r rheolwyr yn canolbwyntio'n ddigon da ar wella ansawdd yr addysg ac nid ydynt yn rhannu'u gweledigaeth yn effeithiol gyda phob un o'r staff.

Ym mhob un o'r ysgolion a arolygwyd, mae llywodraethwyr neu berchenogion yn chwarae rhan weithgar yng ngweithrediad yr ysgol. Yn y ddwy ysgol lle mae'r arweinyddiaeth yn rhagorol, maent yn monitro perfformiad yr ysgol yn drwyadl. Nid ydynt yn darparu lefel briodol o her mewn un ysgol.


Mewn pump o'r ysgolion a gafodd eu harolygu, mae'r broses hunanarfarnu wedi'i hymgorffori'n dda ac yn llywio gwelliannau'r ysgol yn effeithiol. Mae ysgol arall wedi gwneud cynnydd da yn sefydlu dull mwy cadarn o hunanarfarnu. Mae pump o'r saith ysgol wedi gwneud cynnydd da o ran mynd i'r afael â'r argymhellion o arolygiadau blaenorol ac ymweliadau monitro blynyddol. Nid oes prosesau ffurfiol ar waith gan un ysgol ar gyfer hunanarfarnu. O ganlyniad, ni all rheolwyr nodi cryfderau'r ysgol na meysydd i'w gwella.

Mae gweithio mewn partneriaeth yn dda neu'n rhagorol ym mhob un o'r ysgolion a arolygwyd, a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar ddeilliannau a lles y disgyblion. Mae hyn yn cynnwys cysylltiadau cadarn â busnesau lleol, fel siopau elusen neu garejys, sy'n cynnig cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer profiad gwaith, yn ogystal â chyfle i weithio'n agos gydag ystod eang o arbenigwyr i gefnogi anghenion cymdeithasol a phersonol y disgyblion. Mewn un ysgol, lle mae gweithio mewn partneriaeth yn rhagorol, mae cydweithredu gyda phrifysgol leol yn rhoi cyfleoedd pwysig i'r staff ddatblygu'u harbenigedd mewn perthynas ag anawsterau dysgu penodol.

**Ffigur 2.17: Niferoedd yr ysgolion a barnau ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**









# Adran 2: Adroddiad sector
## Ysgolion prif ffrwd annibynnol

Yn Ionawr 2013, roedd 36 o ysgolion prif ffrwd annibynnol yng Nghymru.

Eleni, fe wnaethom arolygu naw o ysgolion prif ffrwd annibynnol. Mae pump o'r rhain yn ysgolion pob oed sy'n darparu ar gyfer disgyblion y cyfnod cynradd a'r cyfnod uwchradd. Mae un ohonynt yn ysgol uwchradd, dwy yn ysgolion cynradd ac un yn ysgol fabanod.

# Gweithgarwch dilynol: ysgolion arbennig annibynnol


Eleni, nodom fod gan ddwy ysgol arfer ragorol.

Mewn arolygiadau o ysgolion annibynnol, mae'r tîm arolygu yn llunio barn ar y graddau y mae'r ysgol yn cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003. Llwyddodd tair o'r ysgolion a arolygwyd eleni i fodloni pob un o'r rheoliadau. Lle methodd ysgolion â bodloni ychydig iawn o reoliadau, y rheswm am hyn fel arfer oedd nad oeddent yn cydymffurfio â rheoliadau'n ymwneud â lles, iechyd a diogelwch disgyblion. Mae enghreifftiau o fethu â chydymffurfio yn cynnwys peidio â chael asesiad risg diogelwch tân addas neu gofnodion diweddar o brofion trydanol.


Byddwn yn ymweld eto â'r ysgolion hynny na fodlonodd pob un o'r rheoliadau hyn i wneud yn siŵr eu bod wedi gwneud y gwelliannau sy'n angenrheidiol i gynnal eu statws cofrestredig.

Eleni, ni wnaethom gynnal unrhyw arolygiadau monitro dilynol gan fod pob un o'r ysgolion a arolygwyd yn 2011-2012 wedi bodloni pob un o'r rheoliadau.

**Ffigur 2.18: Niferoedd yr ysgolion mewn categorïau gweithgarwch dilynol**




**Ffigur 2.19: Niferoedd yr ysgolion a fodlonodd y rheoliadau / na fodlonodd y rheoliadau**



# Deilliannau: ysgolion prif ffrwd annibynnol

## Safonau

Mae safonau'n dda mewn saith o'r naw o ysgolion a arolygwyd, ac yn ddigonol mewn dwy ysgol.

Yn y saith ysgol lle mae safonau'n dda, mae disgyblion yn gwneud cynnydd o ran ymestyn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth, a datblygu'u medrau'n gysylltiedig â phynciau. Mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso'u dysgu cynharach i gysyniadau, testunau a phroblemau newydd. Mewn lleiafrif o ysgolion, nid yw disgyblion mwy galluog yn gwneud digon o gynnydd.

Mewn ysgolion lle bydd disgyblion yn ymrestru ar gyfer arholiadau allanol yng nghyfnod allweddol 4 ac ôl-16, mae disgyblion yn ennill canlyniadau da yn gyffredinol.

Ym mhob ysgol bron, mae llawer o ddisgyblion yn siarad yn hyderus gan ddefnyddio ystod eang o eirfa am eu hoed. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn rhugl a gyda dealltwriaeth. Maent yn galw gwybodaeth i gof yn effeithiol ac yn trafod ystyr testunau'n feddylgar. Mae llawer o ddisgyblion yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 yn dadansoddi gwybodaeth o ystod o ffynonellau yn dda, er enghraifft i gynhyrchu adroddiadau ysgrifenedig addas o arfarnol ac i lunio casgliadau rhesymedig a chytbwys.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae disgyblion yn datblygu'u medrau ysgrifennu yn dda. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio cystrawennau priodol i gyfleu eu syniadau'n glir ac yn gywir. Ym mwyafrif yr ysgolion a arolygwyd, fodd bynnag, nid yw llawer o ddisgyblion yn datblygu'u medrau ysgrifennu estynedig yn ddigon da, er enghraifft i ysgrifennu'n estynedig mewn ystod o genres, gan gynnwys darnau creadigol a darbwyllol. Cyfeiriom yn adroddiad blynyddol y llynedd at ddiffygion tebyg yn hanner yr ysgolion a arolygwyd gennym.

## Lles

Mae presenoldeb yn dda ym mhob un o'r ysgolion. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn llawn cymhelliant ac mae ganddynt agweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu. Mewn ychydig o ysgolion, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i fod yn rhan o benderfyniadau neu i ddylanwadu ar waith yr ysgol.

**Ffigur 2.20: Niferoedd yr ysgolion a barnau ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**



# Darpariaeth: ysgolion prif ffrwd annibynnol

Mae darpariaeth yn dda at ei gilydd mewn pedair ysgol a arolygwyd ac yn ddigonol mewn pum ysgol.

Ym mhob un o'r ysgolion, mae'r cwricwlwm yn bodloni'r gofynion, ac mewn llawer o achosion, mae'n hyrwyddo nodau ac ethos yr ysgol yn dda. Yn oddeutu hanner yr ysgolion, mae disgyblion yn elwa ar ystod eang o brofiadau dysgu sydd wedi'u cynllunio'n dda. Nid yw'r cwricwlwm, mewn ychydig o ysgolion, yn cynnwys cydbwysedd addas ac nid yw'n cynnig digon o gyfleoedd i ddisgyblion, er enghraifft, i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol a chreadigol.

Ym mwyafrif yr ysgolion, mae trefniadau da ar waith i ddatblygu llythrennedd a rhifedd disgyblion. Mewn llawer o ysgolion, fodd bynnag, nid yw cyfleoedd yn cael eu cynllunio'n ddigon da i ddisgyblion ddatblygu'u medrau gwybodaeth a chyfathrebu ar draws y cwricwlwm. Mae mwyafrif yr ysgolion yn darparu ystod eang o weithgareddau allgyrsiol sy'n cyfrannu'n dda at ddatblygiad addysgol, cymdeithasol a phersonol y disgyblion.

Mae'r addysgu yn dda yn gyffredinol mewn pedair ysgol ac yn ddigonol yn y lleill. Nodweddion cyffredin addysgu cyson dda yw:


- disgwyliadau uchel a gweithgareddau wedi'u cynllunio'n dda sy'n adeiladu ar ddysgu blaenorol y disgyblion, ac yn cymell ac yn herio disgyblion o bob gallu; ac
- esboniadau clir a holi effeithiol sy'n annog disgyblion i feddwl yn ofalus er mwyn datrys problemau ac ymestyn dealltwriaeth disgyblion o gysyniadau a thestunau penodol.

Lle mae diffygion yn yr addysgu, mae hyn oherwydd nad oes disgwyliadau digon uchel o'r disgyblion gan athrawon, neu nid ydynt yn cynllunio gweithgareddau dysgu sy'n darparu her addas, yn enwedig i ddisgyblion mwy galluog.

Yn gyffredinol, mae staff yn rhoi adborth llafar defnyddiol i ddisgyblion ac yn marcio gwaith yn rheolaidd. Ym mwyafrif yr ysgolion, mae ansawdd y marcio yn amrywio gormod ac yn rhy aml nid yw disgyblion yn cael cyngor clir ynghylch sut i wella'u gwaith.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda. Mae trefniadau gofal a chymorth effeithiol gan lawer ohonynt.

**Ffigur 2.21: Niferoedd yr ysgolion a barnau ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**



# Arweinyddiaeth a rheolaeth: ysgolion prif ffrwd annibynnol

Yn gyffredinol, mae'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn dda mewn pedair ysgol, ond nid yw ddim gwell na digonol yn y pum ysgol arall.

Yn y pedair ysgol lle mae'r arweinyddiaeth yn dda, mae'r arweinwyr:

— yn cyfleu gweledigaeth strategol a disgwyliadau clir i'r staff, disgyblion a rhieni;

— yn darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad pwrpasol i bob agwedd ar waith yr ysgol;

— yn sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir gan yr holl arweinwyr a rheolwyr; ac

— yn cefnogi staff yn eu gwaith ac yn herio tanberfformiad yn gadarn.

Lle mae'r arweinyddiaeth yn ddigonol yn unig, nid yw arweinwyr yn darparu cyfeiriad clir. Nid ydynt yn sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau pob un o'r staff wedi'u diffinio'n glir, nac yn sicrhau lefelau atebolrwydd priodol.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae dealltwriaeth gadarn gan berchenogion o flaenoriaethau allweddol yr ysgol ac maent yn wybodus am berfformiad. Mewn ychydig o achosion, nid yw perchenogion yn dwyn yr ysgol i gyfrif yn ddigon da mewn perthynas â'r safonau a'r ansawdd y mae'n eu cyflawni.

Mae trefniadau hunanarfarnu a chynllunio gwelliannau yn dda mewn tair o'r ysgolion a arolygwyd, ac yn ddigonol mewn tair arall. Fodd bynnag, mae'r trefniadau ar gyfer gwella ansawdd yn anfoddhaol mewn tair ysgol.

Lle mae'r trefniadau gwella ansawdd yn dda, mae hyn oherwydd bod arweinwyr yn dadansoddi data perfformiad yn drwyadl ac yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol. Mae'r ysgolion hyn yn nodi blaenoriaethau gwella yn seiliedig ar ganlyniadau hunanarfarnu ac maent wedi gwella deilliannau a darpariaeth.

Lle mae diffyg trylwyrdeb yn y trefniadau gwella ansawdd, nid yw arweinwyr yn defnyddio data'n gadarn nac yn sefydlu trefniadau systematig i fonitro ansawdd yr addysgu a'r dysgu. O ganlyniad, nid oes cyd-ddealltwriaeth o'r hyn y mae angen i'r ysgol ei wneud i wella. Nid yw cynlluniau gwella'n canolbwyntio'n benodol ar safonau. Nid ydynt yn amlinellu'n glir y camau i'w cymryd nac yn dynodi sut bydd llwyddiant yn cael ei fesur.

Mae partneriaethau addas gan bob un o'r ysgolion, er enghraifft gyda rhieni a busnesau lleol, y gymuned, sefydliadau chwaraeon a diwylliannol. Mae'r cysylltiadau hyn yn gwella profiadau dysgu, yn cefnogi datblygiad personol a chymdeithasol disgyblion, ac yn cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion.

Mae pob un o'r ysgolion yn defnyddio adnoddau'n effeithiol ac yn monitro cyllid yn ofalus. Mae'r mwyafrif ohonynt yn sicrhau bod cysylltiad agos rhwng cynlluniau ariannol a meysydd a nodwyd ar gyfer eu gwella.

**Ffigur 2.22: Niferoedd yr ysgolion a barnau ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**









# Adran 2: Adroddiad sector
## Colegau arbenigol annibynnol

Mae chwech o golegau arbenigol annibynnol yng Nghymru. Maent yn darparu addysg a hyfforddiant i ddysgwyr 18-25 oed sydd ag anawsterau dysgu neu anableddau. Mae'r colegau hyn yn amrywio o ran eu maint o ddau i 58 o ddysgwyr, ac maent yn cynnig lleoliadau dydd a lleoliadau preswyl. Mewn dau o'r colegau, mae dysgwyr yn mynychu cyrsiau coleg y brif ffrwd.

Aeth Estyn ati i ymweld â phob un o'r chwe choleg eleni a'u monitro. Ni chynhaliwyd unrhyw arolygiadau llawn. Bydd arolygiadau'n dechrau yn 2014. O ganlyniad, ni nodwyd bob angen gweithgarwch dilynol yn yr un o'r colegau. Fodd bynnag, cafodd dau o'r colegau yr ymwelwyd â nhw eu monitro yn 2011-2012 hefyd. Roedd y colegau hyn wedi gwneud cynnydd yn erbyn yr argymhellion o'r ymweliad monitro blynyddol blaenorol.

Meysydd penodol ar gyfer eu datblygu a nodwyd eleni yw nad yw pob un o'r colegau arbenigol annibynnol:

— yn sicrhau bod medrau llythrennedd, rhifedd a chyfathrebu'n cael eu datblygu'n gyson ar draws gwersi;

— yn cynllunio rhaglenni strwythuredig o addysg bersonol a chymdeithasol, yn cynnwys addysg rhyw; neu

— yn canolbwyntio digon ar ddeilliannau ar gyfer dysgwyr yn eu cynlluniau gwella.

# Deilliannau: colegau arbenigol annibynnol

## Safonau

Ar draws y colegau, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn adnabod y cynnydd y maent yn ei wneud ac mae eu hyder yn cynyddu. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwella'u llythrennedd a'u rhifedd yn briodol. Fodd bynnag, nid yw dysgwyr bob amser yn gwneud digon o ddefnydd o'r medrau hyn mewn gwersi. Er bod colegau wedi gwella'u ffocws ar gyfathrebu yn ddiweddar, nid yw dysgwyr ag anghenion mwy cymhleth yn defnyddio arwyddion a symbolau ar draws yr holl weithgareddau bob amser. O ganlyniad, nid ydynt yn gwneud cymaint o gynnydd ag y dylent. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ennill ystod o gymwysterau lefel mynediad ac yn dysgu am fyd gwaith.

## Lles

Mae dysgwyr yn dysgu i fynegi'u teimladau ac yn gwella'r ffordd y maent yn rheoli eu hymddygiad a'u pryder. Maent yn mwynhau ystod eang o weithgareddau sy'n eu helpu i ddeall sut i gadw'n heini a gofalu amdanynt eu hunain, lle mae hyn yn briodol i'w hanghenion a'u galluoedd. Nid yw byrbrydau a ddarperir gan y coleg bob amser yn cefnogi gwaith cwricwlwm ar fwyta'n iach.

Nid yw ychydig o ddysgwyr yn mynychu pob sesiwn yn ystod y diwrnod coleg. Caiff y rhan fwyaf o ddysgwyr gyfleoedd da i wneud penderfyniadau ynglŷn â bywyd coleg. Nid yw hyn yn wir bob amser, fodd bynnag, gyda dysgwyr ag anghenion mwy cymhleth.

# Darpariaeth: colegau arbenigol annibynnol

Mae'r colegau yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n addas gan mwyaf i anghenion dysgwyr. Mae hyn yn cynnwys defnyddio TGCh ar gyfer ymchwil neu i gyflwyno gwaith, ac yng ngwaith galwedigaethol myfyrwyr. Mae trefniadau ymsefydlu da ar gyfer y dysgwyr, ac maent yn ymgartrefu'n gyflym i fywyd coleg. Fodd bynnag, dim ond hanner y colegau sy'n darparu rhaglen gynlluniedig o addysg bersonol a chymdeithasol, sy'n cynnwys addysg rhyw, i'r holl ddysgwyr. Yn lle hynny, mae athrawon yn delio â materion wrth iddynt godi. O ganlyniad, nid yw pob un o'r dysgwyr yn dysgu am faterion pwysig a fyddai'n eu helpu i gadw'u hunain a rhai eraill yn ddiogel.

Mae'r rhan fwyaf o'r addysgu yn dda. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio gwersi'n ofalus i fodloni anghenion dysgwyr. Gwnânt yn siŵr bod y gwaith a osodir yn cyfateb i alluoedd y rhan fwyaf o ddysgwyr a'i fod yn cadw eu diddordeb. Nid yw ychydig o athrawon, fodd bynnag, yn sicrhau eu bod yn rhoi sylw i lythrennedd a rhifedd ym mhob agwedd ar waith dysgwyr. Yn benodol, nid yw pob un ohonynt yn darparu camau ddigon bach ar gyfer dysgwyr ag anghenion mwy cymhleth i wneud cynnydd, er enghraifft drwy osod targedau penodol byr ar gyfer cyfathrebu drwy symudiad llygaid.

Mae'r gwaith asesu cychwynnol ac asesu parhaus yn drwyadl. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob amser yn gwneud digon o ddefnydd o'u hasesiad cychwynnol trylwyr o lythrennedd a rhifedd i gynllunio gwaith. O ganlyniad, mae'n anodd mesur faint mae dysgwyr yn gwella.

Mae dysgwyr yn cael cymorth ac arweiniad o ansawdd da, ynghyd ag ystod o therapïau, yn cynnwys therapi lleferydd. Gweithiant mewn adeiladau ag adnoddau da mewn hinsawdd lle ceir parch rhwng y naill a'r llall.


# Arweinyddiaeth: colegau arbenigol annibynnol

Mae gweledigaeth glir ar gyfer cyfeiriad eu coleg gan arweinwyr a rheolwyr. Gweithiant yn agos â rhieni a phartneriaid eraill yn eu cymunedau lleol i ehangu a gwella'r ddarpariaeth i ddysgwyr. Mae un coleg yn gwneud gwaith gwerthfawr yn codi proffil anhwylder ar y sbectrwm awtistig ar lefel genedlaethol.

Mae adroddiadau hunanarfarnu yn amrywio o ran eu hansawdd. Mae'r adroddiadau gorau yn gosod targedau clir ar gyfer gwella. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o adroddiadau yn gwneud digon o ddefnydd o ddata ac nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigon clir ar wella deilliannau ar gyfer dysgwyr unigol a grwpiau o ddysgwyr. Nid yw colegau'n gwneud digon i olrhain cyrchfannau dysgwyr dros gyfnod. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd gweithio allan pa mor dda y mae cwricwla'r colegau yn bodloni anghenion dysgwyr ac yn eu paratoi ar gyfer lleoliadau neu gyflogaeth yn y dyfodol.

Nid yw trefniadau diogelu yn ddigon cadarn bob amser. Nid yw athrawon yn cofnodi ymhle y mae'r dysgwyr yn ddigon manwl. Er enghraifft, nid yw cofnodion staff bob amser yn nodi pa bryd y bydd athrawon yn caniatáu i ddysgwyr ddewis gweithio i ffwrdd oddi wrth ddysgwyr eraill er mwyn cadw'n dawel. O ganlyniad, nid yw'r colegau hyn yn gallu dweud yn union ble mae dysgwyr neu pwy sy'n eu goruchwylio. Nid oes swyddog diogelu plant dynodedig ar y safle gan un coleg, ac nid yw'r camau i'w cymryd yn dilyn datgeliad yn glir.

Mae un coleg yn gwneud defnydd da o fewnrwyd i olrhain, cofnodi ac adrodd ar gynnydd a chyflawniadau dysgwyr. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o'r colegau yn cofnodi cynnydd dysgwyr yn ddigon gofalus. Er bod arweinwyr a rheolwyr yn ymwybodol o bwysigrwydd datblygu llythrennedd a rhifedd a chyfathrebu, nid ydynt yn sicrhau bod dull systematig gan athrawon o ddatblygu'r medrau hyn ar draws y cwricwlwm. Mae gweithio mewn partneriaeth yn gwella, ac mae colegau'n gwneud llawer mwy o ddefnydd o asiantaethau allanol i ehangu profiadau dysgwyr.





# Adran 2: Adroddiad sector

## Unedau cyfeirio disgyblion

Yn Ionawr 2013, roedd 41 o unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) yng Nghymru. Mae'r UCDau hyn yn addysgu cyfanswm o ryw 600 o ddisgyblion. Maent yn darparu ar gyfer ystod o anghenion disgyblion, gan gynnwys problemau iechyd meddwl, mamau ifanc ac anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiad. Mae llawer o ddisgyblion yn mynychu'r UCDau hyn am eu bod wedi'u gwahardd neu mewn perygl o gael eu gwahardd o ysgolion prif ffrwd. Mae ychydig o dan hanner yr UCDau yn darparu lleoliadau amser llawn ar gyfer disgyblion. Yn yr UCDau eraill, mae gwaith ar y cyd gyda phartneriaid, fel colegau addysg bellach, lleoliadau profiad gwaith a'r gwasanaeth ieuenctid, yn cynyddu cyfleoedd i ddisgyblion barhau â'u dysgu.

Fe wnaethom arolygu naw UCD eleni.

# Gweithgarwch dilynol: unedau cyfeirio disgyblion


Eleni, darparwyd astudiaethau achos o arfer ragorol gan ddwy o'r naw UCD a arolygwyd. Mae gan yr UCDau hyn ystod eang o strategaethau ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad, a phartneriaethau rhagorol gydag ysgolion ac asiantaethau eraill sy'n helpu i gynorthwyo disgyblion i fynd yn ôl i ysgolion prif ffrwd ac yn cael effaith gadarnhaol iawn ar eu lles.

Mae angen rhoi mesurau arbennig ar waith mewn dwy UCD, mae angen gwelliant sylweddol yn un ohonynt, ac mae angen monitro gan Estyn ar ddwy uned. Mae safon wael cyflawniad disgyblion yn thema gyffredin sy'n cyfrannu at osod yr UCDau hyn mewn categorïau gweithgarwch dilynol.

Nid yw un awdurdod lleol yn cefnogi ac yn herio'i bump UCD i wella. Mae gwahaniaethau sylweddol mewn deilliannau, darpariaeth ac arweinyddiaeth a rheolaeth rhwng yr UCDau hyn.

Fe wnaethom fonitro chwech UCD eleni. O'r rhain, roedd pedair UCD wedi gwneud cynnydd da ac fe'u tynnwyd o gategori gweithgarwch dilynol. Nid oedd un UCD wedi gwneud digon o gynnydd ac mae angen ei gwella'n sylweddol. Mae un UCD yn y categori mesurau arbennig o hyd.

**Ffigur 2.23: Niferoedd yr unedau cyfeirio disgyblion mewn categorïau gweithgarwch dilynol**



# Deilliannau: unedau cyfeirio disgyblion

## Safonau

Mae safonau, gan gynnwys lles disgyblion, yn dda mewn pedair o'r naw UCD, ac yn rhagorol mewn un uned. Yn yr UCDau hyn, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da neu well yn erbyn eu cyflawniadau blaenorol. Cymerant gyfrifoldeb am eu dysgu, maent yn gwybod eu targedau personol ac yn dysgu i weithio'n fwy annibynnol. Mae'r disgyblion yn ennill ystod o gymwysterau, gan gynnwys cymwysterau TGAU. Mae bron pob un o'r disgyblion hyn yn symud yn ôl i ysgolion prif ffrwd neu'n mynd ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth.

Yn yr UCDau lle mae safonau'n anfoddhaol, nid yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'u llythrennedd a'u rhifedd yn ddigon da nac yn cymhwyso'r medrau hyn ar draws y cwricwlwm. Nid yw disgyblion yn rhoi digon o sylw i'w sillafu, eu hatalnodi a'u gramadeg. Nid ydynt yn datblygu'u medrau meddwl neu ddatrys problemau yn ddigon da, ac mae hyn yn cyfyngu ar eu cynnydd ar draws yr holl feysydd dysgu.

## Lles


Mae llawer o ddisgyblion yn dysgu i fynegi'u teimladau'n briodol ac yn rheoli eu hymddygiad yn ystod eu cyfnod mewn UCD. Dysgant i wrando ar eraill a datblygu'r medrau cyfathrebu sydd eu hangen arnynt i uniaethu a gweithio'n dda â phobl eraill.

Mewn lleiafrif o UCDau, nid yw disgyblion bob amser yn ymgysylltu â gwersi, ac mae eu hymddygiad gwael, sy'n cynnwys iaith ddrwg, yn tarfu ar ddysgwyr eraill. Yn yr UCDau hyn, mae cyfraddau gwaharddiadau uchel a chyfraddau presenoldeb isel yn cael effaith negyddol ar ddysgu'r disgyblion. Mewn un UCD, oherwydd y rheolaeth anghyson ar ymddygiad, bu nifer sylweddol o ddigwyddiadau difrifol ers mis Medi. O ganlyniad, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr UCD.

Mewn un UCD y llynedd, dim ond rhyw 60% oedd y gyfradd bresenoldeb. Mewn ychydig o UCDau, mae presenoldeb disgyblion yn is nag ydoedd yn eu lleoliadau blaenorol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn elwa ar brofiad gwaith, gweithgareddau cymunedol a lleoliadau addysg bellach. Mae'r rhain yn eu helpu i ddatblygu agweddau aeddfed a dysgu i gymryd mwy o gyfrifoldeb i baratoi ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu dysgu. Yn yr UCD lle nad oes digon o leoliadau profiad gwaith, nid yw disgyblion yn dysgu'r medrau hyn, ac ni wnaeth nifer sylweddol o ymadawyr ysgol ddechrau na chynnal eu hyfforddiant neu leoliadau gwaith y llynedd.

**Ffigur 2.24: Niferoedd yr unedau cyfeirio disgyblion a barnau ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**



# Darpariaeth: unedau cyfeirio disgyblion

Mae'r ddarpariaeth yn dda mewn chwech o'r naw o UCDau. Mae'r UCDau hyn yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys, wedi'i addasu i fodloni anghenion unigol y disgyblion a'u cymell i ail-ymgysylltu ag addysg. Hefyd, mae gan yr unedau gysylltiadau da gydag ysgolion prif ffrwd a darparwyr eraill, ac maent yn darparu cymorth effeithiol i alluogi lleiafrif o ddisgyblion i ddychwelyd i'r ysgol, yn enwedig wrth i ddisgyblion nesáu at ddiwedd eu lleoliad.

Ym mhob un o'r UCDau, mae disgyblion yn ennill ystod o gymwysterau TGAU neu gymwysterau galwedigaethol a medrau bywyd eraill. Fodd bynnag, nid yw ychydig o UCDau yn galluogi disgyblion i ddilyn cymwysterau digon heriol i sicrhau eu bod yn cyflawni hyd eithaf eu gallu.

Lle nad yw'r ddarpariaeth ddim gwell na digonol, nid yw'r cwricwlwm yn bodloni anghenion disgyblion. Mae disgwyliadau'n rhy isel, ac nid yw'r staff bob amser yn annog disgyblion i fyfyrio ar eu dysgu neu ymddygiad, a deall sut gallant wella. Nid yw athrawon yn defnyddio cynlluniau addysgol unigol yn ddigon da i gynllunio a monitro cynnydd disgyblion.

Mewn un UCD, mae ychydig o ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn cael eu haddysgu ar wahân i'w cyfoedion. Ni ddisgwylir i'r disgyblion weithredu'n annibynnol bob amser na chwblhau eu gwaith eu hunain. Nid yw hyn yn eu paratoi'n ddigon da ar gyfer symud ymlaen at addysg bellach neu gyflogaeth.

Mae'r rhan fwyaf o'r UCDau effeithiol yn darparu cymorth da mewn llythrennedd a rhifedd. Nid yw'r cynllunio, fodd bynnag, yn canolbwyntio digon ar ddatblygu'r medrau hyn ar draws y cwricwlwm.

Lle mae'r addysgu yn dda, mae athrawon yn defnyddio ystod o adnoddau a dulliau addysgu, ac yn cydweddu gwaith yn ofalus ag anghenion, galluoedd a diddordebau unigol y disgyblion. Oherwydd hyn, mae disgyblion yn frwdfrydig ynglŷn â'u dysgu ac yn gwneud cynnydd da. Mewn gormod o wersi, fodd bynnag, nid yw athrawon yn pennu disgwyliadau digon uchel nac yn herio disgyblion i gyflawni'u gorau. Mewn ychydig o UCDau, mae gwybodaeth asesu ac olrhain yn wael, ac nid yw'n glir a yw disgyblion yn cyflawni'u potensial.

Mae bron pob un o'r UCDau yn darparu amgylchedd gofalgar i gefnogi lles y disgyblion. Maent i gyd yn cynnig cymorth effeithiol o ystod eang o asiantaethau amlddisgyblaethol. Yn yr UCDau mwyaf effeithiol, mae'r awyrgylch meithringar a chymorth da gan y staff yn helpu disgyblion i wella'u cyfathrebu a chaiff hyn effaith sylweddol ar eu hymddygiad a'u lles.

Dim ond mewn lleiafrif o UCDau y mae staff yn rheoli ymddygiad y disgyblion yn effeithiol ac yn eu cynorthwyo i reoli'u hemosiynau a'u hymddygiad yn dda. Yn y pedair UCD lle nad yw gofal, cymorth ac arweiniad ddim gwell na digonol, nid yw'r staff yn dilyn polisïau ymddygiad yn gyson i gynorthwyo disgyblion i reoli'u hymddygiad yn effeithiol. Mae ychydig dros hanner yr UCDau yn darparu lleoliadau rhan-amser ar gyfer disgyblion sy'n eithriadol o fregus a heriol. Nid yw'r UCDau hyn wedi datblygu strategaethau eto i reoli'r ychydig iawn o ddisgyblion ag anghenion cymhleth a'r ymddygiad mwyaf heriol.

### Helpu pobl ifanc i reoli emosiynau a pherthnasoedd

Mae Gwasanaeth Glasoed Gogledd Cymru (GGGC) wedi datblygu grŵp medrau ar gyfer pobl ifanc sydd â phroblemau iechyd meddwl difrifol a chymhleth fel rhan o'r cwricwlwm ABCh. Mae hyn yn helpu i addysgu pobl ifanc ynghylch sut i reoli eu hemosiynau a'u perthnasoedd gyda phobl eraill, ac ymdopi â sefyllfaoedd anodd heb ddechrau ymddwyn yn anghymwynasgar neu'n ddinistriol. Wrth weithio mewn partneriaeth â seicolegwyr a gweithwyr cymdeithasol, mae athrawon yn cael dealltwriaeth o'r ystyriaethau sydd eu hangen ar gyfer cyfnod pontio'r dysgwyr yn ôl i addysg prif ffrwd.

I gael mwy o wybodaeth am hyn, cliciwch ar yr astudiaeth achos

**Ffigur 2.25: Niferoedd yr unedau cyfeirio disgyblion a barnau ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**



# Arweinyddiaeth a rheolaeth: unedau cyfeirio disgyblion


Yn y pump UCDau lle mae'r arweinyddiaeth a rheolaeth yn dda neu'n well, mae gweledigaeth glir gan y rheolwyr ac maent yn rhoi cyfeiriad effeithiol i'r staff. Defnyddiant ddata yn dda i ddeall perfformiad ac maent yn gwybod beth sydd angen iddynt ei wneud i wella'r addysgu a safonau a phresenoldeb disgyblion. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ac maent yn eu cyfleu'n dda i'r staff. Yn yr UCDau hyn, fodd bynnag, mae gan bwyllgorau rheoli wybodaeth ac aelodaeth briodol i ddeall cryfderau a gwendidau'r UCDau hyn ac maent yn dechrau gwneud defnydd gwell o ddata i herio perfformiad. At ei gilydd, mae pwyllgorau rheoli ym mhob un o'r UCDau yn parhau i gynnig mwy o gymorth na her.


Mewn dwy UCD, bernir mai digonol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth, ac maent yn anfoddhaol mewn dwy uned. Yn yr UCDau hyn, mae arweinwyr a rheolwyr sydd newydd eu penodi wedi methu hyd yma â gwella perfformiad disgyblion nac unioni ymddygiad gwael. Nid yw eu prosesau hunanarfarnu yn ddigon rheolaidd na dadansoddol eto. Er bod gan yr UCDau hyn ystod o ddata ar agweddau ar eu perfformiad, nid ydynt yn defnyddio hwn yn strategol nac yn systematig eto i fesur llwyddiant a chynllunio ar gyfer gwella. O ganlyniad, nid yw pwyllgorau rheoli yn nodi cryfderau a gwendidau'r addysgu a'r dysgu, ac nid ydynt yn herio'r UCDau hyn i wella.


Mae partneriaethau yn dda neu'n well mewn wyth o UCDau ac yn ddigonol yn un ohonynt. Lle mae partneriaethau'n rhagorol, cânt effaith gadarnhaol ar ddeilliannau disgyblion, yn enwedig o ran lles emosiynol. Mae bron pob un o'r UCDau yn gweithio'n effeithiol â phartneriaid i ehangu llwybrau dysgu'r disgyblion, yn enwedig mewn meysydd galwedigaethol. Fodd bynnag, mae llwyddiant yr UCDau o ran ailintegreiddio disgyblion yn ysgolion y brif ffrwd yn amrywio gormod, ac mae gormod o ddisgyblion, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4, nad ydynt yn cael cyfleoedd i fynd yn ôl i ddarpariaeth brif ffrwd.

Nid yw ysgolion prif ffrwd bob amser yn darparu gwybodaeth o ansawdd da na gwybodaeth amserol i'r UCDau am anghenion dysgu disgyblion. O ganlyniad, mae UCDau yn gwastraffu amser gwerthfawr ar ôl eu derbyn yn sefydlu darlun clir o alluoedd, anghenion a chynnydd blaenorol disgyblion.

**Ffigur 2.26: Niferoedd yr unedau cyfeirio disgyblion a barnau ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**




tree
car
loud
happy





# Adran 2: Adroddiad sector
## Lleoliadau i blant dan bump oed

Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru, ac eithrio Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot, yn ariannu rhyw ddarpariaeth addysg ar gyfer plant tair oed, a phlant pedair oed yn achlysurol iawn, mewn lleoliadau yn ogystal ag mewn ysgolion. Mae lleoliadau sy'n darparu addysg yn cynnwys darparwyr gofal dydd a chylchoedd chwarae. Nid yw awdurdodau lleol yn cynnal y lleoliadau hyn er eu bod yn gyfrifol am sicrhau bod lleoliadau'n darparu addysg gynnar o ansawdd da.

Mae rhyw 680 o leoliadau ac mae nifer y darparwyr yn parhau i ostwng. Mae nifer o resymau pam mae lleoliadau yn cau neu'n rhoi'r gorau i ddarparu addysg. Er enghraifft, gall arweinydd ymddeol ac nid oes unrhyw un arall yn dymuno rhedeg y lleoliad, mae amgylchiadau'r lleoliad yn newid ac mae angen cofrestriad newydd arno gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) neu mae'r awdurdod lleol yn teimlo bod y lleoliad yn methu â darparu safon addysg dderbyniol. At ei gilydd, nid yw awdurdodau lleol yn rhoi digon o ystyriaeth i leoliadau nas cynhelir pan fyddant yn cynllunio lleoedd ar gyfer darpariaeth y blynyddoedd cynnar.

Eleni, fe wnaethom arolygu 110 o leoliadau. Roedd tua hanner ohonynt yn lleoliadau bach gyda llai na chwech o blant tair oed yn mynychu. Mewn lleoliadau bach, bydd arolygwyr yn adrodd ar y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth yn unig, er mwyn osgoi adnabod plant unigol.

# Gweithgarwch dilynol: lleoliadau i blant dan bump oed


Eleni, nodom fod arfer ragorol mewn 11 o leoliadau, sef hanner gymaint â'r llynedd.

Mae nifer y lleoliadau y mae angen ymweliad dilynol arnynt gan Estyn neu eu monitro gan yr awdurdod lleol, yn is nag ydoedd y llynedd. At ei gilydd, mae'r lleoliadau a roddwyd mewn categori gweithgarwch dilynol yn gwneud cynnydd da o ran mynd i'r afael â'r argymhellion o arolygiadau, ac maent yn cael eu tynnu o gategori gweithgarwch dilynol 12 i 18 mis ar ôl eu harolygu. Eleni, methodd un lleoliad â gwneud digon o gynnydd pan oedd yn cael ei fonitro a'i gefnogi gan yr awdurdod lleol. Bydd Estyn nawr yn monitro'r cynnydd y mae'r lleoliad hwn yn ei wneud.

Roedd angen gwelliant â ffocws ar bedwar lleoliad eleni. Nododd arolygwyr fod angen ymweliad dilynol gan Estyn ar y lleoliadau hyn o'u harolygiadau yn 2010-2011. Yn ystod yr ymweliad dilynol, canfu arolygwyr nad oedd y lleoliadau wedi gwneud digon o gynnydd o ran mynd i'r afael â phryderon o'r arolygiadau gwreiddiol. Nid yw un o'r lleoliadau hyn yn darparu addysg mwyach.

Y llynedd, adroddom fod nifer fach o leoliadau yn cael anawsterau yn bodloni'r gofynion i ddarparu addysg o ansawdd da i blant ifanc. Eleni, roedd angen ymweliad monitro gan Estyn neu eu monitro gan yr awdurdod lleol ar ryw hanner o'r lleoliadau bach[9]. Yn y lleoliadau hyn, mae diffygion yn yr arweinyddiaeth sy'n effeithio ar ansawdd darpariaeth y cwricwlwm a safonau addysgu. Yn rhy aml, mae arweinwyr yn y lleoliadau hyn yn canolbwyntio gormod ar ddarparu gofal a dim digon ar eu dyletswydd i ddarparu addysg dda.

**Ffigur 2.27: Canrannau lleoliadau mewn categorïau gweithgarwch dilynol**




[9] Lleoliadau bach yw lleoliadau â llai na chwech o blant neu bedair oed yn mynychu. Nid ydym yn adrodd ar safonau yn y lleoliadau hyn er mwyn osgoi adnabod plant unigol yn yr adroddiad.

# Deilliannau: lleoliadau i blant dan bump oed

At ei gilydd, mae safonau a lles yn dda neu'n well ym mhob lleoliad bron lle buom yn adrodd ar safonau.

## Safonau rhagorol

Yn yr ychydig iawn o leoliadau lle mae safonau'n rhagorol, mae plant yn canolbwyntio ac yn dyfalbarhau â gweithgareddau. Maent yn rhannu syniadau ac yn trafod eu chwarae'n hyderus gydag oedolion, gan gynnwys ymwelwyr. Mewn gweithgareddau datrys problemau, gallant weithio'n annibynnol, a gallant hefyd ymateb i gyfarwyddiadau gyda dealltwriaeth, er enghraifft, wrth baratoi a phlannu gardd.

## Safonau da

Lle mae safonau'n dda, mae'r rhan fwyaf o blant yn gwrando'n astud ac yn siarad yn glir a brwdfrydig am y gweithgareddau y maent yn ymwneud â nhw, yn enwedig mewn sefyllfaoedd chwarae rôl. Maent yn dangos diddordeb mewn llyfrau a'u cynnwys, ac yn gwrando'n dda adeg adrodd stori. Mae llawer o blant yn dechrau adnabod eu henwau a seiniau blaenlythrennau. Defnyddiant y wybodaeth hon i adnabod ble i hongian eu cotiau ac i ddangos eu bod yn bresennol ar gyfer y sesiwn. Gall llawer o blant ddefnyddio iaith fathemategol gywir, yn enwedig mewn perthynas â maint a siâp, a gallant gyfrif i ddeg yn rhesymol o gywir.

## Safonau digonol


Yn yr ychydig iawn o leoliadau lle mae safonau'n ddigonol yn unig, nid yw pob un o'r plant yn gwneud y cynnydd disgwyliedig, yn enwedig yn eu medrau rhifedd.

At ei gilydd, mae plant mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg yn gwneud cynnydd priodol yn Gymraeg. Mewn ychydig o leoliadau lle gwneir cynnydd da, mae plant yn dechrau defnyddio'r Gymraeg y tu allan i sesiynau grŵp cyfan heb anogaeth gan oedolion.

## Lles

Ym mhob un o'r lleoliadau bron, mae agweddau da at ddysgu gan y plant. Maent yn dilyn patrymau gwaith yn dda, mae ganddynt ddiddordeb yn y gweithgareddau a ddarperir ac, yn gyffredinol, maent yn ymddwyn yn dda. Mae'r rhan fwyaf o blant yn hyderus yn defnyddio a rhannu adnoddau, a chymerant eu tro yn briodol. Mewn ychydig o leoliadau, caiff plant eu hannog i gymryd cyfrifoldebau ychwanegol, fel gwirio nad oes sbwriel ar yr iard chwarae a bod goleuadau wedi'u diffodd pan na fydd mannau'n cael eu defnyddio. Mae hyn yn datblygu'u hannibyniaeth a'u hyder ymhellach.

**Ffigur 2.28: Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**



# Darpariaeth: lleoliadau i blant dan bump oed


Mae'r ddarpariaeth yn dda neu'n well mewn rhyw naw o bob deg o'r lleoliadau. Mae llawer ohonynt yn cynllunio ystod eang o brofiadau uniongyrchol ysgogol. Caiff cynlluniau eu haddasu'n rheolaidd i ddilyn diddordebau'r plant, ac mae pwyslais cryfach ar ddatblygu medrau plant ar draws pob maes dysgu. Mae llawer o leoliadau'n gwneud defnydd gwell o'r amgylchedd awyr agored i ddatblygu medrau corfforol plant, fel balansio a defnyddio ystod o feiciau a sgwteri i ddatblygu cydsymud. Mewn ychydig o leoliadau, nid yw'r cynllunio'n adeiladu ar yr hyn y gall plant eisoes ei wneud, ac o ganlyniad nid yw gweithgareddau cynlluniedig yn cynnig lefel briodol o her ar gyfer grwpiau plant gwahanol. Mae llawer o leoliadau'n defnyddio ymweliadau ac ymwelwyr yn dda i ychwanegu at y profiadau a ddarperir, fel teithiau i sw lleol.

Cododd arolygwyr rai pryderon ynghylch safonau plant mewn datblygu'r Gymraeg mewn nifer o leoliadau cyfrwng Saesneg. Lle mae awdurdodau lleol yn ymateb i'n pryderon ac yn targedu cymorth ar gyfer lleoliadau, mae safonau yn gwella.

Mae dealltwriaeth a gwybodaeth gadarn am y Cyfnod Sylfaen gan y rhan fwyaf o ymarferwyr, ac maent yn rhoi hyn ar waith trwy gynnig cyfleoedd i blant wneud dewisiadau ynglŷn â'u dysgu. Mae ganddynt berthnasoedd cadarnhaol gyda phlant ac mae llawer ohonynt yn gweithredu fel modelau rôl iaith da. Mewn llawer o leoliadau, mae'r defnydd o weithwyr allweddol i ganolbwyntio ar grŵp o blant penodol wedi gwella ansawdd asesiadau. Mewn lleoliadau llai yn arbennig, fodd bynnag, nid yw ymarferwyr bob amser yn defnyddio'r wybodaeth hon yn ddigon da i gynllunio ar gyfer y camau nesaf yn nysgu'r plant.

Mae bron pob lleoliad yn darparu gofal, cymorth ac arweiniad da. Yn ogystal ag annog plant i fwyta'n iach a glanhau eu dannedd yn rheolaidd ar ôl bwyta byrbrydau, mae llawer o leoliadau'n darparu cyngor defnyddiol i rieni ynglŷn â byrbrydau a phecynnau bwyd iach. Mae'r rhan fwyaf o leoliadau'n darparu amgylchedd dysgu ysgogol ac mae plant yn teimlo'n gwbl ddiogel ym mhob lleoliad bron. Mae lleiafrif o leoliadau'n parhau i'w chael yn anodd ariannu adnoddau TGCh ac mae hyn yn rhwystro cynnydd plant.

**Ffigur 2.29: Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**



# Arweinyddiaeth a rheolaeth: lleoliadau i blant dan bump oed

Mae'r arweinyddiaeth yn dda neu'n well ym mron i naw o bob deg o'r lleoliadau a arolygwyd eleni. Yn y nifer fach iawn o leoliadau lle mae'r arweinyddiaeth yn rhagorol, ymrwymiad a gweledigaeth unigolyn sy'n ysgogi gwelliant yn aml yn hytrach na systemau a gweithdrefnau y gall lleoliadau eraill eu copïo'n hawdd.


Yn yr ychydig o leoliadau lle digonol yn unig yw'r arweinyddiaeth, mae arweinwyr yn araf yn derbyn neu'n gweithredu ar gyngor, ac ychydig o gyfleoedd y maent yn manteisio arnynt i wella arfer drwy hyfforddiant. O ganlyniad, nid yw profiadau dysgu a'r addysgu gystal ag y dylent fod, ac nid yw arweinwyr yn rhoi fawr o ystyriaeth i wella ansawdd addysg.

Yn un o bob pum lleoliad, mae sefydlu gweithdrefnau sicrhau ansawdd yn parhau i herio arweinwyr. Yn y lleoliadau hyn, nid yw arweinwyr yn defnyddio tystiolaeth uniongyrchol yn ddigon da i nodi beth mae angen iddynt ei wella. Mewn ychydig o leoliadau lle mae'r arweinyddiaeth yn dda ond digonol yn unig yw gwella ansawdd, mae'r arweinwyr yn gwybod beth sydd angen iddynt ei wneud i wella, maent yn gwybod sut i wneud hynny ac yn gallu dangos sut mae newidiadau wedi bod o fudd i blant. Fodd bynnag, nid yw'r arweinwyr hyn bob amser yn hyderus yn cofnodi beth maent yn ei wneud, ac o ganlyniad mae'r cynllunio ar gyfer gwella yn gymharol wan. Lle mae awdurdodau lleol wedi gwella medrau ymarferwyr yn defnyddio hunanarfarnu, mae wedi dod yn offeryn allweddol ar gyfer sicrhau gwelliannau go iawn.


Mae bron pob lleoliad yn gweithio'n galed i ddatblygu ystod addas o bartneriaethau i wella dysgu plant ac i hwyluso'r pontio i gyfnod addysg nesaf y plentyn.

Mae rhan fwyaf y lleoliadau a arolygwyd yn darparu gwerth da am arian. Ac eithrio offer TGCh, mae ganddynt adnoddau da yn gyffredinol a defnyddiant eu staff a'u hadnoddau'n briodol i gefnogi dysgu'r plant. Mewn ychydig o leoliadau, mae'r gofod i blant i ddysgu yn yr awyr agored yn gyfyngedig weithiau.

**Ffigur 2.30: Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**









# Adran 2: Adroddiad sector

## Gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc

Eleni, fe wnaethom arolygu gwasanaethau addysg ar gyfer plant a phobl ifanc mewn wyth awdurdod lleol. O'r rhain, roedd dau yn ailarolygiadau llawn o awdurdodau a oedd wedi'u gosod yn y categori mesurau arbennig gan Estyn yn flaenorol. Digonol yw perfformiad presennol yn hanner yr awdurdodau a arolygwyd, ac mae'n anfoddhaol yn yr hanner arall. Dim ond yn un o'r wyth awdurdod lleol y mae'r rhagolygon gwella yn dda at ei gilydd.

# Gweithgarwch dilynol: gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc

Mae angen gweithgarwch dilynol ar saith o'r wyth awdurdod lleol a arolygwyd gennym. Yn yr awdurdodau hyn, nid yw'r trefniadau ar gyfer cynorthwyo a herio ysgolion yn ddigon cadarn ac nid ydynt wedi cael digon o effaith ar wella deilliannau.


Mae angen rhoi mesurau arbennig ar waith mewn pedwar awdurdod er mwyn eu helpu i wella. Mae'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn anfoddhaol yn yr awdurdodau hyn. Nid yw trefniadau rheoli perfformiad yn cael eu rhoi ar waith yn ddigon effeithiol i ysgogi gwelliant. Nid yw aelodau etholedig yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i ddwyn gwasanaethau a swyddogion i gyfrif. Mewn tri o'r awdurdodau hyn, mae safonau'n anfoddhaol hefyd.

Bydd Estyn hefyd yn monitro ac yn adrodd ar gynnydd mewn tri awdurdod arall lle nad yw safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth ddim gwell na digonol. Prif nodwedd yr awdurdodau hyn yw nad yw perfformiad ysgolion yn cymharu'n ddigon da â pherfformiad ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Hefyd, nid yw cynlluniau'r awdurdodau hyn yn gosod targedau cadarn a ddylai arwain at welliant mesuradwy.

Yn ystod y flwyddyn hon, fe wnaethom fonitro'r cynnydd a wnaed mewn pedwar awdurdod arall o ganlyniad i'w harolygiad yn gynharach yn y cylch arolygu. Mae dau o'r awdurdodau hyn wedi gwella digon i'w tynnu o gategori gweithgarwch dilynol. Yn benodol, maent wedi mynd i'r afael â'r argymhellion yn eu hadroddiadau arolygu. Mae aelodau etholedig ac uwch swyddogion wedi cymryd camau effeithiol gyda'i gilydd i fynd i'r afael â materion. Mae ffocws manylach ar safonau, trefniadau gwell i gynorthwyo a herio ysgolion a darpariaeth well o wasanaethau yn gyffredinol.

Nid oedd y ddau awdurdod arall wedi gwneud digon o gynnydd yn mynd i'r afael â diffygion. O ganlyniad, tynnwyd un awdurdod o'r categori monitro gan Estyn a'i roi yn y categori a oedd yn ofynnol iddo wneud gwelliant sylweddol, a symudwyd yr awdurdod arall o'r categori gwelliant sylweddol i lawr i'r categori mesurau arbennig. Yn y ddau awdurdod, nid yw perfformiad mewn ysgolion uwchradd wedi gwella digon ac mae gormod o ysgolion yn cael eu nodi fel rhai sy'n peri pryder pan gânt eu harolygu. Nid yw'r awdurdodau wedi gwneud defnydd effeithiol o'u pwerau llawn i wella'r ysgolion hyn yn ddigon cyflym. Nid yw'r trefniadau ar gyfer hunanarfarnu yn ddigon trwyadl na gonest. Mae swyddogion awdurdodau lleol yn dibynnu gormod ar arolygiadau Estyn i farnu ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn eu hysgolion yn hytrach na gwneud trefniadau cadarn drostynt eu hunain. Nid yw systemau rheoli perfformiad a threfniadau craffu yn dwyn swyddogion n ac ysgolion i gyfrif yn ddigon effeithiol i sicrhau'r gwelliant angenrheidiol mewn safonau.

**Ffigur 2.31: Niferoedd yr awdurdodau lleol mewn categorïau gweithgarwch dilynol**



# Deilliannau: gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc

## Safonau

Dim ond mewn un o'r awdurdodau a arolygwyd gennym eleni y mae safonau'n dda. Maent yn ddigonol mewn pedwar awdurdod ac yn anfoddhaol yn y tri arall. Nid oes safonau rhagorol yn yr un o'r awdurdodau a arolygwyd eleni.

Yn yr awdurdod lle ceir safonau da, mae ysgolion yn perfformio'n dda o gymharu ag ysgolion tebyg ledled Cymru, gan ystyried ffactorau amddifadedd. Yn y ddwy flynedd diwethaf, mae'r awdurdod hwn wedi rhagori ar bob un o feincnodau Llywodraeth Cymru ar gyfer perfformiad yn seiliedig ar hawl i gael prydau ysgol am ddim. Hefyd, mae'r bwlch mewn perfformiad rhwng bechgyn a merched, a'r bwlch mewn perfformiad rhwng disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim a disgyblion eraill yn llai na'r cyfartaledd ledled Cymru. Mae grwpiau penodol o ddysgwyr, gan gynnwys dysgwyr sy'n agored i niwed a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau unigol. Mae sgorau darllen disgyblion wedi gwella'n raddol dros y blynyddoedd diwethaf. Mae llai o ddisgyblion yn gadael yr ysgol heb gymhwyster cydnabyddedig.

Yn yr awdurdodau hynny lle mae safonau ddim gwell na digonol neu'n anfoddhaol, mae gormod o ysgolion yn y 25% isaf ar gyfer perfformiad o gymharu ag ysgolion tebyg yng Nghymru. Yn gyffredinol, nid yw'r awdurdodau hyn yn perfformio'n dda yn erbyn meincnodau Llywodraeth Cymru. Mae cynnydd rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd yn is na'r cyfartaledd yn gyffredinol. Yn yr awdurdodau hynny lle mae perfformiad yn anfoddhaol, nid yw'r awdurdod yn gwybod a yw grwpiau o ddisgyblion sy'n agored i niwed yn perfformio'n ddigon da.

Yn oddeutu hanner yr awdurdodau a arolygwyd eleni, mae nifer rhy isel o ddysgwyr cymwys yn cael eu cofrestru ar gyfer TGAU llawn mewn Cymraeg ail iaith ar ddiwedd cyfnod allweddol 4, ac nid yw rhai yn cael eu cofrestru ar gyfer asesiad TGAU cwrs llawn na chwrs byr.

Ym mhob un o'r awdurdodau a arolygwyd, mae dysgwyr yn ennill ystod addas o gymwysterau heb fod yn rhai ffurfiol mewn ysgolion a lleoliadau gwasanaethau ieuenctid.

## Lles

Mae lles yn ddigonol mewn saith o'r wyth awdurdod a arolygwyd, ac yn anfoddhaol yn yr awdurdod arall. Mewn llawer o'r awdurdodau hyn, mae dysgwyr yn cyfranogi'n dda mewn ystod o weithgareddau sy'n cyfrannu at wella'u lles. Ym mhob un o'r wyth awdurdod a arolygwyd eleni, fodd bynnag, mae disgyblion yn colli gormod o ddiwrnodau o'r ysgol. Mewn chwech o'r awdurdodau a arolygwyd, nid yw presenoldeb yn yr ysgolion cynradd na'r ysgolion uwchradd yn cymharu'n ddigon da â phresenoldeb ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Yn rhan fwyaf yr awdurdodau, mae nifer y diwrnodau a gollir pan fydd disgyblion yn cael eu gwahardd o'r ysgol yn rhy uchel, hyd yn oed yn yr awdurdodau hynny lle mae nifer y gwaharddiadau yn gostwng.

Mae canran y disgyblion sy'n gadael Blwyddyn 11 nad ydynt yn gysylltiedig ag addysg, cyflogaeth na hyfforddiant wedi gostwng ym mhob un o'r awdurdodau a arolygwyd y llynedd. Fodd bynnag, nid yw hanner yr awdurdodau yn lleihau'r niferoedd yn ddigon cyflym.

**Ffigur 2.32: Niferoedd yr awdurdodau lleol a barnau ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**



# Darpariaeth – cymorth i wella ysgolion

Mae'r gwasanaethau gwella ysgolion yn cwmpasu cyfrifoldeb statudol yr awdurdod ar gyfer cynorthwyo, monitro, herio ac ymyrryd yn ei ysgolion yn ogystal â chodi safonau mewn meysydd blaenoriaeth a gwella'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth.

O'r wyth awdurdod lleol a arolygwyd eleni, mae'r cymorth ar gyfer gwella ysgolion yn ddigonol mewn pedwar awdurdod ac yn anfoddhaol yn y pedwar arall.

Er Medi 2012, mae Llywodraeth Cymru wedi mynnu bod awdurdodau lleol yn cydweithio mewn pedwar consortiwm rhanbarthol i gyflwyno'u gwasanaethau gwella ysgolion. Mewn tri o'r awdurdodau a arolygwyd eleni, mae'r consortia rhanbarthol wedi dechrau cael effaith o ran gwella cysondeb yr her mewn ysgolion, gwella'r defnydd o ddata perfformiad i nodi ysgolion sy'n tanberfformio, a chategoreiddio ysgolion yn ôl risg yn fwy trwyadl. Yn yr awdurdodau eraill a arolygwyd, fodd bynnag, nid yw'r consortia rhanbarthol yn cael effaith ar y ddarpariaeth ar gyfer gwella ysgolion eto. Nid yw un awdurdod wedi cydweithio'n ddigon da â'r consortiwm i wella cyflwyno trefniadau gwella ysgolion yn effeithiol. Mewn awdurdod arall, nid oedd y consortiwm wedi dechrau ei waith adeg cynnal yr arolygiad.

Mae swyddogion mewn llawer o'r awdurdodau a arolygwyd eleni wedi gwella trylwyrdeb a chysondeb eu her i ysgolion trwy ddefnyddio fframwaith consortiwm rhanbarthol i ddosbarthu ysgolion yn ôl risg ac i gynllunio ymyriadau priodol. Ym mwyafrif yr awdurdodau, mae swyddogion yn defnyddio ystod dda o ddadansoddiadau data i gyfrannu at y categoreiddio hwn a nodi'n gywir yr ysgolion y mae angen cymorth arnynt. Yn gyffredinol, mae penaethiaid yn deall y categori y mae eu hysgol ynddo, er eu bod yn llai eglur ynghylch lefel a natur y cymorth y byddant yn ei gael o ganlyniad i hynny. Mewn lleiafrif o ysgolion, fodd bynnag, mae'r categoreiddio'n rhy hael ac nid yw'n herio'r ysgol i wella.

Nid yw ychydig o awdurdodau lleol yn gwneud y defnydd gorau o'r gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol am eu bod wedi cadw neu gomisiynu swyddogion ychwanegol neu ymgynghorwyr nad yw eu gwaith wedi'i gynllunio mewn partneriaeth â'r gwasanaeth rhanbarthol.

Mae gan y rhan fwyaf o awdurdodau raglen o adolygiadau o'u hysgolion, rhai ohonynt wedi'u comisiynu gan y consortia rhanbarthol hynny a oedd ar waith adeg ein harolygiad. Mewn ychydig o awdurdodau, fodd bynnag, mae amseru'r adolygiadau hyn yn dibynnu gormod ar baratoi ysgolion ar gyfer cylch arolygu Estyn yn hytrach na chanolbwyntio ar yr ysgolion hynny y mae angen iddynt wella fwyaf. Mewn llawer o'r awdurdodau a arolygwyd eleni, mae gormod o ysgolion wedi mynd i mewn i'r categori gwelliant sylweddol neu'r categori mesurau arbennig yn dilyn arolygiad gan Estyn. Mewn ychydig o'r ysgolion hyn, nid oedd swyddogion yn ymwybodol o'r problemau a arweiniodd at osod yr ysgol mewn categori gweithgarwch dilynol.

Yn rhan fwyaf yr awdurdodau, nid yw gwaith swyddogion yn cael ei reoli'n ddigon da i sicrhau eu bod yn cynnig her gyson a chadarn i ysgolion. Mae ansawdd eu hadroddiadau ysgrifenedig ar ysgolion yn amrywio gormod. Mae gormod ohonynt yn mynd ati i ddisgrifio darpariaeth yn unig yn hytrach nag arfarnu safonau a meysydd i'w gwella. Dim ond ychydig iawn o awdurdodau sy'n darparu arfarniadau clir o ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth mewn ysgolion. O ganlyniad, nid yw ysgolion yn glir ynghylch beth sydd angen iddynt ei wella, ac nid yw lleiafrif o ysgolion yn gwella'n ddigon cyflym. Nid yw ychydig o awdurdodau lleol yn gwneud y defnydd gorau o'r gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol am eu bod yn cadw neu'n comisiynu swyddogion ychwanegol neu ymgynghorwyr nad yw eu gwaith yn cael ei gynllunio mewn partneriaeth â'r gwasanaeth rhanbarthol.

Mae pob un o'r awdurdodau wedi sefydlu mentrau i wella llythrennedd. Yn hanner yr awdurdodau, fodd bynnag, nid yw'r cymorth ar gyfer rhifedd wedi'i ddatblygu gystal. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau yn cefnogi rhaglenni ymyrraeth ar gyfer y rheini y mae angen iddynt wella'u medrau sylfaenol, er nad yw swyddogion yn hanner yr awdurdodau yn olrhain cynnydd disgyblion yn ddigon da i wybod a ydynt yn parhau i wella ar ôl iddynt gwblhau'r rhaglenni hyn.

Mae mwyafrif yr awdurdodau yn darparu cymorth da ar gyfer arweinwyr ysgol newydd, er bod llai o gyfleoedd hyfforddi ar gyfer arweinwyr canol. Mae llywodraethwyr yn cael cynnig ystod briodol o hyfforddiant ym mhob un o'r awdurdodau. Yn gyffredinol, fodd bynnag, nid yw swyddogion yn darparu digon o hyfforddiant penodol ar gyfer cyrff llywodraethol ysgolion sy'n tanberfformio.

**Figur 2.33: Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd yng Nghwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r cymorth ar gyfer gwella ysgolion (dangosydd ansawdd 2.1)?**



# Darpariaeth – cymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiant addysgol

Mae'r maes gwasanaeth hwn yn cynnwys bodloni rhwymedigaethau statudol ar gyfer dysgwyr ag ystod o anghenion dysgu ychwanegol a chydlynu'r ddarpariaeth ar gyfer y dysgwyr hyn.

Mae gan bedwar awdurdod wasanaethau anghenion dysgu ychwanegol sy'n dda, mae gwasanaethau dau awdurdod yn ddigonol, a gwasanaethau dau awdurdod yn anfoddhaol.

Lle mae'r cymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn dda, mae awdurdodau yn cynhyrchu cynlluniau clir i wella darpariaeth ymhellach. Mae cynlluniau'n seiliedig ar ddadansoddiad manwl o gryfderau a meysydd i'w gwella.

Mae systemau a dulliau o olrhain a monitro cynnydd disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn amrywio gormod rhwng awdurdodau lleol. Hyd yn oed lle mae'r ddarpariaeth ar gyfer ADY yn dda, ac eithrio mewn un awdurdod, nid yw'r defnydd o ddata i lywio'r cynllunio strategol wedi'i ddatblygu'n ddigonol. O ganlyniad, mae diffyg cymorth amserol a darpariaeth ar gyfer rhai grwpiau o ddisgyblion ag ADY. Yn yr enghraifft orau, mae cynnydd disgyblion yn cael ei ddadansoddi'n dda dros gyfnod, a defnyddir hyn yn dda wrth gynllunio ar gyfer gwelliant.

Mewn llawer o'r awdurdodau lleol, mae'r cysylltiad rhwng gwasanaethau ADY a gwasanaethau gwella ysgolion yn amrywio o ran effeithiolrwydd. Nid yw gwasanaethau gwella ysgolion bob amser yn canolbwyntio ar ysgolion nac yn herio ysgolion mewn perthynas â deilliannau neu ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mewn ychydig o awdurdodau, mae hyn wedi arwain at ddryswch ynghylch ai gwasanaethau anghenion dysgu ychwanegol neu wasanaethau gwella ysgolion sy'n gyfrifol am ddadansoddi data ADY. O ganlyniad, nid yw swyddogion yn gallu pennu'n ddigon clir beth yw effaith gwasanaethau ar ddeilliannau ar gyfer disgyblion.

Yn yr awdurdodau hynny y barnwyd eu bod yn ddigonol neu'n anfoddhaol, nid oedd unrhyw dystiolaeth glir o weithio ar y cyd rhwng y gwasanaethau gwella ysgolion a'r gwasanaethau ADY. Mae'r gwasanaethau gwella ysgolion yn cael eu cyflwyno ar lefel consortia tra bod y gwasanaethau ADY yn cael eu cyflwyno'n uniongyrchol gan awdurdodau lleol.

Mewn llawer o'r awdurdodau lleol, mae partneriaethau â rhieni yn dda. Cânt gymorth ac arweiniad effeithiol gan swyddogion ar weithdrefnau statudol. Mae'r wybodaeth a ddarperir yn ddefnyddiol. Mae mwyafrif yr awdurdodau lleol yn darparu hyfforddiant i rieni ar ystod o faterion yn gysylltiedig ag ADY, ac mae ychydig ohonynt wedi sefydlu sesiynau galw heibio. Mae rhieni'n adrodd i arolygwyr eu bod yn gwerthfawrogi'r gwasanaethau hyn. Mewn ychydig o awdurdodau, mae rhieni'n cael eu cynnwys yn natblygiad strategol ADY. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, mae gwybodaeth i rieni'n anodd ei chael ac nid ydynt yn glir ynghylch pa wasanaethau y mae ganddynt hawl i'w cael.

**Ffigur 2.34: Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd yng Nghwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r cymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol (dangosydd ansawdd 2.2)?**



# Darpariaeth – hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a lles

Mae hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a lles yn cynnwys gwasanaethau sy'n hyrwyddo presenoldeb da, yn atal disgyblion rhag cael eu gwahardd o'r ysgol, yn cynorthwyo grwpiau o ddysgwyr sy'n agored i niwed ac yn cynnig mynediad i bobl ifanc at arweiniad a chymorth priodol. Mae'r ddarpariaeth hon hefyd yn cynnwys trefniadau i gadw pob dysgwr yn ddiogel. O'r wyth awdurdod a arolygwyd, mae pedwar yn ddigonol a phedwar yn anfoddhaol.

Dim ond lleiafrif o awdurdodau lleol sydd â strategaethau sy'n cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd. Mae'r awdurdodau hyn yn monitro data presenoldeb yn rheolaidd ac yn ei ddefnyddio'n dda i dargedu ymyriadau'n briodol. Mae swyddogion yn gweithio'n dda gydag ysgolion a phartneriaid eraill fel gweithwyr ieuenctid, gweithwyr iechyd, gweithwyr cymdeithasol, yr heddlu ac ynadon i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol presenoldeb gwael.

Mae gan fwyafrif yr awdurdodau lleol wasanaethau priodol yn eu lle i hyrwyddo ymddygiad da ac atal disgyblion rhag cael eu gwahardd o'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau hyn wedi bod yn gwbl effeithiol o ran lleihau nifer y diwrnodau y bydd rhai disgyblion yn eu colli o'r ysgol oherwydd eu bod wedi'u gwahardd. Mae ychydig o awdurdodau yn rhy araf yn cyflwyno strategaethau i wella ymddygiad disgyblion ac i arfarnu a yw'r rhain yn gweithio'n ddigon effeithiol.

Mae gwasanaethau ieuenctid yn rhan fwyaf yr awdurdodau lleol yn cyfrannu'n dda at hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a lles. Caiff ystod eang o wasanaethau cymorth ieuenctid ehangach ei darparu ym mhob awdurdod. Nid yw effaith gyffredinol y gwasanaethau hyn, fodd bynnag, yn cael ei harfarnu'n ddigon da ac ni all yr awdurdod fod yn siŵr bod y ddarpariaeth yn bodloni anghenion pobl ifanc. Er enghraifft, rydym yn gwybod bod gwasanaethau cwnsela yn dda neu'n rhagorol yn y rhan fwyaf o awdurdodau am eu bod yn cael eu harfarnu'n dda. Fodd bynnag, mae gwaith i fynd i'r afael â bwlio ac anghydraddoldebau yn cael ei arfarnu'n wael yn aml.

Mewn lleiafrif o awdurdodau, nid yw strategaethau'n ddigon da i leihau cyfran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yn y sector ôl-16. Dim ond ychydig o awdurdodau lleol sy'n gweithio'n dda â phartneriaid i asesu, o oed cynnar, y risg y bydd disgyblion yn mynd yn NEET pan fyddant yn gadael yr ysgol. Maent yn darparu gwasanaethau ataliol a gwasanaethau ymyrryd mewn ymateb i'r dadansoddiad risg hwn ac yn parhau i olrhain pobl ifanc yn fanwl pan fyddant yn cwblhau addysg orfodol.

Nid yw trefniadau diogelu yn bodloni'r gofynion statudol yn hanner yr awdurdodau lleol a arolygwyd eleni, ac maent yn peri pryder. Er bod polisïau a gweithdrefnau priodol gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, nid yw uwch reolwyr yn sicrhau ansawdd gweithredu'r rhain yn dda. Er enghraifft, nid yw systemau i sicrhau bod pob aelod o staff perthnasol, gan gynnwys y rhai mewn gwasanaethau wedi'u comisiynu, wedi cael gwiriadau diweddar yn ddigon effeithiol bob amser.

**Ffigur 2.35: Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd yng Nghwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda mae cynhwysiant cymdeithasol a lles yn cael eu hyrwyddo (dangosydd ansawdd 2.3)?**



# Darpariaeth – Mynediad a lleoedd ysgol

Mae'r maes gwasanaeth hwn yn cynnwys derbyn disgyblion i ysgolion, cynllunio lleoedd ysgol a mynediad at addysg y blynyddoedd cynnar a gwasanaethau cymorth ieuenctid. O'r wyth o awdurdodau a arolygwyd, mae tri yn dda ac mae pump yn ddigonol.

Mae pob un o'r awdurdodau lleol wedi cytuno ar gynlluniau i leihau lleoedd dros ben mewn ysgolion. Yn rhyw hanner yr awdurdodau, fodd bynnag, mae lleoedd dros ben yn parhau'n rhy uchel, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd. Mewn lleiafrif o awdurdodau, nid yw swyddogion wedi mynd ati'n ddigon da i ddadansoddi'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg, ac felly nid ydynt wedi cynllunio'n ddigon da i fodloni'r galw hwnnw.

Ym mhob awdurdod lleol bron, mae'r trefniadau ar gyfer asesu cynhwysedd, addasrwydd a digonolrwydd adeiladau ysgol yn dda, ac maent yn galluogi swyddogion i gynllunio ar gyfer gwaith cynnal a chadw ac adeiladau newydd yn dda.

Mae gan bob awdurdod lleol ystod briodol o ddarpariaeth y blynyddoedd cynnar, er nad yw digon o awdurdodau lleol yn ystyried lleoliadau nas cynhelir pan fyddant yn cynllunio lleoedd i blant tair oed. Mae mwyafrif yr awdurdodau yn monitro safonau ac ansawdd y ddarpariaeth mewn lleoliadau'r blynyddoedd cynnar yn dda.

Mae ystod gynhwysfawr o wasanaethau cymorth ieuenctid yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol i sicrhau bod pobl ifanc yn cael mynediad da at eu hawliau i addysg briodol, hyfforddiant, a phrofiadau gwaith, i wasanaethau cwnsela a chyngor, i weithgareddau chwaraeon, diwylliannol a chymdeithasol a chyfleoedd i gyfranogi mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Fodd bynnag, nid oes gwybodaeth ddiweddar am y gwasanaethau hyn gan swyddogion mewn ychydig iawn o awdurdodau, ac ni allant fod yn siŵr bod yr hyn maent yn ei ddarparu yn bodloni anghenion dysgwyr.

# Arweinyddiaeth a rheolaeth: gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc

Mae'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn ddigonol mewn pedwar awdurdod; yn yr awdurdodau hyn, mae gan arweinwyr ac aelodau etholedig allweddol weledigaeth ac ymrwymiad i addysg, sy'n golygu eu bod yn deall yr heriau y maent yn eu hwynebu i wella deilliannau ar gyfer dysgwyr. Mewn lleiafrif o awdurdodau, maent wedi bod yn barod i wneud penderfyniadau anodd i fynd i'r afael ag ad-drefnu ysgolion, materion staffio a materion ariannol. Yn yr awdurdodau hyn, mae effaith craffu yn gwella, ac mae aelodau etholedig wedi cynyddu lefel yr her i swyddogion ac ysgolion er mwyn codi safonau.

Yn y pedwar awdurdod lle mae'r arweinyddiaeth yn anfoddhaol, mae arweinwyr wedi bod yn rhy araf yn adnabod yr angen am welliant. Nid yw trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad yn cael eu rhoi ar waith yn ddigon cyson, ac nid yw swyddogion ac arweinwyr ysgolion yn cael eu dwyn i gyfrif yn ddigon da. Mewn ychydig o awdurdodau, mae diffyg capasiti mewn cyfarwyddiaethau addysg wedi'i gwneud yn anodd mynd i'r afael â thanberfformiad mewn ysgolion a gwasanaethau awdurdodau lleol yn ddigon cyflym.

**Ffigur 2.36: Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd yng Nghwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer mynediad a lleoedd ysgol (dangosydd ansawdd 2.4)?**



Mewn lleiafrif o awdurdodau, nid yw trefniadau cynllunio corfforaethol yn nodi cyfleoedd ar gyfer gwella yn ddigon clir, er enghraifft, i sicrhau trefniadau diogelu effeithiol, i gynllunio addysg cyfrwng Cymraeg ac i wella'r ddarpariaeth ar gyfer y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Yn hanner yr awdurdodau a arolygwyd, nid yw gwelliannau cadarn yn ansawdd cynllunio corfforaethol yn cael eu hadlewyrchu yn y cynllunio ar lefel cyfarwyddiaethau addysg. Nid yw cynlluniau gwasanaethau yn cynnwys digon o fanylder ac nid yw targedau addysg yn ddigon heriol. O ganlyniad, nid yw swyddogion yn deall effaith lawn eu gwaith nac yn pennu blaenoriaethau priodol.

Mewn llawer o awdurdodau, nid yw adroddiadau i aelodau etholedig yn cynnwys digon o fanylion, ac nid yw aelodau yn gweld data ar berfformiad ysgolion penodol unigol. O ganlyniad, fel rhan o'r broses graffu, nid yw swyddogion ac ysgolion yn cael eu dwyn i gyfrif yn llawn na'u herio i anelu'n uwch.

Mae gan fwyafrif yr awdurdodau a arolygwyd brosesau corfforaethol clir ar gyfer hunanarfarnu a mecanweithiau sefydledig i fonitro perfformiad. Mewn llawer o awdurdodau, fodd bynnag, mae'r broses hon yn canolbwyntio mwy ar gofnodi a yw prosesau a chamau gweithredu wedi'u cwblhau yn hytrach na mesur eu heffaith. Dim ond mewn ychydig o awdurdodau y mae swyddogion yn arfarnu effaith mentrau penodol yn ddigon da. Nid oes prosesau hunanarfarnu cadarn ar waith gan awdurdodau eraill, ac mae ychydig ohonynt yn dibynnu gormod ar arfarnu allanol a her gan arolygwyr, rheoleiddwyr ac ymgynghorwyr. Mae llawer o'r adroddiadau hunanarfarnu a gwblhawyd gan yr awdurdodau hyn cyn arolygiad yn ddisgrifiadol gan mwyaf. Nid oes digon o hunanarfarnu o dystiolaeth uniongyrchol yn yr adroddiadau, ac nid ydynt yn nodi meysydd i'w gwella yn ddigon cywir.

Mewn llawer o awdurdodau, nid yw data perfformiad ar gyfer grwpiau sy'n agored i niwed yn cael ei gasglu'n ddigon mynych. O ganlyniad, nid yw swyddogion yn gwybod ble y dylid targedu ymyriadau orau, a pha un a yw'r ddarpariaeth yn bodloni anghenion dysgwyr yn briodol.

Mae cynnydd wedi bod yn rhy araf mewn llawer o awdurdodau o ran mynd i'r afael ag argymhellion pwysig o arolygiadau blaenorol. Mae'r rhain yn cynnwys materion yn ymwneud â gwella deilliannau ar gyfer dysgwyr yn ogystal â diogelu.

Mae gweithio mewn partneriaeth yn dda mewn dau o'r awdurdodau a arolygwyd eleni, ac yn ddigonol yn y chwech arall. Lle barnwyd ei fod yn dda, mae ystod eang o bartneriaid priodol yn gweithio'n dda â'i gilydd i wella safonau a chyfleoedd i ddisgyblion a'u teuluoedd, yn enwedig ar gyfer teuluoedd sy'n agored i niwed. Mae swyddogion yn defnyddio systemau gwybodaeth reoli yn dda i arfarnu effeithiolrwydd y cymorth hwn.

Lle mae'r ddarpariaeth yn ddigonol yn unig, nid yw'r awdurdod yn defnyddio partneriaethau strategol allweddol yn ddigon da i gyflawni blaenoriaethau corfforaethol. Nid yw asiantaethau partner yn gwybod sut gallant gyfrannu orau at wella safonau. Nid yw safonau mewn addysg yn cael eu hadrodd fel rhan o'r drefn arferol i'r bwrdd gwasanaethau lleol nac i'r bartneriaeth plant a phobl ifanc.

Mae systemau da ar gyfer cynllunio ariannol gan lawer o awdurdodau. Mae rhan fwyaf yr awdurdodau wedi gwella'u gwaith o fonitro cyllidebau ac yn herio ysgolion yn briodol i leihau diffygion a gwargedion. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o awdurdodau yn gallu dangos pa mor effeithiol ac effeithlon y mae cyllid yn cael ei ddefnyddio i ddiwallu anghenion pob dysgwr.

**Ffigur 2.37: Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd yng Nghwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**








# Adran 2: Adroddiad sector
## Sefydliadau addysg bellach


Ar hyn o bryd, mae 13 o sefydliadau addysg bellach yn darparu addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae'r nifer hon yn llai na'r llynedd ar ôl i Goleg Glannau Dyfrdwy a Choleg Iâl uno i ffurfio Coleg Cambria, ar ôl i Goleg Morgannwg a Choleg Ystrad Mynach uno i ffurfio Coleg Y Cymoedd ac ar ôl i Goleg Castell-nedd Port Talbot a Choleg Powys uno i ffurfio Grŵp NPTC Group. Fe wnaethom arolygu tri sefydliad eleni.

Yn 2012-2013, roedd 47,435 o ddysgwyr amser llawn yn ymgymryd ag addysg neu hyfforddiant yn y sefydliadau. Mae hyn yn cymharu â 45,470 yn 2011-2012. Yn yr un cyfnod, roedd 109,110 o ddysgwyr rhan-amser yn mynychu rhaglenni, sy'n ostyngiad o 7.3% o gymharu â 117,755 yn y flwyddyn flaenorol. Mae'r gyfran hon yn debyg iawn i gyfran y flwyddyn flaenorol. Mae niferoedd tebyg o fechgyn a merched yn cofrestru ar gyrsiau amser llawn, ond mae 18% yn fwy o ferched na bechgyn yn cofrestru ar gyrsiau rhan-amser.[10]


# Gweithgarwch dilynol: sefydliadau addysg bellach

Nodwyd bod arfer ragorol gan ddau ddarparwr. Mae trefniadau partneriaeth rhagorol sy'n gwella deilliannau ar gyfer dysgwyr yn nodwedd gyffredin yn y darparwyr hyn.





**Ffigur 38: Niferoedd y darparwyr mewn categorïau gweithgarwch dilynol**




[10] SDR 207/2013 - Addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu cymunedol yng Nghymru, 2012/13 (ffigurau dros dro), Llywodraeth Cymru http://wales.gov.uk/statistics-and-research/further-education-work-based-learning-community-learning/?skip=1&lang=cy

# Deilliannau: sefydliadau addysg bellach

## Safonau

Mae mwyafrif y dysgwyr yn cofrestru ar gyrsiau ar lefelau 1 neu 2. Ym meysydd technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ac iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal y mae'r niferoedd uchaf o gofrestriadau. Mae cyfraddau'r dysgwyr o ran aros ar raglenni a chyflawni'u cymwysterau wedi cynyddu dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Ym mhob un o'r sefydliadau, mae cyfraddau'r dysgwyr o ran ennill Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn dda. Mae'r meysydd dysgu lle mae dysgwyr yn cyflawni orau yn cynnwys lletygarwch ac arlwyo a manwerthu a gwasanaeth cwsmeriaid.

Mae safonau'n dda mewn dau o'r sefydliadau a arolygwyd, ac yn ddigonol yn un ohonynt. Yn y sefydliadau lle mae safonau'n dda, mae cyfraddau'r dysgwyr o ran cwblhau ac ennill eu cymwysterau yn uwch na chyfraddau sefydliadau eraill. Mae'r sefydliadau hyn wedi dangos tuedd o welliant mewn safonau mewn llawer o feysydd dysgu dros y tair blynedd diwethaf. Hyd yn oed yn y trydydd sefydliad, y barnwyd mai digonol oedd ei safonau, mae cyfraddau llwyddo yn dangos tuedd o welliant yn ddiweddar. Ym mhob un o'r sefydliadau a arolygwyd, mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd da tuag at gwblhau'u rhaglenni.

At ei gilydd, mae cyfradd dysgwyr o ran cyflawni cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru yn dda. Mewn dau sefydliad, mae dysgwyr yn datblygu'u medrau llythrennedd yn dda yn ystod eu rhaglen. Fodd bynnag, yn y sefydliad y barnwyd ei fod yn ddigonol, nid oes digon o ddysgwyr yn datblygu medrau sillafu, atalnodi a gramadeg trwy gydol eu cwrs i'r safon ddisgwyliedig.

## Lles

Ym mhob un o'r sefydliadau, mae dysgwyr yn gwneud cynnydd da neu ddigonol o ran datblygu'u gwybodaeth a'u cymhwysedd ymarferol mewn meysydd dysgu. Mae llawer o ddysgwyr yn cyfranogi ac yn cyfrannu'n dda yn y dosbarth ac mewn gweithdai.

Mae safonau lles yn dda ym mhob un o'r tri sefydliad. Mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael cymorth da gan athrawon a staff eraill. Siaradant yn gadarnhaol am y cynnydd maent yn ei wneud. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn frwdfrydig ac yn llawn cymhelliant i gwblhau'u rhaglen a symud ymlaen i'r lefel nesaf. Mae mwyafrif y dysgwyr amser llawn yn cyfranogi'n dda mewn ystod eang o weithgareddau ychwanegol, gan gynnwys clybiau, digwyddiadau elusen a chwaraeon. Ym mhob un o'r tri sefydliad, mae ymddygiad mewn dosbarthiadau, gweithdai ac o amgylch y campws yn dda iawn.

**Ffigur 39: Niferoedd y darparwyr a barnau ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**



# Darpariaeth: sefydliadau addysg bellach

Mae'r ddarpariaeth yn dda mewn dau sefydliad ac yn ddigonol yn un ohonynt. Mae pob un o'r sefydliadau a arolygwyd yn cynnig ystod gynhwysfawr o raglenni academaidd a galwedigaethol sydd, i raddau amrywiol, yn bodloni anghenion dysgwyr, cyflogwyr a'r gymuned ehangach, gan gynnwys Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ac ystod eang o bynciau Safon Uwch. Fodd bynnag, nid yw gwybodaeth am y farchnad lafur yn cael ei defnyddio'n effeithiol bob amser i gydweddu rhaglenni â chyfleoedd cyflogaeth ac anghenion diwydiant. Mae'r tri sefydliad yn cyflwyno rhaglenni sy'n darparu cyfleoedd da i ddysgwyr symud ymlaen i'r lefel nesaf. Bu rhai gwelliannau o ran hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg, a chynnydd yn y ddarpariaeth ddwyieithog. Mae pob sefydliad yn cynnig cyfleoedd da i ddysgwyr ddatblygu'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Yn y rhan fwyaf o raglenni, caiff addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang ei chyflwyno gyda'r prif bwnc, gan ddefnyddio astudiaethau achos sy'n benodol i'r maes dysgu yn aml. Yn gyffredinol, mae athrawon yn y tri sefydliad yn integreiddio medrau hanfodol yn dda i raglenni.

Mae perthnasoedd rhwng athrawon a dysgwyr yn dda. Mae athrawon yn adnabod eu dysgwyr yn dda, ac yn gyffredinol maent yn rhoi lefelau da o gymorth personol iddynt. Mae gwybodaeth bynciol ddiweddar a phrofiad galwedigaethol da gan yr athrawon. Defnyddiant y profiad hwn i helpu dysgwyr i ddatblygu'u gwybodaeth a'u medrau galwedigaethol. Fodd bynnag, nid ydynt yn herio dysgwyr bob amser i ddatblygu medrau a gwybodaeth ymarferol ar lefel uwch. Yn gyffredinol, mae dysgwyr yn symud ymlaen at gymwysterau lefel uwch lle bo'n briodol.

Mae sefydliadau yn cynnal asesiadau cychwynnol o'r rhan fwyaf o ddysgwyr ar ddechrau'u rhaglen, er mwyn nodi'u lefelau llythrennedd a rhifedd ac i nodi anghenion cymorth unigol. Mewn llawer o achosion, mae dysgwyr yn cael cymorth priodol sy'n eu galluogi i wella'u llythrennedd a'u rhifedd, ac i ennill eu cymwysterau.

Mae'r addysgu yn dda mewn dau o'r sefydliadau ac yn ddigonol yn y llall. Lle barnwyd bod yr addysgu yn dda, mae hyn oherwydd bod athrawon yn cynllunio sesiynau yn dda ac yn defnyddio ystod gynhwysfawr o strategaethau i ennyn diddordeb dysgwyr. Mae athrawon yn cyflwyno'r sesiynau hyn ar gyflymder da, ac yn ennyn diddordeb ac yn herio dysgwyr gan ddefnyddio ystod eang o weithgareddau. Defnyddir strategaethau gwella llythrennedd yn dda i helpu dysgwyr i wella'u medrau. Nid yw athrawon yn cymhwyso'r strategaethau hyn yn gyson, fodd bynnag, ac nid oes digon o ragoriaeth yn ansawdd yr addysgu yn y tri sefydliad.

Lle mae diffygion yn yr addysgu, y rheswm am hyn yw bod rhediad sesiynau yn rhy araf yn aml, mae dysgwyr yn eistedd yn oddefol am gyfnodau rhy hir ac mae'r technegau ar gyfer holi dysgwyr a rhyngweithio â nhw yn gyfyngedig.

Mae trefniadau da gan bob un o'r sefydliad ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad i ddysgwyr. Maent yn hyrwyddo buddion iechyd a lles yn dda i'r dysgwyr. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o ba wasanaethau cymorth sydd ar gael iddynt. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer diogelu yn briodol.

Mae'r adeiladau i ddysgwyr eu defnyddio ar gyfer gwaith ac i gymdeithasu yn dda, ac yn rhagorol weithiau. Ceir adnoddau da yn y rhan fwyaf o ystafelloedd dosbarth a gweithdai ymarferol, ac mae offer TGCh priodol ynddynt. Yn y tri sefydliad, mae athrawon a dysgwyr yn gweithio mewn amgylchedd croesawgar gydag ethos cefnogol a chynhwysol.

**Ffigur 40: Niferoedd y darparwyr a barnau ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**



# Arweinyddiaeth a rheolaeth: sefydliadau addysg bellach

Mae'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn dda yn y tri sefydliad.  Mae uwch arweinwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i bennu a sefydlu blaenoriaethau a thargedau strategol clir.  Mae eu rolau a'u cyfrifoldebau yn glir ac mae rheolwyr ar bob lefel yn eu deall.  Mae uwch reolwyr wedi pennu blaenoriaethau clir i wella'r addysgu a'r dysgu, ac adlewyrchir y rhain yn y duedd o wella a welir o ran dysgwyr yn cyflawni'u cymwysterau. Yn gyffredinol, mae cyfathrebu da rhwng rheolwyr a staff ar bob lefel.  Fodd bynnag, nid yw rheolwyr yn gwneud digon i helpu athrawon i gyflawni rhagoriaeth yn eu medrau addysgu.

Mae'r trefniadau ar gyfer gwella ansawdd yn dda mewn dau sefydliad, ac yn ddigonol yn y llall.  Mae'r sefydliadau gwell yn gwneud defnydd da o ddata cymaryddion cenedlaethol i feincnodi'u perfformiad yn erbyn perfformiad sefydliadau eraill.  Mae ganddynt drefniadau cynhwysfawr ar gyfer hunanasesu'u perfformiad; mae'r rhain yn drefniadau parhaus sydd wedi'u datblygu'n dda, ac maent yn bwydo i'r broses cynllunio strategol.  Gwneir defnydd effeithiol o ystod o ddata gan reolwyr i ddadansoddi deilliannau dysgwyr.  Defnyddiant y wybodaeth hon yn dda i lywio'r cynllunio i osod targedau ar gyfer gwella.  Mae staff yn ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus (DPP), gan gynnwys cynnal profiad perthnasol a diweddar o'r gweithle. Mae'r gweithgareddau hyn yn rhoi blaenoriaeth i wella'r addysgu a'r dysgu.  Eto, er ei fod yn flaenoriaeth uchel, nid yw ansawdd yr addysgu a'r dysgu ar draws meysydd dysgu wedi gwella'n sylweddol.

Mae gan lywodraethwyr yn y tri sefydliad ddealltwriaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Cyfrannant ystod eang o fedrau a phrofiad amrywiol, ac maent yn cefnogi'r penaethiaid a'r uwch dimau rheoli yn dda.  Mewn un sefydliad, fodd bynnag, nid yw'r llywodraethwyr yn cynnig digon o her ar lefel cyrsiau, yn enwedig lle mae cyrsiau'n tanberfformio.


Mae gweithio mewn partneriaeth yn rhagorol mewn dau sefydliad, ac yn dda yn y trydydd.  Datblygwyd partneriaethau gydag awdurdodau lleol, ysgolion, cyflogwyr a'r gymuned ehangach, yn enwedig mewn perthynas â rhwydweithiau dysgu 14-19, fel y gall dysgwyr fanteisio ar yr ystod ehangaf a mwyaf priodol o gyrsiau.

Mae trefniadau rheoli adnoddau yn dda yn y tri sefydliad,  a defnyddir cyllid, staff ac adeiladau ac adnoddau dysgu yn dda i sicrhau bod dysgwyr yn cael yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i wella a chwblhau'u cyrsiau.

**Ffigur 41:  Niferoedd y darparwyr a barnau ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**









# Adran 2:
# Adroddiad sector
## Dysgu yn y gwaith

Yn 2012-2013, roedd 24 o gontractwyr arweiniol mewn dysgu yn y gwaith (DYYG). Roedd 61,120 o ddysgwyr yn dilyn rhaglenni dysgu yn y gwaith, sef cynnydd o 14% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. O'r dysgwyr hyn, roedd 18,705 yn gwneud prentisiaethau, roedd 23,355 yn gwneud prentisiaethau sylfaen, roedd 2,470 yn gwneud prentisiaethau uwch, roedd 8,180 yn gwneud hyfforddeiaethau, a 5,030 yn dilyn rhaglenni camau at waith. Roedd 3,380 o ddysgwyr yn dilyn rhaglenni eraill.[11]

Eleni, fe wnaethom arolygu pump o ddarparwyr dysgu yn y gwaith.

# Gweithgarwch dilynol: dysgu yn y gwaith

Mae angen gweithgarwch dilynol ar ddau ddarparwr. Bydd un darparwr yn cael ailarolygiad a bydd Estyn yn adolygu cynnydd un darparwr ryw 18 mis ar ôl dyddiad ei arolygiad.

Mae'r diffygion sy'n cyfrannu at yr angen am weithgarwch dilynol yn cynnwys deilliannau gwael, ansawdd anghyson yn yr addysgu a'r asesu, systemau ansawdd anghyson a monitro gwael o ran aelodau consortia ac isgontractwyr.

Eleni, gofynnom i un darparwr ddarparu astudiaeth achos o arfer ragorol ar sut y mae wedi cyflawni cyfraddau llwyddo cyson uchel, wedi rhoi ffocws cadarn ar wella ansawdd yn barhaus a chyflawni arweinyddiaeth glir ac effeithiol a gefnogir gan gyfathrebu rhagorol ar draws ei holl ddarpariaeth ei hun, partneriaid a rhanddeiliaid.





**Ffigur 42: Niferoedd y darparwyr mewn categorïau gweithgarwch dilynol**




[11] SDR 207/2013 - Addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu cymunedol yng Nghymru, 2012/13 (ffigurau dros dro), Llywodraeth Cymru http://wales.gov.uk/statistics-and-research/further-education-work-based-learning-community-learning/?skip=1&lang=cy

# Deilliannau: dysgu yn y gwaith

## Safonau

At ei gilydd, barnwyd bod perfformiad yn rhagorol yn un darparwr, yn dda yn un darparwr, yn ddigonol mewn dau ac yn anfoddhaol yn un darparwr.

Yn gyffredinol, yn y rheolaeth ar isgontractwyr ac wrth weithredu systemau i sicrhau ansawdd y mae'r diffygion mwyaf o hyd.

Mae'r ystadegau cyhoeddedig diweddaraf ar ddeilliannau dysgwyr mewn darparwyr DYYG yn cynnwys data ar gyfer Cymru am y cyfnod 2011-2012. Cyfraddau llwyddo'r fframwaith DYYG oedd 86% ac 84% mewn rhaglenni prentisiaeth a rhaglenni prentisiaeth sylfaen yn y drefn honno.

Ar lefel sector, roedd y gyfradd lwyddo ar gyfer prentisiaethau yn uwch nag ar gyfer prentisiaethau sylfaen. Fe wnaeth pob maes dysgu ragori ar ofyniad contractiol Llywodraeth Cymru, sef llwyddiant o 70% yn y fframwaith.

At ei gilydd, y meysydd a berfformiodd orau oedd addysg a hyfforddiant; busnes, gweinyddiaeth a'r gyfraith; peirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu; a manwerthu a gwasanaethau cwsmeriaid.

Mae dadansoddiad o gyrchfannau dysgwyr, yn ystod y cyfnod tri mis yn dilyn diwedd hyfforddeiaeth neu'r rhaglen camau at waith, yn dangos bod 63% o ymadawyr o raglenni hyfforddeiaeth wedi symud ymlaen yn gadarnhaol at gyflogaeth, gan gynnwys hunangyflogaeth neu waith gwirfoddol, neu at ddysgu ar lefel uwch, a bod 50% o'r rhai a adawodd raglenni camau at waith wedi symud ymlaen yn gadarnhaol.

Mae safonau'n ddigonol mewn dau ddarparwr, yn dda mewn un darparwr ac yn anfoddhaol mewn un darparwr. Ceir safonau rhagorol mewn un darparwr arbenigol yn sgil cyfradd lwyddo o 100% ar gyfer y dysgwyr yn y fframwaith llawn.

Yn y ddau ddarparwr y barnwyd eu bod yn rhagorol neu'n dda, mae dysgwyr yn cyflawni cyfraddau cwblhau uchel yn eu fframweithiau cymwysterau o fewn eu nifer dynodedig o wythnosau hyfforddi, ac yn cyflawni lefelau uchel o ran medrau allweddol a medrau sylfaenol. Mae dysgwyr mwy galluog yn datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh ar lefelau uchel priodol.

Lle mae safonau'n ddigonol yn unig neu'n anfoddhaol, nid yw dysgwyr yn cwblhau'u fframweithiau cymwysterau o fewn y graddfeydd amser cytûn. Mae gormod o ddysgwyr yn methu â datblygu neu wella'u medrau llythrennedd neu rifedd yn ddigon da yn ystod eu hyfforddiant, neu'n methu â datblygu eu medrau ysgrifennu'n effeithiol.

## Lles

Mae lles yn rhagorol mewn dau ddarparwr ac yn dda mewn tri darparwr. Mae lefelau presenoldeb dysgwyr yn dda, a chyfranogant yn dda mewn sesiynau hyfforddi ac yn y gweithle. Mae agweddau cadarnhaol at fyw'n iach gan y dysgwyr, maent yn mwynhau'u hyfforddiant ac yn gwella'u hunanhyder a'u hunan-barch.

Yn y darparwyr lle mae lles yn ddigonol yn unig, neu'n anfoddhaol, mae presenoldeb yn wael yn aml. Yn yr achosion hyn, mae agwedd negyddol at eu hyfforddiant gan lawer o ddysgwyr, ac nid ydynt yn cyfranogi'n llawn yn eu sesiynau hyfforddi.

### Cydweithio i wella lles ar gyfer dysgu yn y gwaith

Mae Partneriaeth Sgiliau Galwedigaethol wedi creu gwefan syml yn cynnwys trafodaeth ac arweiniad fel bod dysgwyr erbyn hyn yn gallu cael y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen arnynt i reoli eu lles eu hunain.

I gael rhagor o wybodaeth am hyn, cliciwch ar yr astudiaeth achos

**Ffigur 43: Niferoedd y darparwyr a barnau ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**



# Darpariaeth: dysgu yn y gwaith

Barnodd arolygwyr bod darpariaeth ragorol mewn dau ddarparwr, bod darpariaeth dda mewn un darparwr a bod darpariaeth ddigonol mewn dau ddarparwr.

Mae darparwyr rhagorol neu dda yn cyflwyno ystod briodol o raglenni hyfforddi ar lefelau sy'n cynnig cyfleoedd da i ddysgwyr symud ymlaen at lefelau hyfforddiant uwch. Mae'r darparwyr hyn yn rhoi pwyslais cryf ar ddatblygu medrau dysgwyr a hyrwyddo datblygiad y Gymraeg ac addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang.

Yn y darparwyr sy'n dda neu'n well, mae disgwyliadau uchel gan athrawon a hyfforddwyr. Maent yn herio ac yn cymell y dysgwyr, yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau ysgogol ac yn defnyddio techneg holi yn effeithiol i archwilio ac ymestyn gwybodaeth a medrau dysgwyr. Caiff dysgwyr eu hannog i ddatblygu medrau dysgu annibynnol trwy waith gwirfoddol, prosiectau cymunedol ac ymchwil ddesg ychwanegol. Mae gweithdrefnau asesu priodol yn nodi cyflawniad ac yn rhoi prawf ar lefel dealltwriaeth y dysgwyr. Rhoddir adborth ffurfiol ac anffurfiol rheolaidd i ddysgwyr ar eu perfformiad a gweithgareddau asesu sy'n eu helpu i wella'u gwaith yn llwyddiannus.

Nid yw darparwyr sydd ddim gwell na digonol neu'n anfoddhaol yn darparu digon o ehangder yn eu rhaglenni i fodloni anghenion dysgwyr yn llawn, ac nid ydynt yn datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn ddigon da. Nid yw darparwyr yn datblygu medrau damcaniaethol a medrau ymarferol dysgwyr yn ddigon da, ac nid ydynt yn darparu help systematig i wella medrau sylfaenol a hanfodol y dysgwyr. Ni chynigir cyfleoedd i ddysgwyr mwy galluog i ddatblygu medrau lefel uwch. Yn rhy aml, mae ansawdd a chysondeb yr asesu ac adborth yn wael.


Nid yw llawer o ddarparwyr yn mynd ati'n ddigon da i ddadansoddi anghenion Cymraeg dysgwyr, ac nid yw pob un o'r darparwyr yn annog dysgwyr Cymraeg eu hiaith i ymgymryd â hyfforddiant ac asesu yn Gymraeg. Mae llawer o ddarparwyr yn methu â chynnig digon o gyfleoedd i brentisiaid ddatblygu'u gwybodaeth am ddiwylliant a nodweddion hanesyddol Cymru.

### Mae'r byd i gyd o'u blaenau

Yn ISA Training, mae Strategaeth Oyster wedi creu rhaglen ar gyfer datblygu medrau er mwyn pontio'r bwlch i ddysgwyr rhwng y medrau sydd eu hangen ar gyfer rhaglenni lefel 2 a lefel 3. Mae hyn wedi galluogi dysgwyr i gaffael yr aeddfedrwydd angenrheidiol i gwblhau prentisiaeth uwch yn llwyddiannus.

I gael rhagor o wybodaeth am hyn, cliciwch ar yr astudiaeth achos

**Ffigur 44: Niferoedd y darparwyr a barnau ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**



# Arweinyddiaeth a rheolaeth: dysgu yn y gwaith

Mae ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn amrywio'n fawr. Mae dau ddarparwr yn rhagorol, mae un darparwr yn dda, mae un darparwr yn ddigonol ac un yn anfoddhaol.

Yn y ddau ddarparwr lle mae'r arweinyddiaeth yn rhagorol, mae arweinyddiaeth glir a strategol sy'n gosod amcanion a thargedau heriol ar gyfer y sefydliad. Mae arweinwyr yn defnyddio ystod gynhwysfawr o weithdrefnau sicrhau ansawdd a systemau gwybodaeth reoli i fonitro pob agwedd ar eu perfformiad eu hunain, perfformiad eu partneriaid ac isgontractwyr, oherwydd ar hyn o bryd nid yw data'n cael ei gasglu na'i adrodd yn genedlaethol ar berfformiad isgontractwyr. Mae hunanasesu yn rhan annatod o gynllunio strategol y darparwyr, gan gynnwys y Cynllun Datblygu Ansawdd. Mae'r cynllunio hwn yn cynnwys pob partner a rhanddeiliad, ac yn nodi'n glir y cryfderau a'r diffygion a'r camau unioni sydd eu hangen i sicrhau gwelliant. Mae gwaith partneriaeth cynhyrchiol yn y darparwyr ar lefel strategol a gweithredol, ac mae hyn yn effeithio'n gadarnhaol ar safonau dysgwyr. Mae rolau a chyfrifoldebau rheolwyr a'r staff yn glir ac mae dealltwriaeth dda ohonynt. Mae rheolwyr yn defnyddio data'n gadarn fel rhan o'r trefniadau rheoli perfformiad er mwyn monitro a herio staff. Eir i'r afael yn dda â thanberfformiad staff, gan ddefnyddio rhaglenni datblygu staff fel y bo'n briodol.

Yn y darparwyr lle mae'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn ddigonol yn unig, neu'n anfoddhaol, nid ydynt wedi llunio strategaethau clir ar gyfer y sefydliad, ac nid ydynt yn cyfleu nodau ac amcanion yn glir. Nid yw'r hunanasesu yn nodi'n glir beth yw'r diffygion a'r camau i fynd i'r afael â nhw, ac nid yw ychwaith yn cynnwys yr holl bartneriaid a rhanddeiliaid. Yn aml, nid yw systemau i sicrhau ansawdd hyfforddiant ac asesu wedi'u datblygu'n ddigonol, ac nid yw darparwyr arweiniol a'u hisgontractwyr yn gweithio'n ddigon da â'i gilydd bob amser i wella safonau ar gyfer dysgwyr. Yn y darparwyr y barnwyd eu bod yn ddigonol neu'n anfoddhaol, nid oes ganddynt systemau cadarn ar gyfer arfarnu a monitro pob agwedd ar berfformiad eu hisgontractwyr. Hefyd, nid yw systemau rheoli perfformiad yn ddigon trwyadl ac mae cyfleoedd ar gyfer datblygiad staff yn gyfyngedig.

**Ffigur 45: Niferoedd y darparwyr a barnau ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**









# Adran 2: Adroddiad sector
## Dysgu oedolion yn y gymuned

Mae 16 o bartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned yng Nghymru. Mae'r partneriaethau hyn, sy'n seiliedig ar ardaloedd yr awdurdodau lleol, yn cynnwys ystod o ddarparwyr, fel colegau addysg bellach, yr awdurdod lleol, canolfannau iaith Gymraeg, Cymdeithas Addysg y Gweithwyr, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a chyrff gwirfoddol lleol.

Mae tri sefydliad addysg bellach arall hefyd yn darparu dysgu oedolion yn y gymuned. Y sefydliadau hyn yw Cymdeithas Addysg y Gweithwyr De Cymru, Cymdeithas Addysg y Gweithwyr Gogledd Cymru Coleg Harlech, a Choleg Cymunedol YMCA Cymru.

Mae tri phrif ddull o gyflwyno dysgu oedolion yn y gymuned. Sefydliadau addysg bellach yw'r prif ddarparwyr, ac maent yn cyflwyno dros hanner yr holl ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned yng Nghymru yn uniongyrchol. Maent yn cyflwyno 23% arall trwy drefniadau breinio gydag 11 o awdurdodau lleol. Hefyd, mae 14 o awdurdodau lleol yn cyflwyno 22% arall o'r ddarpariaeth yn uniongyrchol.

Fe wnaethom arolygu tair partneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned eleni, yng Nghastell-nedd Port Talbot, Caerdydd ac ym Mro Morgannwg.


## Gweithgarwch dilynol: dysgu oedolion yn y gymuned

Mae angen monitro pob un o'r partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned a arolygwyd eleni, gan mai digonol neu anfoddhaol yw'r perfformiad presennol.

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliom ymweliadau monitro hefyd â thair o bartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned lle barnwyd bod perfformiad naill ai'n ddigonol neu'n anfoddhaol. At ei gilydd, mae pob un o'r partneriaethau hyn wedi dangos gallu da i wella ac wedi gwneud cynnydd da o ran mynd i'r afael â'r argymhellion o arolygiadau. Maent wedi gwella'r safonau a gyflawnir gan ddysgwyr, ansawdd y ddarpariaeth a'u harweinyddiaeth a'u rheolaeth. Mewn un bartneriaeth, mae uwch reolwyr strategol wedi gweithio'n dda i adolygu trefniadau ar gyfer darparu adnoddau i'r bartneriaeth er mwyn cynnal y ddarpariaeth ac ansawdd. Yn un arall, mae'r bartneriaeth wedi llunio set o safonau ar gyfer ansawdd a diogelu, ynghyd â fframwaith comisiynu er mwyn gwella'r ddarpariaeth i oedolion. Mae'r fframwaith comisiynu yn amlinellu meini prawf cymhwysedd ar gyfer darparwyr i wneud cynnig am gyllid gan y bartneriaeth. Mae hyn yn helpu'r bartneriaeth i nodi'r darparwyr mwyaf priodol i gyflwyno agweddau penodol ar ddarpariaeth, yn seiliedig ar anghenion dysgwyr sy'n oedolion. Mae'r gwaith hwn ymhlith y gorau yn y sector. Mae'r drydedd bartneriaeth yn gweithio'n dda i hyrwyddo a gwella'r defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng addysgu a dysgu.

Mae uwch reolwyr yn y tair partneriaeth y buom yn eu monitro eleni wedi dangos arweinyddiaeth dda i helpu'u partneriaethau priodol weithredu argymhellion o arolygiadau blaenorol. Ym mhob achos, maent wedi gweithio'n dda i ddarparu cyfeiriad clir a gwella'u ffocws ar feysydd gwaith blaenoriaeth. Maent wedi cydweithio'n dda â'i gilydd i ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithiol, ac wedi gwella'r rheolaeth ar eu gwaith partneriaeth.

**Ffigur 46: Niferoedd y darparwyr mewn categorïau gweithgarwch dilynol**



# Deilliannau: dysgu oedolion yn y gymuned

## Safonau

Mae ystadegau Llywodraeth Cymru yn dangos bod darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned wedi gwella cyfraddau llwyddo ar gyfer dysgwyr o 2009 i 2012. Mae awdurdodau lleol wedi gwella cyfraddau llwyddo naw pwynt canran i 74%. At ei gilydd, mae sefydliadau addysg bellach wedi gwella cyfraddau llwyddo ar eu rhaglenni breiniol bum pwynt canran. Fodd bynnag, mae'r gyfradd lwyddo wedi aros ar 76% yn y ddwy flynedd diwethaf. Y gyfradd lwyddo gyffredinol ar gyfer darpariaeth yn cael ei chyflwyno'n uniongyrchol gan sefydliadau addysg bellach yw'r uchaf yn y sector, sef 86%. Fe wnaeth hyn ostwng un pwynt canran, fodd bynnag, yn y ddwy flynedd y bu data cymharol ar gael ar eu cyfer.

Mae safonau'n ddigonol mewn un bartneriaeth a arolygwyd gennym eleni, ond maent yn anfoddhaol yn y ddwy bartneriaeth arall.

Ym mhob un o'r tri maes, mae gormod o ddysgwyr yn methu â chwblhau eu cyrsiau'n llwyddiannus, a chynnydd araf y mae llawer o ddysgwyr yn ei wneud. Mae gormod o ddysgwyr yn aros ar yr un cwrs ar yr un lefel am gyfnod rhy hir. Nid yw'r dysgwyr hyn yn datblygu'r medrau'n ddigon da i barhau â'u dysgu heb gymorth yr athro. Yn y tri maes, nid yw dysgwyr yn gwneud defnydd da o gynlluniau dysgu unigol i osod amcanion dysgu iddynt eu hunain neu i gofnodi eu cynnydd. Nid ydynt yn deall pwysigrwydd cynllunio'u dysgu ac adolygu'r hyn y maent wedi'i ddysgu er mwyn mesur eu cynnydd. Ym mhob un o'r tri maes, nid yw dysgwyr yn datblygu eu dealltwriaeth o ddiwylliant Cymru yn ddigon da.

## Lles

Mae lles y dysgwyr yn dda mewn dwy bartneriaeth ac yn ddigonol yn y drydedd. Lle mae lles yn dda, mae llawer o ddysgwyr yn llawn cymhelliant a defnyddiant eu gwybodaeth a'u medrau i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol. Er enghraifft, mae dysgwyr yn arwain clybiau darllen a chlybiau chwaraeon i blant, neu'n defnyddio'u medrau coginio i ddarparu'r arlwyo ar gyfer digwyddiadau cymunedol. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae dysgwyr wedi gwella'u dealltwriaeth o sut i gadw'n heini ac yn iach. Mewn ychydig o achosion, mae dysgwyr wedi ffurfio clybiau annibynnol yn llwyddiannus i ymestyn a gwella eu dysgu.

**Ffigur 47: Niferoedd y darparwyr a barnau ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**



# Darpariaeth: dysgu oedolion yn y gymuned

Mae darpariaeth ddigonol mewn un bartneriaeth ac yn anfoddhaol yn y ddwy bartneriaeth arall.

Lle'r oedd y ddarpariaeth yn ddigonol, mae'r cwricwlwm yn bodloni anghenion y rhan fwyaf o'r dysgwyr a'r gymuned yn dda. Mae'r bartneriaeth yn rhoi ffocws hanner ei darpariaeth ar helpu dysgwyr i wella eu medrau llythrennedd a rhifedd, iechyd a rhagolygon cyflogaeth.

Fodd bynnag, yn y ddwy bartneriaeth arall, mae'r cwricwlwm yn cyfateb yn wael i anghenion y gymuned a blaenoriaethau cenedlaethol gan nad yw'r partneriaethau hyn wedi cynnal dadansoddiad systematig o anghenion dysgwyr. Nid oes gan yr un o'r ddwy bartneriaeth hon ddigon o ddarpariaeth i helpu oedolion i wella eu medrau sylfaenol.

Ym mhob un o'r tri maes a arolygwyd eleni, nid yw partneriaethau'n amlinellu mewn cynlluniau strategol sut y maent yn bwriadu gwella safonau llythrennedd a rhifedd dysgwyr ym mhob pwnc.

Mae ansawdd yr addysgu'n ddigonol yn y tair partneriaeth. Mae mwyafrif yr athrawon yn cymhwyso'u gwybodaeth bynciol yn dda i gynllunio gwersi ysgogol. Gwna'r athrawon hyn yn siŵr bod y dysgu'n cynnal diddordeb y dysgwyr. Defnyddiant ystod eang o ddulliau a gweithgareddau addysgu sy'n herio'r dysgwyr, ac maent yn defnyddio gwaith mewn parau a gwaith grŵp yn dda i helpu dysgwyr gael cipolygon a dealltwriaeth newydd. Mewn lleiafrif o achosion, nid yw tiwtoriaid yn cynllunio gwersi'n ddigon da ac ystod gyfyngedig o ddulliau addysgu a ddefnyddir ganddynt. At ei gilydd, nid yw athrawon yn helpu dysgwyr i wneud defnydd da o gynlluniau dysgu unigol i'w helpu i ddeall y cynnydd maent yn ei wneud.

Nid yw'r un o'r partneriaethau yn nodi anghenion dysgu ychwanegol oedolion yn ddigon da. O ganlyniad, nid yw dysgwyr yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt bob amser i wneud cynnydd. Nid yw'r partneriaethau ychwaith yn monitro pa mor dda mae'r cymorth a gynigir ganddynt yn helpu dysgwyr i wneud cynnydd. Mae hyn yn golygu nad ydynt yn gwybod a yw'r cymorth yn effeithiol neu beidio.

Nid yw dwy o'r partneriaethau yn cynnig cydraddoldeb mynediad at y cwricwlwm i bob dysgwr: yn benodol, nid ydynt yn recriwtio digon o ddysgwyr o ardaloedd difreintiedig, cymunedau lleiafrifoedd ethnig, neu'r rhai 19 i 60 oed. Byddai'r dysgwyr hyn yn elwa ar gyrsiau a fyddai'n eu helpu i wneud cynnydd yn eu haddysg a'u cyflogaeth, yn ogystal â chyfrannu at eu lles.

**Ffigur 48: Niferoedd y darparwyr a barnau ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**



# Arweinyddiaeth a rheolaeth: dysgu oedolion yn y gymuned

Mae ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn ddigonol yn un bartneriaeth, ac yn anfoddhaol yn y ddwy bartneriaeth arall.

Yn gyffredinol, nid yw uwch reolwyr yn cynnig arweinyddiaeth glir i'r partneriaethau. Lle mae'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn anfoddhaol, nid yw rheolwyr y partneriaethau yn cynllunio'n ddigon strategol. Nid ydynt yn rhoi digon o sylw i fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol ac anghenion cymunedol. Nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigon da ar nodi a recriwtio'r grwpiau hynny o ddysgwyr sy'n flaenoriaeth mewn polisïau cenedlaethol, na'r dysgwyr hynny y mae angen dysgu oedolion arnynt fwyaf am na wnaeth eu profiad addysg cychwynnol eu paratoi'n dda ar gyfer dysgu pellach neu gyflogaeth. Nid yw'r rheolwyr yn yr un o'r partneriaethau yn rhoi digon o sylw i'r safonau a gyflawnir gan ddysgwyr.

Mae'r trefniadau ar gyfer gwella perfformiad yn anfoddhaol yn y tair partneriaeth. Nid yw'r hunanasesu'n ddigon cadarn i nodi cryfderau neu feysydd i'w gwella. O ganlyniad, nid oes gan reolwyr ddealltwriaeth dda o berfformiad presennol eu partneriaeth i allu cynllunio gwelliannau arno ar gyfer y dyfodol. Mae cynlluniau gwella'n wael, nid ydynt yn cynnwys digon o dargedau mesuradwy, mae graddfeydd amser ar gyfer gwella yn ansicr, ac mae'r trefniadau'n aneffeithiol ar gyfer mesur pa mor dda mae'r partneriaethau'n gwella. Nid yw systemau ar gyfer gwella'r addysgu yn ddigon trwyadl i helpu pob un o'r athrawon i wella eu gwaith.


Mae'r trefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn dda yn un o'r partneriaethau. Mae partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i drefnu'r cwricwlwm a'r ddarpariaeth. Mae'r bartneriaeth hon yn gweithio'n dda gydag ystod eang o sefydliadau lleol i drefnu cyrsiau, recriwtio dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig a helpu dysgwyr i oresgyn rhwystrau rhag dysgu, fel iechyd gwael neu lefelau isel o fedrau a chymwysterau. Fodd bynnag, mae'r trefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn anfoddhaol yn y ddwy bartneriaeth arall. Nid yw rheolwyr strategol yn gosod cyfeiriad clir ar gyfer y partneriaethau hyn. O ganlyniad, nid yw partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd yn ddigon da i gynllunio cyrsiau, recriwtio dysgwyr a mynd i'r afael â meysydd gwaith blaenoriaeth.

Mae un bartneriaeth yn gweithio'n dda i sicrhau cyllid o amrywiaeth o ffynonellau er mwyn cyflawni'i gwaith a dyrannu cyllid i'w blaenoriaethau. Yn y ddwy bartneriaeth arall, nid oes gan y rheolwyr ddealltwriaeth dda o'r adnoddau sydd ar gael i gyflwyno dysgu oedolion, ac mae hyn yn golygu nad ydynt bob amser yn cydweddu adnoddau â blaenoriaethau'n ddigon da.

**Ffigur 49: Niferoedd y darparwyr a barnau ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**









# Adran 2: Adroddiad sector

## Dysgu yn y sector Cyfiawnder

Eleni, fe wnaethom arolygu'r dysgu a medrau ym mhob un o'r pedwar carchar yng Nghymru. Arweiniwyd yr arolygiadau gan Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, gan ddefnyddio'u safonau nhw ar gyfer arolygu, o'r enw 'Disgwyliadau'. Cyhoeddir yr adroddiadau arolygu ar wefan Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi http://www.justice.gov.uk/about/hmi-prisons.

Mae poblogaethau carchardai yn amrywio trwy gydol y flwyddyn. Gall carcharorion fynychu addysg ar sail amser llawn neu'n rhan-amser. Adeg yr arolygiadau, roedd poblogaeth o 2,916 yng ngharchardai Cymru, gyda rhyw 678 o leoedd addysg amser llawn. Mae'r ffigur hwn yn gyfystyr â 23% o boblogaeth y carchardai. Mae carchardai hefyd yn darparu gwaith, hyfforddiant a gweithgareddau eraill fel addysg gorfforol y gellir eu hachredu. Er bod safonau ar gyfer y carcharorion hynny sydd mewn addysg amser llawn yn dda neu'n well, mae'n destun siom bod cymaint o garcharorion yn methu ag ymgysylltu â darpariaeth addysg.

# Deilliannau: dysgu yn y sector Cyfiawnder

## Safonau

Ym mhob un o'r carchardai a arolygwyd gennym, mae'r deilliannau ar gyfer dysgwyr yn dda neu'n well.

Ar gyrsiau galwedigaethol, mae rhan fwyaf y dysgwyr yn cwblhau eu dysgu'n llwyddiannus ac yn ennill cymwysterau perthnasol. Mae dysgwyr yn datblygu medrau technegol da ac yn cynhyrchu gwaith o safon uchel iawn. Yn un carchar, maent yn datblygu medrau arbenigol fel cerfio pren a phlastro addurnol.

Ar draws pob un o'r pedwar carchar, mae cyfraddau llwyddo ar gyrsiau medrau hanfodol yn dda, ac mae cyrhaeddiad yn uchel er nad yw'r holl garcharorion yn cael eu sgrinio ar gyfer medrau sylfaenol pan fyddant yn mynd i mewn i'r carchar. Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr hynny sy'n mynychu dosbarthiadau yn datblygu'u medrau llythrennedd a rhifedd yn dda. Nid yw ychydig ohonynt yn cael eu herio digon gan y gwaith yn eu dosbarthiadau ac maent yn dilyn cymwysterau sy'n rhy hawdd iddynt. Er enghraifft, mae ychydig o garcharorion sydd eisoes yn meddu ar gymhwyster TGAU yn Saesneg yn dilyn cymwysterau Llythrennedd ar Lefel 1.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu eu medrau cyfathrebu yn dda iawn. Siaradant yn glir ac maent yn hyderus i fynegi a chefnogi'u barnau. Mae carcharorion sy'n fentoriaid cymheiriaid yn datblygu'u medrau ehangach a'u medrau allweddol yn dda iawn.

## Lles

Mae llawer o ddysgwyr yn datblygu eu medrau cymdeithasol a phersonol trwy gyrsiau fel rheoli arian a datblygiad plant. Maent yn gwella eu lles trwy ddosbarthiadau mewn celf, crochenwaith ac ysgrifennu creadigol. Mae lleiafrif o garcharorion yn gwella eu medrau chwilio am waith a'u technegau cyfweld. Mae'r cyfleoedd hyn yn eu helpu i fagu eu hyder, ac yn cynyddu eu medrau cyflogadwyedd.

At ei gilydd, mae presenoldeb dysgwyr mewn dosbarthiadau addysg yn dda. Yn rhy aml, fodd bynnag, maent yn cyrraedd dosbarthiadau yn hwyr, ac mae hyn yn cael effaith negyddol ar eu dysgu a'u cymhelliant.

### Darparu dyfodol galwedigaethol i ddysgwyr

Mae gan CEM Brynbuga yn Sir Fynwy drefn a luniwyd i leihau'r risg a'r niwed sy'n cael eu hachosi gan unrhyw enghraifft o aildroseddu. Mae'r carchar yn rhoi i ddysgwyr fedrau galwedigaethol amrywiol er mwyn gwella eu cyflogadwyedd ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.

I gael rhagor o wybodaeth am hyn, cliciwch ar yr astudiaeth achos

# Darpariaeth: dysgu yn y sector Cyfiawnder

Mae ystod eang o brofiadau dysgu yn cael eu cynnig yng ngharchardai Cymru. Mae'r dysgu yn hyblyg ac yn cael ei gynnig mewn unedau achrededig byr sy'n rhoi ystyriaeth dda i hyd dedfryd y carcharor. Cynigir darpariaeth dda i'r rheini ag anghenion medrau sylfaenol. Mae rheolwyr yn defnyddio gwybodaeth am y farchnad lafur yn dda i ddatblygu cyrsiau perthnasol, fel y cyrsiau mewn gwaith cynnal a chadw rheilffyrdd, amaethyddiaeth neu argraffu digidol. Mae gweithdai yn creu amgylchedd gweithio go iawn ac yn paratoi'r dysgwyr yn dda ar gyfer cyflogaeth.

At ei gilydd, mae safonau'r addysgu yn dda. Mae'r rhan fwyaf o'r tiwtoriaid yn defnyddio ystod eang o ddulliau addysgu i gyflwyno sesiynau diddorol. Maent yn asesu diddordebau, galluoedd ac anghenion dysgu'r dysgwyr yn dda. Lle mae sesiynau'n hir, mae'r tiwtoriaid yn cynllunio'n dda, a gwneir newidiadau mynych i weithgareddau dysgu er mwyn cynnal diddordeb y dysgwyr.

Mae llawer o diwtoriaid yn gwella ymwybyddiaeth dysgwyr o ddiwylliant, hanes ac economi Cymru. Fodd bynnag, nid oes strategaeth glir gan yr un o'r carchardai i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.

Mae carcharorion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael cymorth effeithiol, er enghraifft, trwy ddefnyddio mentoriaid hyfforddedig i gynnig cymorth un-i-un.

Mae cyngor annibynnol ar yrfaoedd yn helpu llawer o garcharorion i wneud cynlluniau realistig, er bod ychydig ohonynt yn cael y cyngor yn rhy hwyr yn eu dedfryd i wneud hynny.

# Arweinyddiaeth a rheolaeth: dysgu yn y sector Cyfiawnder

Mae'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth ar ddysgu a medrau yn y carchardai yn dda. Mae uwch reolwyr yn datblygu cynlluniau clir sy'n canolbwyntio'n dda ar rôl addysg yn lleihau aildroseddu. Mae rheolwyr yn defnyddio data ar ddysgwyr unigol yn dda i wella cyfraddau llwyddo ac i ganfod pam maent yn methu â chwblhau eu cyrsiau. Fodd bynnag, nid yw rheolwyr yn mynd ati'n ddigon da i gasglu na dadansoddi data ar raddfa anghenion medrau sylfaenol y carcharorion na'r cynnydd y maent yn ei wneud o ran datblygu'r rhain er mwyn llywio cynllunio strategol.

Mae uwch reolwyr yn cynllunio darpariaeth yn dda ac yn gwneud yn siŵr y bydd unrhyw gyrsiau y maent yn eu cyflwyno yn helpu carcharorion i ddod o hyd i gyflogaeth ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.


Mae'r trefniadau ar gyfer gwella ansawdd addysg wedi'u sefydlu'n dda. Mae staff yn cyfarfod yn rheolaidd i adolygu'r dysgu sy'n cael ei gynnig. Gwrandawant yn ofalus ar farnau carcharorion, ac maent yn eu cynnwys mewn gweithgareddau gwella ansawdd.

Mae'r rhan fwyaf o'r carchardai yn dangos ymrwymiad da i hyfforddi a datblygu eu staff addysgu. Mae llawer o diwtoriaid yn cwblhau cymwysterau ychwanegol sy'n eu helpu i wella ansawdd y dysgu a gynigir.

Mae pob un o'r carchardai yn datblygu partneriaethau cadarn gyda chyflogwyr lleol a chenedlaethol, a gyda mentrau cymdeithasol, ac mae hyn yn helpu i hyrwyddo ac annog cyflogaeth ar gyfer carcharorion sy'n dychwelyd i'r gymuned. Maent hefyd yn ehangu'r adnoddau sydd ar gael mewn carchardai ar gyfer dysgu a medrau. Yn un carchar, mae partneriaethau da iawn gydag elusennau iechyd lleol yn gwella lles dysgwyr.

Y prif ddiffyg yn yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth yw nad yw uwch reolwyr y carchardai bob amser yn darparu digon o gyfleoedd dysgu i'r nifer o garcharorion sydd eu hangen.







# **Adran 3:** Sylwadau ar berfformiad

# Allwedd i'r derminoleg a ddefnyddir

| Allwedd i’r derminoleg a ddefnyddir | |
|---|---|
| Pynciau craidd | Saesneg neu Gymraeg mamiaith, mathemateg a gwyddoniaeth |
| Y Cyfnod Sylfaen | Mae hyn wedi disodli cyfnod allweddol 1 ar gyfer plant pump i saith oed. Caiff plant eu hasesu yn saith oed a disgwylir iddynt gyflawni deilliant 5. |
| Cyfnod allweddol 2 | Ar gyfer plant saith i 11 oed. Caiff disgyblion eu hasesu yn 11 oed a disgwylir iddynt gyflawni lefel 4. |
| Cyfnod allweddol 3 | I blant 11 i 14 oed. Caiff disgyblion eu hasesu yn 14 oed a disgwylir iddynt gyflawni lefel 5. |
| Cyfnod allweddol 4 | I blant 14 i 16 oed |
| Trothwy lefel 2 | Mae hyn yn cynnwys cymwysterau TGAU ac ystod o gymwysterau cyfwerth nad ydynt yn rhai TGAU, gan gynnwys cymwysterau galwedigaethol, ac mae’n cynrychioli swm o gymwysterau ar lefel 2 sydd gyfwerth â phum cymhwyster TGAU graddau A*-C. |
| Trothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg | Mae hyn yn cynnwys cymwysterau TGAU ac ystod o gymwysterau cyfwerth nad ydynt yn rhai TGAU, gan gynnwys cymwysterau galwedigaethol. Mae’n cynrychioli swm o gymwysterau ar lefel 2 sydd gyfwerth â phum cymhwyster TGAU graddau A*-C, ac mae’n cynnwys cymwysterau TGAU mewn Saesneg neu Gymraeg mamiaith ar raddau A*-C hefyd. |
| Dangosydd pwnc craidd | Mae hyn yn ymwneud â’r perfformiad disgwyliedig mewn Saesneg neu Gymraeg mamiaith, mathemateg a gwyddoniaeth gyda’i gilydd. |
| Trothwy lefel 3 | Mae hyn yn cynnwys deilliannau Safon Uwch a’r ystod lawn o gymwysterau lefel 3 ac mae’n cynrychioli swm o gymwysterau ar lefel 3 sydd gyfwerth â swm dwy lefel ar raddau A-E. |
| Sgôr pwyntiau ehangach | Mae’r sgôr hon yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd i’w defnyddio yng Nghymru. |
| Cyfraddau llwyddiant | Mae’r rhain yn nodi nifer y dysgwyr sy’n ennill cymhwyster fel canran o’r rhai a ddechreuodd y cwrs. |


# Perfformiad disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen[12]

2013 yw'r ail flwyddyn i'r holl blant saith oed yng Nghymru gael eu hasesu gan eu hathrawon yn erbyn deilliannau'r Cyfnod Sylfaen yn hytrach na lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Disgwylir i ddisgyblion gyflawni deilliant 5 y Cyfnod Sylfaen erbyn yr oedran hwn, a disgwylir i'r rhai mwyaf abl gyflawni deilliant 6 neu'n uwch.

Mae'r siart isod yn cymharu'r canlyniadau ar gyfer 2012 a 2013.

**Ffigur 3.1: Y Cyfnod Sylfaen – canran y disgyblion sy'n cyflawni'r deilliant disgwyliedig (deilliant 5) neu'r deilliant disgwyliedig ac un yn ychwanegol (deilliant 6), 2012-2013**

Yn cyflawni deilliant 5+
Yn cyflawni deilliant 6+




DPCh:
Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

ILIChS:
Medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu – Saesneg

ILIChC:
Medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu – Cymraeg

DM:
Datblygiad mathemategol

DCS (a):
Dangosydd y Cyfnod Sylfaen

(a) Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen yn cynrychioli canran y disgyblion sy'n cyflawni deilliant 5 neu'n uwch mewn datblygiad personol a chymdeithasol, ILICh Saesneg/ILICh Cymraeg a DM gyda'i gilydd.

Yn 2013, bu gwelliant yng nghanran y disgyblion sy'n cyflawni o leiaf deilliant 5 ym mhob maes dysgu.

Bu gwelliant yng nghanran y disgyblion sy'n cyrraedd y deilliannau uwch ym mhob maes dysgu hefyd. Bu gwelliant o dros saith pwynt canran yn y ganran sy'n cyflawni deilliant 6 neu'n uwch mewn datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol, sef bron ddwywaith yn fwy na'r gwelliant mewn meysydd eraill.

[12] SDR 128/2013 Deilliannau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ac Asesiadau Athrawon y Cwricwlwm Cenedlaethol yn y Pynciau Craidd yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, 2013, Llywodraeth Cymru http://wales.gov.uk/statistics-and-research/end-foundation-phase-outcomes-national-curriculum-teacher-assessment-core-subjects-key-stages-2-3/?skip=1&lang=cy


# Perfformiad disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3[13]

Pan gânt eu hasesu gan eu hathrawon ym mhynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol (Saesneg neu Gymraeg mamiaith, mathemateg a gwyddoniaeth), disgwylir i ddisgyblion gyflawni lefel 4 erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 pan fyddant yn 11 mlwydd oed a disgwylir i'r rhai mwyaf abl gyrraedd lefel 5.

Yng nghyfnod allweddol 2, yn 2013, bu gwelliant mewn canlyniadau yn yr holl bynciau. Mae'r gwelliant mwyaf mewn Cymraeg mamiaith a'r gwelliant lleiaf mewn mathemateg, er mai yn y pwnc hwn y mae'r perfformiad gorau ond un ar ôl gwyddoniaeth. Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig o leiaf ym mhob un o'r tri phwnc craidd (sy'n cael ei adnabod fel y dangosydd pwnc craidd neu'r DPC) wedi gwella mwy na saith pwynt canran yn y pum mlynedd diwethaf.

Yn 2013, bu gwelliant yng nghanran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 5 yn yr holl bynciau hefyd. Mae dros draean o'r holl ddisgyblion yn cyrraedd y lefel hon mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth erbyn hyn. Mae tri allan o ddeg yn cyrraedd y lefel hon mewn Cymraeg mamiaith.

**Ffigur 3.2: Cyfnod allweddol 2 – Canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 4) a'r lefel ddisgwyliedig ac un yn ychwanegol (lefel 5), 2009-2013**





[13] SDR 128/2013 Deilliannau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ac Asesiadau Athrawon y Cwricwlwm Cenedlaethol yn y Pynciau Craidd yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, 2013, Llywodraeth Cymru http://wales.gov.uk/statistics-and-research/end-foundation-phase-outcomes-national-curriculum-teacher-assessment-core-subjects-key-stages-2-3/?skip=1&lang=cy

Mae disgwyl i ddisgyblion gyrraedd o leiaf lefel 5 ar ddiwedd cyfnod allweddol 3, pan fyddant yn 14 oed, a disgwylir i'r rhai mwyaf abl gyrraedd lefel 6 neu 7.

Yn 2013 yng nghyfnod allweddol 3, bu gwelliant mewn canlyniadau ym mhob un o'r pynciau craidd o ryw dri phwynt canran neu fwy am yr ail flwyddyn yn olynol. Bu gwelliant o 4.5 pwynt canran yng nghyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig ym mhob un o'r tri phwnc craidd (y dangosydd pwnc craidd), sydd yr un fath ag yn y flwyddyn flaenorol.

Bu gwelliant hefyd yn y ganran sy'n cyflawni'r lefelau uwch yn 2013. Mae'r canrannau uchaf sy'n cyflawni'r lefelau hyn unwaith eto mewn mathemateg, lle mae dros hanner yr holl ddisgyblion yn cyrraedd o leiaf lefel 6 a mwy nag un mewn pump yn cyflawni lefel 7. Mae tuag un o bob saith disgybl yn cyrraedd lefel 7 mewn gwyddoniaeth a thuag un o bob wyth disgybl yn cyrraedd hyn ar gyfer Saesneg a Chymraeg mamiaith.

**Ffigur 3.3: Cyfnod allweddol 3 – canran y disgyblion yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 5), y lefel ddisgwyliedig ac un yn uwch (lefel 6) a'r lefel ddisgwyliedig a dau yn uwch (lefel 7), 2009-2013**



# Arholiadau yng nghyfnod allweddol 4[14]

**Ffigur 3.4: Canlyniadau arholiadau ar gyfer disgyblion 15 oed mewn ysgolion yng Nghymru**

| | 2008-2009 | 2009-2010 | 2010-2011 | 2011-2012 | 2012-2013 |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran yn cyflawni trothwy lefel 2 gyda Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg | 47.2% | 49.4% | 50.1% | 51.1% | 52.7% |
| Canran yn cyflawni trothwy lefel 2 | 60.7% | 63.8% | 67.3% | 72.6% | 77.8% |
| Gwahaniaeth pwynt canran rhwng y ddau ddangosydd hyn | 13.5 | 14.4 | 17.2 | 21.5 | 25.1 |

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 4, mae disgyblion 15 mlwydd oed yn sefyll arholiadau allanol. Yn 2013, cyflawnodd bron i wyth allan o ddeg o'r disgyblion hyn drothwy lefel 2. Fodd bynnag, bu gwelliant o lai na dau bwynt canran yn y ganran yn cyflawni'r trothwy hwn gyda chymhwyster lefel 2 mewn Saesneg neu Gymraeg mamiaith ac mewn mathemateg yn 2013. Mae'r gwahaniaeth rhwng canrannau'r disgyblion yn cyflawni'r ddau ddangosydd hyn yn parhau i gynyddu. Mewn blynyddoedd blaenorol, rydym wedi mynegi pryder am y bwlch sy'n ehangu yn y canlyniadau hyn. Mae'r bwlch bron wedi dyblu yn y pum mlynedd diwethaf ac mae'n 25 pwynt canran erbyn hyn. Nid yw ysgolion yn gwneud digon o gynnydd wrth wneud yn siŵr bod disgyblion sy'n cyflawni trothwy lefel 2 hefyd yn ennill cymwysterau yn y meysydd allweddol hyn, sy'n flaenoriaethau cenedlaethol i Gymru.

[14] SFR 205/2013 Canlyniadau Arholiadau yng Nghymru, 2012/13, Llywodraeth Cymru
http://wales.gov.uk/statistics-and-research/examination-results/?skip=1&lang=cy

# Gwahaniaethau mewn perfformiad rhwng bechgyn a merched

**Ffigur 3.5: Perfformiad bechgyn a merched ar draws y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

| | Merched 2013 | Bechgyn 2013 | Gwahaniaeth pwynt canran 2013 | Gwahaniaeth pwynt canran 2012 |
|---|---|---|---|---|
| Canran yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen | 87.3% | 78.9% | 8.4 | 10.2 |
| Canran yn cyflawni dangosydd pwnc craidd cyfnod allweddol 2 | 87.5% | 81.4% | 6.1 | 6.6 |
| Canran yn cyflawni dangosydd pwnc craidd cyfnod allweddol 3 | 81.9% | 72.4% | 9.5 | 11 |
| Canran yn cyflawni dangosydd pwnc craidd cyfnod allweddol 4 | 58.2% | 45.5% | 7.7 | 7.8 |

Mae merched yn parhau i berfformio'n well na bechgyn ym mhob cyfnod allweddol. Mae'r gwahaniaethau mwyaf yn parhau i fod yng nghyfnod allweddol 3.


Fodd bynnag, yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnodau allweddol 2 a 3, lleihaodd y bwlch rhwng bechgyn a merched yn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd yn 2013 a hwn yw'r isaf yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'r gwahaniaethau mwyaf mewn perfformiad yn parhau i fod mewn Saesneg a Chymraeg mamiaith, ac mewn mathemateg ar y lefel uwch yng nghyfnod allweddol 2 lle mae bechgyn yn parhau i berfformio'n well na merched.

# Presenoldeb a gwaharddiadau

Mae'r cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion cynradd[15] wedi aros tua 93% er 2002-2003. Yn 2012-2013, mae gostyngiad bach ym mhresenoldeb cyffredinol ysgolion cynradd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Nid oes unrhyw wahaniaeth rhwng cyfraddau presenoldeb bechgyn a merched. Mae'r cyfraddau presenoldeb isaf yn yr ysgolion hynny sydd â'r gyfran uchaf o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Eleni, bu cynnydd tebyg i'r cynnydd a wnaed yn y flwyddyn flaenorol mewn presenoldeb mewn ysgolion uwchradd[16] ar lefel Cymru gyfan. Mae hyn yn cynnal y gyfradd wella ychydig yn gyflymach dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae cyfradd presenoldeb bechgyn yn parhau i fod ychydig yn uwch na chyfradd presenoldeb merched. Yn 2012-2013, roedd mwy o ddisgyblion nag yn y flwyddyn flaenorol na fuont yn absennol o'r ysgol o gwbl, ac roedd llai ohonynt yn absennol am fwy na 25 diwrnod.

**Ffigur 3.6: Presenoldeb yng Nghymru gan ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol**





(a) Mae presenoldeb cynradd yn cynnwys data ar gyfer ysgolion arbennig ac ysgolion annibynnol hefyd lle caiff ei ddarparu.

(b) Mae presenoldeb uwchradd yn cynnwys data ar gyfer ysgolion arbennig ac ysgolion annibynnol hefyd lle caiff ei ddarparu.

[15] SDR 221/2013 Absenoldeb o ysgolion cynradd 2012/13, Llywodraeth Cymru
http://wales.gov.uk/statistics-and-research/absenteeism-primary-schools/?skip=1&lang=cy
[16] SDR 149/2013 Absenoldeb o ysgolion uwchradd, 2012/13, Llywodraeth Cymru
http://wales.gov.uk/statistics-and-research/absenteeism-secondary-schools/?skip=1&lang=cy

**Ffigur 3.7: Nifer y gwaharddiadau parhaol o ysgolion cynradd ac uwchradd a gynhelir yng Nghymru, 2007-2012**




Bu gostyngiad pellach yn nifer y gwaharddiadau parhaol yng Nghymru[17] yn 2011-2012. Roedd bechgyn yn cyfrif am bron i dri chwarter o'r gwaharddiadau parhaol. Y ddau brif reswm a roddwyd am waharddiadau parhaol oedd ymosod ar staff neu drais tuag atynt a herio rheolau. Yn 2011-2012, parhaodd bron i chwarter o'r disgyblion a waharddwyd â'u haddysg mewn unedau cyfeirio disgyblion. Nid oedd unrhyw ddarpariaeth ar gyfer ychydig dros 20% o'r rhai a waharddwyd.

Yn 2011-2012, bu gostyngiad yng nghyfanswm nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol hefyd, ac mae ar ei isaf er 2004-2005. Mae hyn yn cynnwys gwaharddiadau byrrach o bum niwrnod neu lai a gwaharddiadau hwy o chwe diwrnod neu fwy. Herio rheolau yw'r rheswm mwyaf cyffredin am waharddiadau byrrach a hwy fel ei gilydd.

Roedd disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn cyfrif am ychydig dros hanner o'r holl waharddiadau yn ystod 2011-2012. Mae bron chwarter o'r holl waharddiadau ymhlith disgyblion ym Mlwyddyn 10.

[17] SDR 26/2013 Gwaharddiadau o Ysgolion yng Nghymru, 2011/12, Llywodraeth Cymru
http://wales.gov.uk/statistics-and-research/exclusions-schools/?skip=1&lang=cy

# Dysgwyr ôl-16 mewn ysgolion[18]

### Ffigur 3.8: Canlyniadau arholiadau ar gyfer disgyblion 17 oed mewn ysgolion yng Nghymru

| | 2009-2010 | 2010-2011 | 2011-2012 | 2012-2013 |
|---|---|---|---|---|
| Canran yn cyflawni trothwy lefel 3 | 94.9% | 96.3% | 96.9% | 96.5% |
| Sgôr pwyntiau ehangach | 747.9 | 798.9 | 772.9 | 806.6 |

Mae canran y dysgwyr ôl-16 yn yr ysgol a gyflawnodd drothwy lefel 3 wedi bod yn debyg dros y tair blynedd diwethaf.

Bu gwelliant yn y canlyniadau ar gyfer y sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog hefyd yn 2013.

[18] SFR 205/2013 Canlyniadau Arholiadau, 2012/13, Llywodraeth Cymru
http://wales.gov.uk/statistics-and-research/examination-results/?skip=1&lang=cy

# Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant[19]

Ar ddiwedd 2012, bu gostyngiad o ddau bwynt canran yng nghanran y bobl 18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, a dyma yw'r isaf am chwe blynedd.

Fodd bynnag, bu ychydig o gynnydd yng nghanran y bobl ifanc rhwng 19 a 24 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn 2012.

**Ffigur 3.9: Canran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, 2009-2012**

| Oedran | 2009 | 2010 | 2011 | 2012 |
|---|---|---|---|---|
| **16-18** | 12.4% | 11.5% | 12.2% | 10.2% |
| **19-24** | 21.8% | 23.0% | 22.2% | 23.0% |


[19] SB 99/2013 Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NACH) (Blwyddyn hyd at 30 Mehefin 2013), Llywodraeth Cymru http://wales.gov.uk/statistics-and-research/young-people-not-education-employment-training/?skip=1&lang=cy

# Medrau, addysg bellach a dysgu gydol oes[20]

At ei gilydd, cynyddodd lefelau cymhwyster yng Nghymru yn 2012, gan barhau â'r cynnydd cyffredinol a welwyd yn y blynyddoedd diwethaf.  Yn 2012, roedd tri chwarter o oedolion oedran gweithio yng Nghymru wedi ennill o leiaf cymwysterau lefel 2 ac roedd traean o oedolion wedi ennill cymwysterau lefel gradd (lefel 4 neu'n uwch).  Yn 2012, amcangyfrifir nad oedd gan 11% o oedolion oedran gweithio yng Nghymru unrhyw gymwysterau.

Yn gyffredinol, roedd lefelau cymhwyster ar eu huchaf yn Sir Fynwy, Ceredigion, Bro Morgannwg, Gwynedd a Chaerdydd, ac ar eu hisaf yn awdurdodau cymoedd De Cymru.  Yn gyffredinol, roedd lefelau cymhwyster yng Nghymru yn is nag yn Lloegr, Yr Alban a'r DU yn gyffredinol, ond yn uwch nag yng Ngogledd Iwerddon.

**Ffigur 3.10:  Lefel y cymwysterau uchaf a ddelir gan oedolion o oed gweithio, 2003-2012**





[20] SB 109/2013 Lefelau'r cymwysterau uchaf a ddelir gan oedolion o oed gweithio yng Nghymru, 2012, Llywodraeth Cymru
http://wales.gov.uk/statistics-and-research/levels-highest-qualification-held-working-age-adults/?skip=1&lang=cy

# Addysg bellach[21]

Bu rhywfaint o welliant mewn cyfraddau cyrhaeddiad yn 2011-2012 ar bob lefel, a chyfradd cyrhaeddiad gyffredinol o 91% ar gyfer yr holl nodau dysgu, o gymharu â 90% ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Roedd cyfraddau cyrhaeddiad yn amrywio rhwng gwahanol feysydd pwnc, gan amrywio o 84% mewn Hanes, Athroniaeth a Diwinyddiaeth i 95% mewn Lletygarwch ac Arlwyo.

**Ffigur 3.11: Cyfraddau llwyddiant gweithgarwch dysgu cyffredinol mewn colegau addysg bellach, 2009-2012**




(a) Mae'r data ar gyfer 2009/10 yn cynnwys rhywfaint o ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned a gyflwynir gan golegau addysg bellach. Felly, efallai na fydd modd cymharu'n uniongyrchol â data diweddarach.


Bu rhywfaint o welliant yn y gyfradd lwyddo gyffredinol yn yr holl golegau addysg bellach yn 2011-2012. Roedd cyfraddau llwyddiant ar eu huchaf ar lefelau 1 a 2, sef 82%, ac ar eu hisaf ar lefel 3, sef 80%. Mae hyn yn dangos ychydig o gynnydd mewn cyfraddau llwyddiant cyffredinol o'r flwyddyn flaenorol, sef 81% ar gyfer lefel 1, 78% ar gyfer lefel 2 a 77% ar gyfer lefel 3 yn y drefn honno.

[21] SDR 53/2013 Mesurau Canlyniadau Dysgwyr ar gyfer Addysg Bellach a Dysgu Seiliedig ar Waith: 2011/12, Llywodraeth Cymru http://wales.gov.uk/statistics-and-research/learner-outcome-measures-further-education-work-based-learning/?skip=1&lang=cy *Sylwer: Gwnaed rhai newidiadau i'r ymdriniaeth a'r fethodoleg ar gyfer y datganiad ystadegol hwn o gymharu â blynyddoedd blaenorol mewn perthynas â chyflwyno'r egwyddorion rheoli data newydd ar gyfer darparwyr dysgu.*

# Dysgu yn y gwaith[22]

Yn 2011-2012, roedd cyfraddau llwyddiant yn y fframwaith dysgu yn y gwaith mewn Prentisiaethau Sylfaen ac mewn Prentisiaethau ychydig yn uwch nag yn y flwyddyn flaenorol.

**Ffigur 3.12: Cyfraddau llwyddiant yn y fframwaith mewn Prentisiaethau Sylfaen a Phrentisiaethau, 2009-2012**




Yn ystod blwyddyn gyntaf y data cyhoeddedig ar gyfer rhaglenni Hyfforddeiaeth a Camau at Waith, roedd cyfraddau lwyddiant gweithgarwch dysgu yn 74% a 68% ar gyfer rhaglenni Hyfforddeiaeth (Ymgysylltu) a Hyfforddeiaeth (lefel 1) yn y drefn honno. Mewn rhaglenni Camau at Waith, cyfradd llwyddiant gweithgarwch dysgu oedd 72% ar gyfer rhaglenni Dysgu â Ffocws ar Waith ac 82% ar gyfer Llwybrau at Waith.

O fewn tri mis o gwblhau eu rhaglen Hyfforddeiaeth, roedd 43% o hyfforddeion wedi mynd ymlaen i ddysgu pellach ar lefel uwch, roedd 13% wedi dechrau cyflogaeth newydd neu'n newid cyflogaeth ac roedd 24% yn chwilio am waith neu'n ddi-waith. Aeth pump y cant o ddysgwyr ar raglenni Camau at Gyflogaeth ymlaen i ddysgu ymhellach ar lefel uwch, dechreuodd 33% gyflogaeth newydd ac roedd 44% yn ddi-waith neu'n chwilio am waith.

[22] SDR 53/2013 Mesurau Canlyniadau Dysgwyr ar gyfer Addysg Bellach a Dysgu Seiliedig ar Waith: 2011/12, Llywodraeth Cymru
http://wales.gov.uk/statistics-and-research/learner-outcome-measures-further-education-work-based-learning/?skip=1&lang=cy

www.estyn.gov.uk

Estyn

*Rhagoriaeth i bawb - Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru